

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg

Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar
gymunedau sydd â dwysedd canolog neu is o
siaradwyr Cymraeg



Comisiwn Cymunedau Cymraeg
Mawrth 2026

Trosolwg

Gwaith y Comisiwn yw gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn cryfhau polisi cyhoeddus o ran cynaliadwyedd ieithyddol mewn cymunedau, a defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol/gymdeithasol. Mae ei waith wedi'i wreiddio mewn dealltwriaeth o'r Gymraeg fel iaith sy'n perthyn i Gymru gyfan, yn ogystal â'r tu hwnt.

Ym mis Awst 2024 cyhoeddodd y Comisiwn *Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg* ar sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr, sef cam cyntaf ei waith. Bryd hynny hefyd lansiwyd ail gam y Comisiwn. Yr adroddiad isod yw adroddiad yr ail gam hwnnw.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Cymraeg 2050

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

Cymraeg2050@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar [wefan y Comisiwn](#)

Aelodau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg



Dr Simon Brooks
**Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau
Cymraeg**



Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones
**Is-gadeirydd y Comisiwn Cymunedau
Cymraeg**



Kate Windsor Brown



Elin Pinnell



Dr Rhian Hodges



Dr Gwennan Higham



Daniel Tiplady



Dr Jon Gower



Malachy Edwards



Ffion Gruffudd

Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar am fewnbwn a chymorth Ian Gwyn Hughes,
yn arbennig o ran [Symposiwm Sgôr: pêl-droed a ieithoedd lleiafrifedig](#).

Rhagair y Cadeiryddion.....	5
Crynodeb gweithredol.....	6
Cylch Gwaith y Comisiwn.....	10
Cyfarfodydd y Comisiwn a chyfranwyr iddynt	10
Dull a chynulleidfa.....	10
1 Cyflwyniad i'r adroddiad.....	12
1.1 Y Gymraeg yng nghyd-destun tiriogaeth Cymru	12
1.2 Gwaith y Comisiwn yng nghyd-destun targedau i'r Gymraeg	13
1.3 Sail ein gwaith.....	13
1.4 Datblygiadau a fydd o fudd i'r Gymraeg.....	14
1.5 Yr ardaloedd y mae ail gam y Comisiwn yn edrych arnynt	15
1.6 Proffil ystadegol ardaloedd o dan sylw.....	15
1.7 Ardaloedd dwysedd canolig	19
1.8 Categoriâu o ardaloedd dwysedd canolig.....	19
1.9 Y Gymraeg fel iaith genedlaethol ac iaith gymunedol	21
1.10 Gofodau lle mae modd defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd	22
1.11 Y ddadl iaith a hyder	22
1.12 Iaith a gofodau	23
1.13 Polisi addysg Llywodraeth Cymru	25
1.14 Seiliau cysyniadol	25
2 Cyd-destun cymdeithasol y Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is.....	27
2.1 Dosbarth cymdeithasol ac amddifadedd	28
2.2 Cyfalaf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd	30
2.3 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.....	31
2.4 Cymunedau amlddiwylliannol a chrefyddol	31
2.5 Rhywedd a rhywioldeb.....	34
2.6 Anabledd.....	35
2.7 Y Gymraeg fel offeryn cymdeithasol: yr hyn sydd yn bosibl	36
2.8 Casgliad.....	38
3 Trosglwyddo a chymdeithasoli iaith.....	40
3.1 Trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau: tystiolaeth ystadegol.....	41

3.2	Yr hyn a allai fod y tu ôl i'r ystadegau	43
3.3	Polisi ar drosglwyddo'r Gymraeg	44
3.4	Ymchwil ymddygiadol a throsglwyddo'r Gymraeg	45
3.5	CAM-Y a throsglwyddo'r Gymraeg: goblygiadau polisi	46
3.6	Trosglwyddo'r Fasgeg: paradeim newydd i Gymru ei efelychu?	51
3.7	Ail-fframio asiantau a gofodau cymdeithasoli	55
3.8	Cefnogi rhieni a gofalwyr o bob cefndir ieithyddol	59
3.9	Gweithredu ar raddfa eang	66
3.10	Crynodeb: trosglwyddo a chymdeithasoli iaith	67
4	Cymdeithasoli'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol: diwylliant, hamdden a phobl ifanc	69
4.1	Chwaraeon	69
4.2	Cynllunio ieithyddol ym maes diwylliant	72
4.3	Creu gofodau digidol	73
4.4	Rôl y cyfryngau	74
4.5	Agweddau pobl ifanc at y Gymraeg	75
4.6	Cymraeg fel iaith yr ysgol	76
4.7	Agweddau a defnydd	77
4.8	Mudiadau a chlybiau pobl ifanc	79
4.9	Cerddoriaeth a gigs Cymraeg	80
4.10	Datblygu cymunedol a'r sector ieuenctid creadigol	80
4.11	Yr 'wyl' Gymraeg fel offeryn cynllunio ieithyddol	81
5	Gweithleoedd a'r Gymraeg	83
5.1	Pam mae gweithleoedd yn allweddol yn yr ardaloedd hyn	83
5.2	Cyfundrefn ddwyieithog Cymru	84
5.3	Y rhesymau cymdeithasol a 'phobl' dros weithredu'n ddwyieithog	84
5.4	Amcanion: y rhesymau dros ddewis gweithleoedd	85
5.5	Patrymau gweithio	86
5.6	Y weledigaeth: ystyr gofodau Cymraeg yn y gweithle	88
5.7	Y newid sydd ei angen	89
5.8	Safonau, diwylliant a chydymffurfiaeth	92
5.9	Cyfrifoldeb ieithyddol corfforaethol	94
5.10	Cynllunio'r gweithlu	95

5.11	Technoleg yn y gweithle dwyieithog	101
5.12	Mudiadau a mentrau cymdeithasol fel gweithleoedd	104
5.13	O egwyddorion i ymarferion: gweithleoedd fel gofodau cymdeithasoli.....	107
6	Diweddsglo	108
7	Rhestr argymhellion.....	111
8	Llyfryddiaeth	115

Rhagair y Cadeiryddion

Mae'n ffrainc cyflwyno i Lywodraeth Cymru, 'Cyrraedd pob Cymuned, Cryfhau'r Gymraeg', adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd canolog neu is o siaradwyr Cymraeg.

Ein man cychwyn ym mhob agwedd ar waith y Comisiwn yw bod y Gymraeg yn iaith genedlaethol sy'n perthyn i bob un ohonom—waeth pwy ydym, ble rydym yn byw, neu faint ohoni y gallwn ei siarad.

Mae cynyddu defnydd cymunedol o'r Gymraeg yn hollbwysig ym mhob rhan o Gymru. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cynnig cyfres o argymhellion a fydd, o'u gweithredu, yn arwain at y cynnydd hwnnw. Nid rhestru'r arfer dda sy'n digwydd yng Nghymru heddiw oedd ein bwriad wrth lunio'r adroddiad, ond yn hytrach gyflwyno syniadau, strategaethau a dulliau er mwyn prysuro at gyrraedd ein nod a chyflawni ein gweledigaeth fel cenedl ar gyfer dyfodol y Gymraeg.

Saif yr adroddiad hwn ochr yn ochr â 'Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg', adroddiad y Comisiwn ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr ac â'i adroddiad ar Gynllunio Gwlad a Thref. Yn ganolog i'r ddau adroddiad, mae'r angen i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Daw hefyd adroddiad gan y Comisiwn am y Gymraeg y tu allan i Gymru. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion allweddol er mwyn inni fedru cynnal a datblygu'r Gymraeg fel iaith gymunedol ac fel iaith genedlaethol fel ei gilydd. Maent yn flaenoriaethau sydd angen adnoddau digonol i'w rhoi ar waith.

Ym mis Mai 2025, bu rhaid i Simon gamu o'r neilltu fel Cadeirydd am gyfnod er mwyn derbyn triniaeth yn sgil diagnosis o ganser. Bu rhaid i ni addasu ein swyddogaethau fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd, ac fe ddaeth Elin yn Gadeirydd dros dro am gyfnod o wyth mis. Pan ddychwelodd Simon ym mis Ionawr 2026, penderfynom y byddai'n ddoeth cadeirio ar y cyd.

Hoffem ein dau ddiolch i bob un o aelodau'r Comisiwn, i bawb a roddodd o'u hamser i gynorthwyo gwaith y Comisiwn ac i swyddogion Is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru am weithredu fel ysgrifenyddiaeth.

Rydym nawr yn trosglwyddo'r adroddiad hwn i'n Llywodraeth etholedig, gan hyderu y caiff ei groesawu ochr yn ochr â gwaith blaenorol y Comisiwn, i'w ddatblygu a'i wireddu.

Dr Simon Brooks a'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones

Cadeiryddion, Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion ail gam y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, sy'n canolbwyntio ar sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is o siaradwyr yng Nghymru. Mae'r Comisiwn yn cychwyn o'r egwyddor sylfaenol mai iaith genedlaethol yw'r Gymraeg sy'n perthyn i ni i gyd, waeth ble rydym yn byw, a bod cynyddu defnydd cymunedol o'r iaith ym mhob rhan o Gymru yn ganolog i strategaeth 'Cymraeg 2050.'

Mae mwyafrif siaradwyr Cymraeg Cymru (294,900 o bobl neu 54.8% o siaradwyr Cymraeg), a mwyafrif llethol poblogaeth Cymru, yn byw mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd 'canolig neu is', lle mae llai na 40% o'r boblogaeth yn y sir a'r ardal honno yn medru siarad Cymraeg. O ganlyniad, mae angen ymyriadau aml-sector i gynnal, creu a datblygu gofodau lle gall y Gymraeg gael ei defnyddio gan bobl a phlant mewn bywyd bob dydd. Rhaid i ni sicrhau fod y Gymraeg yn cyrraedd pob cymuned.

Cyflwyniad

Cyhoeddwyd adroddiad cam cyntaf y Comisiwn, 'Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg', ym mis Awst 2024. Roedd yn canolbwyntio ar ardaloedd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg. Yn dilyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu'r gwaith, lansiwyd ail gam y Comisiwn, ac mae'r adroddiad hwn yn ganlyniad i'r gwaith hwnnw.

Un o brif negeseuon yr adroddiad yw bod angen ehangu a chryfhau'r gofodau i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol—mewn gweithleoedd, cymunedau, hamdden a bywyd bob dydd.

Mae'r adroddiad wedi'i osod yng nghyd-destun targedau 'Cymraeg 2050', sy'n gosod dau brif darged:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050

Mae hefyd dair thema i 'Cymraeg 2050': (1) Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; (2) Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; (3) Creu amodau ffafriol: seilwaith a chyd-destun. Mae gwaith y Comisiwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y rhain oll, gan bwysleisio'n arbennig yr angen i sicrhau fod y ffocws polisi yn canolbwyntio ar greu amodau cymdeithasol ffafriol i ddefnyddio'r Gymraeg.

Defnyddir persbectif cynllunio ieithyddol cymunedol holistig yn yr adroddiad, gan gydnabod bod defnydd iaith yn cael ei lunio gan amgylchiadau, normau a gofodau cymdeithasol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd creu a meithrin gofodau lle mae modd defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd, gan gynnwys yr hyn a ddisgrifir fel gofodau

Cymraeg neu ofodau anadlu, mewn cyd-destunau wyneb yn wyneb a digidol fel ei gilydd.

Rydym wedi edrych yn rhyngwladol ar arfer dda mewn gwledydd eraill sydd â sefyllfa ieithyddol debyg i'r Gymraeg. Gwlad y Basg sydd yn ein tyb ni yn cynnig y model gorau—mewn polisi, ymchwil ac mewn gweithredu ar lawr gwlad. Mae cymdeithas sifig gref yn asgwrn cefn pwysig i'r gwaith arloesol a llwyddiannus sy'n digwydd yno. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at sawl ymyriad yng nghyd-destun y Fasgeg ac yn argymhell y dylid cryfhau'r dysgu rhwng y ddwy wlad yn y maes hwn.

Cyd-destun cymdeithasol y Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is

Dengys yr adroddiad fod defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is yn cael ei siapio gan strwythurau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae tlodi, amddifadedd, diffyg amser, diffyg trafnidiaeth, pellteroedd ac amser teithio, a phrinder cyfleoedd lleol yn rhwystrau rhag defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd i lawer (gweler pennod 2, 'Cyd-destun cymdeithasol y Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is').

Rydym yn tynnu sylw penodol at y ffaith bod y Gymraeg weithiau'n cael ei hystyried yn rhywbeth 'ychwanegol' yn hytrach nag fel adnodd cymdeithasol neu ddiwylliannol creiddiol. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i blethu polisi'r Gymraeg â pholisïau ar dlodi, llesiant, adfywio cymunedol a chyd-raddoldeb. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd.

Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, rhaid i bolisi iaith adlewyrchu profiadau byw pobl o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys cymunedau amlddiwylliannol a chrefyddol, pobl LHDTG+, a phobl anabl.

Trosglwyddo a chymdeithasoli iaith

Ym mhennod 3, 'Trosglwyddo a chymdeithasoli iaith', rydym yn nodi bod trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau o fewn y teulu yn parhau'n ffactor pwysig o ran cynaliadwyedd ieithyddol. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun. Mae cyfraddau trosglwyddo'n llai mewn cartrefi 2 oedolyn lle dim ond 1 o'r 2 oedolyn hynny sy'n siarad Cymraeg, ac yn aml, nid yw'r Gymraeg yn iaith arferol yn y cartref, neu'n un o ieithoedd y cartref yn y sefyllfaoedd hyn.

Rydym yn nodi bod rhai rhieni a gofalwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn dibynnu ar ysgolion i 'roddi'r Gymraeg' i'w plant, yn hytrach na bod yr iaith yn cael ei defnyddio'n gyson gartref. Er bod ysgolion yn chwarae rôl hanfodol, nid ydynt yn ddigonol i greu defnydd cymdeithasol parhaus y tu hwnt i gyfnod addysg.

O ganlyniad, rydym yn dadlau o blaid symud tuag at baradeim cymdeithasoli iaith. Mae hyn yn cydnabod mai drwy brofiad cymdeithasol y mae unigolion yn datblygu arferion ieithyddol, a bod ystod eang o asiantau'n llywio'r broses hon: rhieni a gofalwyr, ysgolion, cyfoedion, gweithgareddau hamdden, y gweithle, a gofodau digidol.

Gan dynnu ar fodelau o'r gwyddorau ymddygiadol megis CAM-Y (Cymhelliant/Amgylchiadau/Medr = Ymddygiad) a'r fframwaith HAPUS (Hawdd, Amserol, Pleserus, Undod, Sbot (gweler adran 3.5 yn benodol), mae'r Comisiwn yn nodi nad yw hyder ieithyddol yn rhagofyniad ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, ond yn ganlyniad i'w defnyddio'n llwyddiannus. Mae hyn yn awgrymu bod ymyriadau bach, ymarferol sy'n 'sbot' yn galluogi gweithredu ieithyddol go iawn yn fwy effeithiol na dulliau sy'n seiliedig ar berswâd neu godi ymwybyddiaeth yn unig.

Diwylliant, chwaraeon, pobl ifanc a'r Gymraeg

Mae pennod 4, 'Cymdeithasoli'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol: diwylliant, hamdden a phobl ifanc' yn dangos mai'r prif brofiad o'r Gymraeg i lawer o bobl ifanc mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is yw'r ysgol, gyda llai o gyfleoedd i'w defnyddio mewn cyd-destunau cymdeithasol anffurfiol. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar berchnogaeth ieithyddol, hunaniaeth, a pharhad yn y defnydd o'r Gymraeg wedi cyfnod addysg statudol.

Mae diwylliant, chwaraeon, cerddoriaeth, gweithgareddau ieuenctid a digwyddiadau cymunedol yn cael eu nodi fel gofodau lle gall y Gymraeg gael ei normaleiddio ymhellach fel iaith gymdeithasol. Fodd bynnag, dengys ein gwaith bod anghysondeb daearyddol a chymdeithasol yn y cyfleoedd sydd ar gael. Mae mynd i'r afael â hyn yn flaenoriaeth ddigamsyniol.

Rydym yn tynnu sylw at fylchau yn y gofod digidol. Mae llawer ohonom yn treulio cyfran fawr o'n hamser ar-lein, ond mae presenoldeb y Gymraeg yn wan mewn sawl math o gynnwys poblogaidd. Mae angen buddsoddiad mewn creadigrwydd digidol, cynnwys Cymraeg a chefnogaeth i grewyr ifanc er mwyn i'r Gymraeg gadw a datblygu lle ymhellach fel iaith gymdeithasol ymhlith cenedlaethau iau.

Gweithleoedd a'r Gymraeg

Ym mhennod 5, 'Gweithleoedd a'r Gymraeg', rydym yn nodi bod modd i weithleoedd fod yn ofodau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn pwysleisio'r angen i ategu'r gwaith da sydd wedi'i wneud ar gydymffurfiaeth â rheoliadau a deddfwriaeth ieithyddol drwy fabwysiadu dulliau newid a datblygu diwylliant sefydliadol, arweinyddiaeth a'r Gymraeg a chreu gofodau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd, gan gynnwys drwy dechnoleg a chynllunio'r gweithlu.

Rydym yn dadlau bod angen trin y gweithle fel safle cymdeithasoli ieithyddol, lle mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei weld yn rhywbeth ymarferol, cefnogol ac arferol, yn hytrach nag yn symbolaidd. Mae hyn yn cynnwys cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, defnyddio technoleg, newid diwylliant sefydliadol a modelu ymddygiad gan uwch-reolwyr.

Casgliad

Er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Gymraeg mae angen mynd i'r afael â'r heriau strwythurol sy'n wynebu ei defnydd mewn ardaloedd dwysedd canolig ac is. Mae'r

Gymraeg yn bodoli o fewn ecosystem gymdeithasol gymhleth, ac mae ei ffyniant yn dibynnu ar greu'r amodau lle gall pobl ei defnyddio'n rhwydd fel rhan o fywyd bob dydd. Ni ddylem ddisgwyl i unigolion fynnu neu orfod gofyn am ei defnyddio.

Mae'r adroddiad yn galw am newid mewn meddwl polisi: sef (a) gwneud ymyriadau strwythurol; (b) symud o berswâd neu ddarparu gwybodaeth tuag at alluogi; ac (c) canolbwyntio ar drawsnewid amgylcheddau cymdeithasol.

Rydym wedi llunio 'Rhestr argymhellion' sydd, yn ein tyb ni, yn cynnig ffordd ymlaen ar sut y gellir gwireddu hyn. O roi'r argymhellion hynny ar waith, gyda'r adnoddau priodol a'r ewyllys i lwyddo, gyda'n gilydd gallwn sicrhau bod y Gymraeg yn cyrraedd pob cymuned.

Cylch Gwaith y Comisiwn

Prif nod ail gam y Comisiwn oedd ystyried sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd sydd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt.

Gall y Comisiwn bennu rhai amcanion o'i eiddo ei hun sy'n fuddiol yn ei farn ef i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol. Serch hyn, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r Comisiwn drafod yr amcanion canlynol fel rhan o gylch gorchwyl yr ail gam:

- ystyried sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol neu gymunedol mewn cymunedau sydd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg
- ystyried sut y gellir cryfhau cynaliadwyedd y Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau hyn
- adnabod rôl a chyfraniad meysydd polisi allweddol mewn perthynas â'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn pan fo hynny'n berthnasol
- ystyried strategaethau perthnasol o ran y Gymraeg mewn cymunedau sydd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg
- cwblhau adroddiad cryno ar gynllunio gwlad a thref (Comisiwn Cymunedau Cymraeg 2025a)
- ystyried presenoldeb y Gymraeg tu hwnt i Gymru, gan gynnwys y cyfraniad y gallai siaradwyr Cymraeg yno ei wneud i ffyniant y Gymraeg yn gyffredinol
- cyflwyno adroddiad ac argymhellion polisi cyhoeddus i Lywodraeth Cymru cyn pen dwy flynedd o ddyddiad ei sefydlu (mis Awst 2024)

Cyfarfodydd y Comisiwn a chyfranwyr iddynt

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu at ein cyfarfodydd a'n trafodaethau. Mae llawer o'r gwaith sydd ar droed yn yr ardaloedd dwysedd canolig ac is wedi ein hysbrydoli. Ar ben hynny fe welwn botensial mawr i'w ddyfnhau, ei ledu, a'i gynyddu er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn yr ardaloedd hyn.

Fe wnaethon ni gynnal cyfarfodydd a sesiynau tystiolaeth yng Nghaerdydd, Wrecsam, Merthyr Tudful, Pontardawe, Caerffili, yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn y Sioe Fawr ac ar-lein.

Fe wnaethon ni drafod yn uniongyrchol â dros 50 o bobl a oedd yn cynrychioli ystod o randdeiliaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ymhlith y rheini roedd arbenigwyr eraill ym maes cynllunio ieithyddol ieithoedd lleiafrifedig, yn enwedig y Fasgeg, y Gatalaneg, Gaeleg yr Alban a'r Wyddeleg. Fel yn achos cam cyntaf y Comisiwn, cawsom fewnbwn ar hyd y cyfnod gan ymchwilwyr Prosiect BRO.

Dull a chynulleidfa

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn fwriadol fel dadansoddiad manwl, yn seiliedig ar dystiolaeth academiaidd a rhyngwladol, er mwyn rhoi sylfaen i drafodaeth bolisi

hirdymor ac i wneud argymhellion cadarn. Nid bwriad y ddogfen yw cynnig canllaw ymarferol i gynulleidfa leyg, ond yn hytrach adroddiad sy'n egluro cymhlethdodau cymdeithasol, ymddygiadol ac ieithyddol er mwyn cynorthwyo penderfyniadau strategol. Defnyddir cyfeiriadau llyfryddiaethol Harvard drwyddi draw a cheir 'Llyfryddiaeth' lawn yn adran 8.

1 Cyflwyniad i'r adroddiad

Gwaith y Comisiwn oedd gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn cryfhau polisi cyhoeddus o ran cynaliadwyedd ieithyddol mewn cymunedau, a defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol neu gymdeithasol. Mae ei waith wedi'i wreiddio mewn dealltwriaeth o'r Gymraeg fel iaith sy'n perthyn i Gymru gyfan, yn ogystal â'r tu hwnt.

Ym mis Awst 2024 cyhoeddodd y Comisiwn 'Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg' ar sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr, sef cam cyntaf ei waith. Wedi hynny (gan ymateb i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu'r gwaith i rannau eraill o Gymru a thu hwnt), lansiodd ail gam y Comisiwn. Yr adroddiad hwn yw adroddiad yr ail gam hwnnw. Yn ystod ein gwaith hefyd, lansiodd Senedd Cymru ymchwiliad 'Cymraeg i bawb?' a oedd yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ledled Cymru. Cyflwynodd y Comisiwn dystiolaeth i'r ymchwiliad (Comisiwn Cymunedau Cymraeg 2025b). Cyhoeddwyd adroddiad terfynol 'Cymraeg i bawb?' ym mis Chwefror (Senedd Cymru 2026). Mae amserlen paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn golygu nad oedd modd i ni roi ystyriaeth fanwl i ganfyddiadau'r adroddiad hwn nac ychwaith Adroddiad 5 mlynedd y Comisiynydd (Comisiynydd y Gymraeg 2026). Rydym, fodd bynnag, yn ffyddiog y bydd y ddau adroddiad yn gyfraniadau pwysig i drafodaethau polisi dros y misoedd nesaf ac edrychwn ymlaen at ddefnyddio'r mewnwelediad y byddant yn ei roi yn ein gwaith yn y dyfodol.

1.1 Y Gymraeg yng nghyd-destun tiriogaeth Cymru

Mae mwyafrif siaradwyr Cymraeg Cymru 3 oed+ (294,900 o bobl neu 54.8% o siaradwyr Cymraeg), a mwyafrif llethol poblogaeth Cymru, yn byw mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd 'canolig neu is', lle mae llai na 40% o'r boblogaeth yn y sir a'r ardal honno yn medru siarad Cymraeg.

Ar y cyfan, nodweddir tiriogaeth Cymru gan gontinwmm rhwng ardaloedd o ddwysedd uwch, dwysedd canolig ac dwysedd is o siaradwyr Cymraeg (Comisiwn Cymunedau Cymraeg 2025b; Jones 2025). Eithriadau yw'r ardaloedd haen is sy'n ffinio'n uniongyrchol gydag ardaloedd o ddwysedd uwch, heb ardal dwysedd canolig rhyngddynt.

Yn ogystal, mae canran a nifer y siaradwyr Cymraeg oddi mewn i'r deunaw sir sydd â chyfartaledd islaw 40% yn amrywio'n fawr. O ran niferoedd maent yn amrywio o 4,000 ym Mlaenau Gwent i 42,000 yn Sir Caerdydd. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig ac is. Mae hyn yn golygu nad y Gymraeg yw'r iaith 'ddiofyn' ar y stryd i raddau helaeth iawn. Un o'r prif ofodau Cymraeg yw byd addysg. Ond, ein neges yn y penodau sy'n dilyn yw bod yr angen am ofodau a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol, tu hwnt i gyfnod addysg, mewn gweithleoedd ac yn ehangach yn fwyfwy amlwg. Mae hyn yn sicrhau bod yr iaith yn berthnasol, yn hygyrch ac yn perthyn i bob un ohonom ac i bob cymuned yng Nghymru.

1.2 Gwaith y Comisiwn yng nghyd-destun targedau i'r Gymraeg

Mae strategaeth Cymraeg 2050 (Llywodraeth Cymru 2017) yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer dyfodol y Gymraeg, gyda dau brif darged:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050
- canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013 i 15) i 20 y cant erbyn 2050

Mae'r targedau hyn yn darparu cyfeiriad clir i Lywodraeth Cymru a llywodraeth ehangach yng Nghymru, y sector cyhoeddus, ac i ddinasyddion. Maent yn pwysleisio'r egwyddor sylfaenol fod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd—felly hefyd y cyfrifoldeb am ei dyfodol. Bydd gwaith dau gam y Comisiwn, wrth reswm, yn cyfrannu at amcanion strategol Cymraeg 2050.

Yn sail i Cymraeg 2050, mae ymrwymiad i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn enwedig y nod o greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' (Llywodraeth Cymru 2015).

Mae i strategaeth Cymraeg 2050 dair thema:

1. cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg, drwy addysg, trosglwyddo o fewn y teulu, a chyfluoedd dysgu i oedolion
2. cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mewn bywyd cymunedol, gwaith, gwasanaethau a hamdden
3. sicrhau amodau ffafriol, gan gynnwys seilwaith, polisïau, a chyd-destun cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu

1.3 Sail ein gwaith

Fe wnaethom ymgysylltu ar hyd y daith â nifer o randdeiliaid, unigolion a grwpiau sydd yn byw, gweithio, neu sydd â chysylltiad agos â'r ardaloedd dwysedd canolig ac is. Cafwyd cyfoeth o syniadau, sylwadau a phrofiadau. Fel rheol, nid ydym yn enwi sefydliadau nac unigolion yn yr adroddiad, ond hoffem ddiolch i Dr Gwenllïan Lansdown Davies a Dr Kathryn Jones am gynnig sylwadau annibynnol ar ddrafft cynnar o'r adroddiad hwn, i Ben Caspersz ac Emily Rayner am eu mewnbwn ar y gwyddorau ymddygiadol, ac i Dr Ane Ortega a Dr Paula Kasares am rannu o'u profiad cynllunio ieithyddol yn achos y Fasgeg.

Yn ystod y trafodaethau hyn oll, daeth un thema amlwg i'r wyneb dro ar ôl tro, sef bod dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ond fod rhwystrau systemig yn atal cyrraedd y potensial i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

1.4 Datblygiadau a fydd o fudd i'r Gymraeg

Cafodd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (Llywodraeth Cymru 2025c) Gydsyniad Brenhinol yn ystod gwaith y Comisiwn. Rydym o'r farn y bydd yn gyfraniad sylweddol i ddyfodol y Gymraeg. Nid yw'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â pholisi addysg yn uniongyrchol ond mae sawl un o'n hargymhellion ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, ac ar gyfer 'cymdeithasoli' iaith, yn gysylltiedig â'r system addysg. Rydym yn nodi amcan y Ddeddf i bob dysgwr adael yr ysgol yn siaradwr hyderus y Gymraeg yn 16 oed erbyn 2050 (ar lefel B2 y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd ar gyfer leithoedd). Oherwydd hyn, ein disgwyliad yw y bydd un o'r heriau a glywsom lawer gwaith yn y dystiolaeth a roddwyd ger ein bron, sef y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol (ac ar ôl gadael yr ysgol), yn ehangu dros y blynyddoedd nesaf, wrth i ragor o bobl gaffael y Gymraeg drwy'r system addysg. Rydym wedi clywed bod awch ac awydd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gyd-destun yr ysgol, fel sydd i gaffael y Gymraeg ar ôl y cyfnod addysg statudol gan oedolion a fagwyd yng Nghymru a chan bobl sydd wedi ymgartrefu yma neu sydd wrthi'n gwneud hynny. Ond nid yw defnydd iaith a theithiau iaith siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd amrywiol yn bodoli mewn gwagle cymdeithasol. Yn yr adroddiad, byddwn yn cyfeirio at waith newid ymddygiad sydd ei angen er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned—ochr yn ochr â chryfhau cyfleoedd—er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd dwysedd canolig ac is.

Felly er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gryfhau defnydd cymunedol o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol—mewn gweithleoedd, hamdden a bywyd bob dydd—mae'n bwysig cydnabod yn glir fod y blynyddoedd cynnar a dechrau'r siwrnai ieithyddol yn gwbl ganolog i gynaliadwyedd hirdymor yr iaith yn yr ardaloedd dwysedd canolig ac is hyn.

Yn y cyd-destun hwn, mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a'i dyletswyddau hybu yn darparu'r prif fecanwaith polisi ar gyfer sicrhau sylfaen gadarn yn y blynyddoedd cynnar, drwy addysg, trochi, a chefnogaeth i deuluoedd. Mae gwaith y Comisiwn felly yn ehangu ar y sylfaen honno, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd ar ôl dechrau'r siwrnai ieithyddol, a sut y gellir sicrhau parhad defnydd yn gymdeithasol ac yn gymunedol.

1.4.1 Cyllideb Cymraeg 2050

Yr arian a glustnodir ar gyfer ymyriadau polisi cymunedol Cymraeg 2050 at y flwyddyn ariannol 2026-27 (Mentrau Iaith, yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd, y Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru a Phrosiect Perthyn) yw £8.1 miliwn (£12.5 miliwn os cynhwysir Mudiad Meithrin). Ar sail hyn, roedd yn rhaid i'r Comisiwn ofyn a yw'r trefniadau cyllido presennol ar gyfer Cymraeg 2050 yn ddigon i gefnogi gwaith ar y raddfa y mae'n hadroddiad yn ei hamlinellu.

1.5 Yr ardaloedd y mae ail gam y Comisiwn yn edrych arnynt

Mae'r ardaloedd dwysedd canolig neu is yn cyfeirio at ganran y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd penodol yng Nghymru, wedi'u diffinio ar sail y canran o boblogaeth yr ardal sydd yn medru siarad Cymraeg, yn ôl data Cyfrifiad 2021.

1.5.1 Ardaloedd dwysedd is

Mae'r term hwn yn cyfeirio at awdurdodau lleol lle mae'r canran o siaradwyr Cymraeg yn is na 20%. Mae hyn yn cynnwys 16 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

1.5.2 Ardaloedd dwysedd canolig

Mae'r categori hwn yn cynnwys ardaloedd lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn amrywio rhwng oddeutu 20% a 40% o fewn siroedd dwysedd canolig neu is. Ar lefel awdurdod lleol, mae Conwy a Sir Ddinbych yn ardaloedd dwysedd canolig.

Cyfeiriodd adroddiad cam cyntaf y Comisiwn at yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is [ACEHI neu LSOA] sydd o ddwysedd uwch o fewn awdurdodau lleol dwysedd canolig neu is (hynny yw ardaloedd penodol oddi fewn i Sir Conwy, Sir Ddinbych, Sir Benfro, Powys a Chastell Nedd Port Talbot). Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is [ACEHI neu LSOA] dwysedd canolig, sef dros 20% ac o dan 40%, i'w cael yn siroedd Caerdydd, Wrecsam, Abertawe, Rhondda Cynon Taf a Sir y Fflint hefyd. Yn y manau hyn, gan fod y canrannau a'r niferoedd yn uwch na'r cyfartaledd yn yr awdurdod, mae'r Gymraeg yn aml yn fwy amlwg mewn sawl agwedd ar fywyd cymunedol, er bod heriau'n parhau i estyn cyfleoedd, a chynyddu ei defnydd. Ceir trafodaeth fanylach o broffil sosioieithyddol ardaloedd dwysedd canolig, yn ogystal â goblygiadau polisi isod.

1.6 Proffil ystadegol ardaloedd o dan sylw

Yn unol ag adroddiad cam cyntaf y Comisiwn gofynnwyd i ymchwilyr Prosiect BRO (astudiaeth dadansoddol o ddefnydd cymdeithasol y Gymraeg a arweinir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn cydweithrediad â Phrifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd a Choleg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen) baratoi casgliad o ystadegau demoieithyddol ar sail data Cyfrifiad 2021. Ar sail gwaith Prosiect BRO, cynigir sylwadau ynghylch rhai o'r tueddiadau pwysicaf sydd i'w gweld.

1.6.1 Dadansoddiad cynnydd a gostyngiad yn nifer a chanran siaradwyr ar hyd awdurdodau lleol Cymru

Mae canolbwyntio ar ymyriadau a all arwain at gryfhau'r Gymraeg mewn ardaloedd sydd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr yn ganolog i gylch gorchwyl y Comisiwn. Dengys y data isod fod lleihad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ym mron pob rhan o Gymru rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021. Nodwyd gostyngiad yn y nifer a'r canran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg mewn 18 o'r 22 awdurdod lleol, gan gynnwys yr ardaloedd â dwysedd uwch o siaradwyr.

Gyda chynnydd yn y nifer a'r canran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg wedi'i gofnodi yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf (a chynnydd yn y nifer, ond dim newid yn y canran ym Merthyr Tudful), mae angen dadansoddi ymhellach i ganfod a yw hyn yn adlewyrchu symudiadau poblogaeth o fewn Cymru: i ba raddau y mae'r cynnydd yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn y tair sir hyn o ganlyniad i siaradwyr Cymraeg yn symud ac ymgartrefu yno o ardaloedd eraill yng Nghymru?

1.6.2 Gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd

Gwelwyd gostyngiad yn y niferoedd sydd yn medru'r Gymraeg mewn 18 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021. Gwelwyd gostyngiad yn y pedair sir dwysedd uwch, lle mae canran y siaradwyr yn 40% neu'n uwch, sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn y siroedd sydd â dwysedd canolig neu is, gwelwyd cynnydd mewn pedair a gostyngiad mewn 14 awdurdod lleol. Y siroedd â chynnydd yn y niferoedd oedd: Caerdydd (+6,065); Bro Morgannwg (+1,500); Rhondda Cynon Taf (+800); Merthyr Tudful (+100).

Yn y 14 sir arall sydd â chanran cyfartalog o siaradwyr o dan 40% (ardaloedd sydd ar y cyfan o ddiddordeb i'r adroddiad hwn), gwelwyd cwmp o 19,000 o siaradwyr rhwng y ddau Gyfrifiad. O gyfuno niferoedd y pedair sir lle bu cynnydd ynghyd â'r niferoedd yn y 14 sir lle bu gostyngiad, gwelwyd gostyngiad net o 10,535 yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn yr awdurdodau lleol dwysedd canolig ac is.

1.6.3 Dadansoddi'r newid yn nifer y siaradwyr yn 2021 fel canran o siaradwyr fesul awdurdod lleol yn 2011

Yn ôl dadansoddiad Prosiect BRO o ddata'r Cyfrifiad, cafwyd gostyngiad yn y pwyntiau canran yn 18 o'r 22 awdurdod lleol gyda Sir Gaerfyrddin yn profi'r gostyngiad mwyaf mewn nifer (-5,200) ac mewn pwynt canran (-4%) rhwng y ddau Gyfrifiad. Ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru lle bu gostyngiad, nid oedd llawer o wahaniaeth yn y gostyngiad yn y pwynt canran, gyda'r ystod rhwng -0.2% (Abertawe) a -2.2% (Powys).

Tabl 1: Newid yn y canran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg fesul awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol	Canran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn 2011	Canran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn 2021	Newid yn y ganran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg
Abertawe	11.4	11.2	-0.2
Blaenau Gwent	7.8	6.2	-1.6
Bro Morgannwg	10.8	11.5	0.7
Caerdydd	11.1	12.2	1.1
Caerffili	11.2	10.5	-0.7
Casnewydd	9.3	7.5	-1.8
Castell-nedd Port Talbot	15.3	13.5	-1.8
Ceredigion	47.3	45.3	-2.0
Conwy	27.4	25.9	-1.5
Gwynedd	65.4	64.4	-1.0
Merthyr Tudful	8.9	8.9	0.0
Pen-y-bont ar Ogwr	9.7	9.2	-0.5
Powys	18.6	16.4	-2.2
Rhondda Cynon Taf	12.3	12.4	0.1
Sir Benfro	19.2	17.2	-2.0
Sir Ddinbych	24.6	22.5	-2.1
Sir Fynwy	9.9	8.7	-1.2
Sir Gaerfyrddin	43.9	39.9	-4.0
Sir y Fflint	13.2	11.6	-1.6
Torfaen	9.8	8.2	-1.6
Wreccsam	12.9	12.2	-0.7
Ynys Môn	57.2	55.8	-1.4

Fodd bynnag, wrth ystyried y gostyngiad yn niferoedd y siaradwyr fel canran o'r siaradwyr yn y Cyfrifiad blaenorol (2011) fesul awdurdod lleol, yna gwelwn fod y patrymau canlynol i'w gweld.

Tabl 2: Newid yn niferoedd y siaradwyr fel canran o'r siaradwyr fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer yn 2011	Nifer yn 2021	Newid yn y nifer o siaradwyr	Newid yn y niferoedd fel canran o'r siaradwyr
Abertawe	26,300	26,000	-300	-1%
Blaenau Gwent	5,300	4,000	-1,200	-24%
Bro Morgannwg	13,200	14,700	1,500	12%
Caerdydd	36,700	42,800	6,000	16%
Caerffili	19,300	17,800	-1,400	-7%
Casnewydd	13,000	11,600	-1,400	-11%
Castell-nedd Port Talbot	20,700	18,700	-2,000	-10%
Ceredigion	35,000	31,700	-3,300	-9%
Conwy	30,600	29,000	-1,600	-5%
Gwynedd	77,000	73,600	-3,400	-4%
Merthyr Tudful	5,000	5,100	100	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	13,100	13,000	-100	-1%
Powys	24,000	21,400	-2,600	-11%
Rhondda Cynon Taf	27,800	28,600	800	3%
Sir Benfro	22,800	20,600	-2,200	-9%
Sir Ddinbych	22,200	20,900	-1,300	-6%
Sir Fynwy	8,800	7,900	-900	-11%
Sir Gaerfyrddin	78,000	72,800	-5,200	-7%
Sir y Fflint	19,300	17,400	-1,900	-10%
Torfaen	8,600	7,400	-1,300	-15%
Wrecsam	16,700	16,000	-700	-4%
Ynys Môn	38,600	37,400	-1,200	-3%

- Yn siroedd Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, bu cynnydd yn y niferoedd o 16%, 12% a 3%.
- Doedd dim newid sylweddol ym Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr nac Abertawe.
- Yn y siroedd 'dwysedd uwch', gwelwyd lleihad o 3% (Ynys Môn), 4% (Gwynedd), 7% (Sir Gaerfyrddin) a 9% (Ceredigion).
- Yn y siroedd 'dwysedd canolig', gwelwyd lleihad o 5% (Conwy) a 6% (Sir Ddinbych).
- Yn Wrecsam a Sir y Fflint gwelwyd gostyngiad o 4% a 10%.
- Yng Nghastell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Phowys, gwelwyd lleihad o rhwng 9% ac 11%.

- Gwelwyd y lleihad canlynol yn siroedd Caerffili 7%, Sir Fynwy 11%, Casnewydd 11%, Torfaen 15% a Blaenau Gwent 24%.

1.7 Ardaloedd dwysedd canolig

Ymrwymodd adroddiad cam cyntaf y Comisiwn i graffu ar y Gymraeg mewn cymunedau lle mae rhwng oddeutu 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg. Nid oeddent yn ardaloedd y gellid eu diffinio'n ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan fod y Comisiwn wedi argymhell mai 40% fyddai'r trothwy ar gyfer y diffiniad hwnnw. Adnabu'r adroddiad cyntaf drothwy o oddeutu 25% ar gyfer ardaloedd dwysedd canolig. Fodd bynnag, wedi cyhoeddi 'Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg,' cafwyd dadansoddiadau pellach gan Brosiect BRO (2024) ac rydym o'r farn erbyn hyn mai doeth fyddai diffinio ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd canolig ar 20% i 39%. Mae gosod y trothwy ar 20% ar lefel awdurdod lleol yn well adlewyrchiad o'r clystyru ystadegol, gyda Sir Ddinbych ar 23% a Sir Conwy ar 26%, rhwng 5 ac 8 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O ystyried y data ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, mae gosod y trothwy ar 20% yn golygu fod 128 ohonynt, yn y dwysedd canolig o fewn yr awdurdodau dwysedd canolig neu is, yn hytrach na 62, ac mae'r rhain hefyd yn cynnwys mathau gwahanol o gymunedau. Dyma gymunedau lle mae dwysedd y siaradwyr yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

1.8 Categoriâu o ardaloedd dwysedd canolig

Adnabuwyd saith gwahanol math o ardaloedd dwysedd canolig yn adroddiad cam cyntaf y Comisiwn. Yn dilyn dadansoddiad a thrafodaeth bellach, mae'r Comisiwn o'r farn y gellir ystyried tri chategori, ag iddynt oblygiadau i'w hystyried fel a ganlyn.

1) Cymunedau y dylid eu trin fel ardaloedd dwysedd uwch drwy ddisgresiwn.

Mae'r categori hwn yn cynnwys rhannau o drefi a dinasoedd prifysgol fel Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin sydd wedi'u hamgylchynu gan gymunedau dwysedd uwch. Mae'r categori hefyd yn cynnwys ardaloedd gwledig, lled-wledig ac ar hyd yr arfordir, yn bennaf ar gyrion yr ardaloedd lle mae dros 40% yn medru siarad Cymraeg. Ymhlith y rhain mae ardaloedd megis Maldwyn hyd at y ffin â bro Croesoswallt yn Lloegr, rhannau o ogledd Sir Benfro, darnau gwasgaredig o Sir Gaerfyrddin, rhannau o Ddyffryn Clwyd, a Dyffryn Ceiriog ger Wrecsam. Mae'r cymunedau hyn yn rhan o gontinwwm ieithyddol a dylid trin y rhain fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

2) Cymunedau sydd wedi gweld twf yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r ail gategori yn cynnwys cymunedau yn ne-ddwyrain Cymru, er enghraifft i'r de o Bontypridd yn Rhondda Cynon Taf ac mewn maestrefi yng ngorllewin Caerdydd yn ogystal â rhan o dref yr Wyddgrug. Un nodwedd ynghylch siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau yn ne-ddwyrain Cymru yw bod nifer o siaradwyr Cymraeg wedi caffael yr

iaith drwy'r system addysg (mae 69% o siaradwyr Cymraeg yn ne ddwyrain Cymru wedi dechrau siarad Cymraeg yn yr ysgol yn ôl yr Arolwg Defnydd Iaith (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 2015)), wedi symud i'r ardal, neu'n ail neu drydedd genhedlaeth o deulu sydd wedi symud i'r ardal neu gaffael yr iaith drwy'r system addysg.

Mae'r cymunedau Cymraeg sydd i'w gweld erbyn heddiw wedi cael eu creu ac wedi tyfu, i raddau helaeth, o ganlyniad i'r system addysg a phatrymau mudo.

Arwyddocâd hynny yw bod potensial mawr i adeiladu ar y sgiliau hynny a'u gweithredu o ddydd i ddydd. Yn ogystal, mae achosion o siaradwyr a chefnogwyr y Gymraeg yn cyflwyno'r Gymraeg i agweddau newydd ar fywyd y cymunedau. Mae hyn yn galonogol, a'r her i bolisi iaith felly yw cynnal a chynyddu hyn.

3) Ardaloedd a oedd tan yn ddiweddar yn gymunedau dwysedd uwch

Mae'r trydydd categori yn cynnwys ardaloedd ôl-ddiwydiannol yn Sir Gaerfyrddin a gorllewin Morgannwg—ardal Cwm Tawe—yn ogystal â rhannau eraill o Gymru megis rhan o gymuned Rhosllanerchrugog ger Wrecsam. Rydym yn credu fod y cymunedau hyn yn wahanol i gymunedau dwysedd canolig sydd wedi gweld twf yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg.

Mae proffil demoieithyddol y cymunedau hyn yn tueddu i fod yn hŷn. Wrth graffu ar Gwm Tawe er enghraifft, gwelir bod data'r Cyfrifiad yn adlewyrchu hyn. Mae'r canran o siaradwyr rhwng 5 a 15 oed, oedran ysgol, fymryn yn is yng Nghastell-nedd Port Talbot (25.8%) na Chaerdydd (28.4%), Bro Morgannwg (29.2%) a Rhondda Cynon Taf (27%). Ond gwelwn fod y canran o siaradwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot rhwng 65 a 74 oed (10%) neu 75 oed neu'n hŷn (13.6%) dipyn yn uwch o gymharu â Chaerdydd (5.9% a 5.6%), Bro Morgannwg (4.8% a 4.9%) neu Rhondda Cynon Taf (4.3% a 4.1%).

Credwn fod y patrymau demoieithyddol hyn yn dystiolaeth o waddol cymunedau Cymraeg (a fu gynt yn rhai dwysedd uwch). Ond nid yw'r cymunedau hyn wedi medru atgynhyrchu'r iaith a chynhyrchu siaradwyr newydd dros y degawdau, ac mae'r shifft ieithyddol wedi digwydd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae'r canrannau o siaradwyr yn disgyn o gyfrifiad i gyfrifiad felly, wrth i'r siaradwyr hŷn a gwaddol yr hen gymunedau Cymraeg dwysedd uwch leihau.

Er hynny, mae yna le i obeithio. Gwelwn fod 25.8% o blant 5 i 15 oed yn medru'r Gymraeg. Mae'r 'hen' gymunedau yn parhau am y tro, ochr yn ochr â phrosesau a phatrymau o ailgydio yn y Gymraeg sy'n debycach i dde-ddwyrain Cymru. Ond ymhen rhai degawdau, rhagwelwn y bydd ardaloedd ôl-ddiwydiannol yn debycach i ardaloedd dwysedd is eraill Cymru na chymunedau dwysedd uwch y gorllewin. Yn fyr, yr hyn rydym yn ei weld yng Nghwm Tawe yw dirywiad y Gymraeg ar lefel gymunedol, ochr yn ochr â phrosesau cyfoes o adfywio ieithyddol.

Rydym o'r farn y byddai mwy o waith i ddadansoddi a deall y cymunedau hyn yn fanwl, gan gynnwys dadansoddiad oedran siaradwyr Cymraeg ar lefel LSOA, yn cadarnhau'r rhagdybiaeth hon ac yn llywio ymyriadau ieithyddol at y dyfodol.

Credwn fod gwersi i'w dysgu o brofiad a hanes sosioieithyddol yr ardaloedd ôl-ddiwydiannol hyn. Wrth ddadansoddi sefyllfa ieithyddol Sir Gâr a Cheredigion heddiw, mae nodweddion a oedd i'w gweld yng Nghwm Tawe ychydig ddegawdau yn ôl—megis dibyniaeth y grŵp iaith ar rwydweithiau crefyddol a chymdeithasol nad oeddent yn medru cynnal nac atgynhyrchu'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Y perygl yw bod datblygiadau sosioieithyddol a'r shifft iaith sydd ar waith heddiw yn Sir Gâr a Cheredigion yn eu gosod ar yr un llwybr â Chwm Tawe ddegawdau ynghynt.

1.9 Y Gymraeg fel iaith genedlaethol ac iaith gymunedol

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr ardaloedd dwysedd canolig ac is, mae'r Gymraeg yn iaith genedlaethol i Gymru gyfan, ac yn wir i gymunedau y tu allan i Gymru hefyd.

Mae statws swyddogol ein hiaith wedi'i gadarnhau'n glir mewn deddfwriaeth sy'n berthnasol i bob rhan o'n gwlad, hynny yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae cryfhau'r iaith ym mhob cwr o Gymru yn greiddiol i'r weledigaeth hon. Mae cryfhau'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae ganddi bresenoldeb cymunedol sylweddol yn debygol o greu effaith gadarnhaol ar draws Cymru gyfan, oherwydd y rhwydweithiau ieithyddol a chymdeithasol sy'n cysylltu ein cymunedau.

Rydym yn awyddus i weld yr egwyddor hon yn cael ei gwireddu nid yn unig ar lefel athronyddol, ond hefyd drwy weithredu ymarferol. Mewn geiriau eraill, mae cam cyntaf ac ail gam y Comisiwn yn ategu ei gilydd ac yn cynnig set o weithredoedd fydd yn cyfrannu at ddyfodol y Gymraeg ledled Cymru.

Yn ystod gwaith y Comisiwn, rydym wedi rhoi sylw i amrywiaeth o gyd-destunau ieithyddol ledled yr ardaloedd o dan sylw, gan gydnabod pwysigrwydd cymunedau daearyddol, cymunedau digidol a rhwydweithiau fel ei gilydd. Gallwn ystyried fod:

[...] angen llefydd i ni allu siarad a defnyddio'r Gymraeg.

(Person ifanc, Caerdydd)

Mae'r gymuned yn 'groesffordd cynllunio ieithyddol' (Hodges a Prys, 2019) sy'n lleoliad lle mae nifer o ddylanwadau amrywiol yn dod at ei gilydd. Mae'r gymuned yn cwmpasu:

- y teulu ac aelwydydd
- addysg ac ysgolion
- gweithleoedd

- gwasanaethau i'r cyhoedd
- hamdden
- elfennau eraill ar fywyd cymdogaeth
- parthau digidol wrth i unigolion a grwpiau gyfathrebu drwy sawl cyfrwng â'i gilydd

Yn fyr, mae angen ymyriadau a dulliau gwahanol mewn gwahanol gyd-destunau, ac fe ddylai hyn fod yn rhedeg ochr yn ochr â gweithredu polisi cenedlaethol sy'n adlewyrchu statws y Gymraeg fel iaith genedlaethol. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, rydym yn cydnabod pwysigrwydd y 'continwmm ieithyddol daearyddol' sydd yn bodoli rhwng ardaloedd o ddwysedd gwahanol o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn gofyn am ddull hyblyg a chyd-destunol o fynd ati i weithredu polisi iaith, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o brofiadau ieithyddol a'r graddau o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Yn ail, mae'n cydnabod y gyd-ddibyniaeth rhwng yr ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, canolig ac is. Gall llwyddiant mewn un ardal ddylanwadu ar ardaloedd eraill.

1.10 Gofodau lle mae modd defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd

Mae ardaloedd dwysedd canolig neu is yn aml yn cynnwys cymunedau a rhwydweithiau lle mae'r Gymraeg yn bresennol ond lle mae ei defnydd fel iaith gymdeithasol yn fwy cyfyngedig. Felly mae angen dulliau micro-gynllunio, sy'n cyfeirio at gamau lleol, ymarferol sy'n dylanwadu ar sut mae pobl yn defnyddio iaith mewn sefyllfaoedd go iawn, yn hytrach na pholisi neu ddeddfwriaeth ar lefel genedlaethol (macro). Dro ar ôl tro, wrth i ni gasglu tystiolaeth, pwysleisiwyd yr angen i ehangu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector preifat ac mewn gweithleoedd yn rhan bwysig o ecosystem ieithyddol gynaliadwy. Mae cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn yn gofyn am ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, sy'n adlewyrchu'r realiti sosioieithyddol leol.

Wrth i ni gasglu tystiolaeth, clywsom am yr angen am ofodau lle mae modd defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd ac yn ddi-rwystr. Mae hyn yn un o'r pethau lu sydd wedi'n darbwylllo bod awch ac awydd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad. Mae ardaloedd sydd â sefyllfaoedd sosioieithyddol tebyg i Gymru hefyd yn wynebu heriau tebyg ac rydym yn cyfeirio yn nes ymlaen at enghreifftiau o Wlad y Basg.

1.11 Y ddadl iaith a hyder

Wrth ystyried yr heriau wrth ddefnyddio'r Gymraeg, cawsom gyfle i ddadansoddi'r cysyniad o hyder yr unigolyn yn y cyd-destunau hyn. Mae llawer wedi priodoli'r diffyg defnydd o'r Gymraeg gan unigolion mewn sefyllfaoedd penodol i'w diffyg hyder ieithyddol. Ein safbwynt yw fod cyd-destun neu amgylchiadau'r sefyllfa yn aml iawn yn gosod normau ieithyddol, ac felly fod grym yr unigolyn o fewn sefyllfaoedd o'r fath yn gyfyngedig. Er mwyn cynyddu defnydd cymunedol o'r Gymraeg mae'n rhaid

canolbwyntio ar yr amgylchiadau a normau ieithyddol y gofodau, fel bod defnyddio'r Gymraeg yn dod yn weithred awtomatig yn y cyd-destun, yn hytrach na gweithred sydd angen 'hyder' neilltuol gan unigolyn. Rydym hefyd yn dadansoddi hyder drwy lens modelau newid ymddygiad ym mhennod 3.

1.12 Iaith a gofodau

Mae gofodau lle mae modd siarad iaith leiafrifedig yn 'ddiofyn' yn bwysig i brosesau cymdeithasoli ieithyddol, ac maent yn atgyfnerthu prosesau caffael a defnydd iaith (gweler Kasares, P., Ortega, A., Amorrortu, 2022; Ó Giollagáin et al., 2025). Mae prosesau cymdeithasoli eilaidd fel hyn yn bwysig i hyfywedd iaith leiafrifedig ac yn digwydd mewn gofodau sydd yn rhan o'r hyn a alwn ni yn 'gymunedau.'

[...] linguistic competences can be reinforced and enhanced through social and cultural exchange between proficient speakers (as relevant to the age cohort)

(Giollagáin et al., 2025)

Ein barn yw bod gofodau sy'n cynnig profiadau cadarnhaol i ddefnyddio'r Gymraeg yn arbennig o bwysig i bobl ifanc. I lawer o bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd dwysedd canolog neu is, nid oes cyfleoedd digonol i fedru defnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae nodweddion gofodau yn dylanwadu ar ymddygiad cymdeithasol gan gynnwys ymddygiad ieithyddol. Rydym yn ymwneud â gofodau fel rhan o'n hamgylchedd ffisegol ac fe allwn weld a synhwyro naws, nodweddion neu awyrgylch gwahanol ofodau neu adeiladau. Mae ein hymateb i'r gofodau hyn yn ddibynnol ar:

- ein profiad
- ein dehongliad o'r normau
- y disgwyliadau cymdeithasol a diwylliannol sydd ar ein hymddygiad

Er enghraifft, wrth i blant gamu i mewn i'r parc chwarae, deallant fod ganddynt ryddid. Yn wir cânt eu hannog, o fewn y gofod hwnnw, i chwarae, i ddringo, i redeg ac i ymddwyn mewn ffordd na fyddai'n dderbyniol mewn gofod fel ystafell fyw neu ystafell ddosbarth. Yn gryno, mae gofodau yn dylanwadu ar ein hymddygiad, ac mae iaith yn un o'r ymddygiadau hynny.

Byddwn yn cynnig argymhellion ar gyfer creu a datblygu gofodau er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Ein nod wrth wneud hyn yw creu cyd-destunau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd ac yn rhan arferol o fywyd. Mewn rhai achosion, byddwn yn cyfeirio at 'ofodau Cymraeg', a thro arall yn defnyddio'r cysyniad o 'ofodau anadlu' fel sydd wedi ei ddatblygu yn y maes sosioieithyddol.

1.12.1 Gofodau anadlu a gofodau Cymraeg

Ym marn Joshua Fishman (1991), mae 'gofod anadlu' yn anhepgor ar gyfer cynnal iaith leiafrifedig. Mae'r term Basgeg, arnasgune (gofod anadlu) wedi ei drafod yn gysyniadol dros y blynyddoedd diwethaf yn y cyfryngau Basgeg. Dadleua rhai ei fod yn golygu unrhyw ofod lle mae defnydd yr iaith yn norm cymdeithasol—er enghraifft mewn côr Basgeg o fewn ardal lle mae canran cyffredinol y siaradwyr yn isel. Dadleua eraill fod y term yn gyfyngedig i ardaloedd dwysedd uwch o siaradwyr, felly pentrefi, trefi neu faestrefi yn eu cyfanrwydd (gweler Jones, 2025).

Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, rydym o'r farn bod gofodau anadlu neu ofodau Cymraeg yn rhan annatod o strategaeth ar gyfer dyfodol yr iaith. Mae adnabod, cefnogi a datblygu'r gofodau hyn, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg, yn hanfodol ar gyfer cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ein hiaith.

Nid yw'r gofodau hyn wedi'u cyfyngu i ystafelloedd dosbarth nac i addysg ffurfiol, er fod yr ysgol yn gallu bod yn 'ofod anadlu' ei hun. Yn hytrach, maent yn amgylcheddau amrywiol a deinamig, yn ofodau cymdeithasol, proffesiynol a hamddenol lle gall siaradwyr fyw drwy'r iaith. Nid ymarfer artiffisial yw'r Gymraeg yn y gofodau hyn ychwaith, ond cyfrwng ar gyfer cysylltu, perthyn a chreadigrwydd.

Ni fydd pob 'gofod anadlu' yn unffurf ac nid ydynt o reidrwydd yn frics a mortar. Maent yn debygol o amrywio yn ôl cyd-destun, anghenion, dyheadau a realiti'r bobl sy'n eu meddiannu. Er enghraifft, gall gofod anadlu yn y gweithle ymddangos fel tîm neu ran o adran sy'n gweithio drwy'r Gymraeg. I bobl ifanc, efallai fod gofodau anadlu y tu hwnt i'r ysgol yn cynnwys clybiau ieuenctid, timau chwaraeon neu gymunedau ar-lein. Gall gofodau fod yn rhai Cymraeg fel yr Eisteddfod, neu'n ofodau lle mae'n arferol defnyddio sawl iaith (gweler Nelde, Williams a Strubell i Trueta, 1996; Lewis, Jones a Baker, 2012).

Wrth ystyried sut mae meithrin gofodau anadlu ar gyfer y Gymraeg, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig edrych y tu hwnt i'r seilwaith ffisegol a chydabod ymddygiad cymdeithasol ac ieithyddol yr unigolion sy'n gweithredu o fewn y mannau hynny. Er bod hybiau cymunedol, canolfannau iaith a mannau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnig potensial i gefnogi defnydd o'r Gymraeg, nid yw'r amgylchedd na'r adeilad ffisegol yn unig yn ddigonol. Mae ymddygiad ieithyddol yn cael ei lywio gan ffactorau cymhleth megis perthnasau pŵer, statws, a disgwyliadau cymdeithasol. Er enghraifft, mae'r Saesneg yn gallu dominyddu mewn lleoliadau ffurfiol fel y llys neu'r ysbyty, lle mae'r disgwrs swyddogol, y derminoleg dechnegol a phrosesau sefydliadol wedi'u cysylltu'n agos ag iaith y wladwriaeth.

Mae dewis iaith, gallu i siarad iaith, agweddau at iaith, ideoleg iaith a'r parth penodol yn effeithio ar sut mae unigolion yn defnyddio iaith (Hodges a Prys, 2019). Yn unol â hyn, rydym yn ceisio mynd y tu hwnt i ddulliau traddodiadol o feddwl am iaith, gan greu a hyrwyddo gofodau anadlu ar gyfer y Gymraeg. Nod hyn yw meithrin

amgylcheddau lle gall pobl ddisgwyl defnyddio'r Gymraeg. Mae'r penodau canlynol yn archwilio'r cysyniad hwn yn fanylach ar hyd ystod o gyd-destunau, gan gynnig camau ymarferol i adeiladu'r gofodau lle gall y Gymraeg gael ei defnyddio gan siaradwyr o bob math, a hynny'n ddi-rwystr.

Drwy adnabod a meithrin gofodau anadlu, gall y Gymraeg ddod yn fwy perthnasol i fywyd cymdeithasol, a chynnig cyfleoedd i bobl nad ydynt wedi defnyddio'r iaith ers gadael yr ysgol. Mae'n cynnig dull hyblyg sy'n galluogi ymestyn defnydd y Gymraeg y tu hwnt i ffiniau daearyddol traddodiadol, gan greu cyfleoedd newydd i'r iaith ffynnu.

Rydym yn credu y gall gofodau anadlu gyfrannu'n ymarferol at adfywio'r Gymraeg fel iaith gymunedol drwy:

- gynnig gofodau addas i siaradwyr nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn arferol
- hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn lleoliadau megis gweithleoedd, clybiau chwaraeon, digwyddiadau diwylliannol a gwasanaethau ieuenctid
- cysylltu cymunedau drwy rwydweithiau lleol a chenedlaethol sy'n meithrin defnydd di-rwystr o'r Gymraeg

1.13 Polisi addysg Llywodraeth Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y cysyniad fod newid ymddygiad yn ddibynnol ar gamau effeithiol sydd yn cynyddu gallu, cyfleoedd a chymhelliant unigolion mewn perthynas â'r ymddygiad. Mae'r system addysg yn chwarae rôl yn gwneud hyn mewn perthynas â gallu, cyfleoedd a chymhelliant unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Ond mae angen mwy. Dengys tystiolaeth y Comisiwn fod angen ecosystem gymdeithasol ehangach er mwyn cynnal ac atgyfnerthu defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol. Dyna yw sail ffocws yr adroddiad hwn.

Rydym yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd system addysg sydd yn llwyddo i greu siaradwyr Cymraeg annibynnol a hyderus i gynaliadwyedd iaith leiafrifedig. Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ledled y wlad i fanteisio ar bob cyfle i gynnal, cryfhau a thyfu addysg Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar ymlaen, ac i gefnogi rhieni a gofalwyr ar hyd pob cam o'r ffordd. Dylai hyn gynnwys agor ac ehangu ysgolion 'Prif iaith: Cymraeg' ar bob cyfle, gan mai dyma, yn nhyb y Comisiwn, yw'r categori o ysgol sydd fwyaf tebygol o greu siaradwyr annibynnol a hyderus yn ogystal â chreu cyfleoedd a chymhelliant i ddefnyddio'r Gymraeg.

1.14 Seiliau cysyniadol

Yn adroddiad y cam cyntaf, canolbwyntiodd y Comisiwn ar gymunedau Cymraeg yn yr ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan roi sylw manwl i ffactorau economaidd a chymdeithasol yn ei ddadansoddiad a'i argymhellion. Yn yr un modd, mae'r adroddiad hwn hefyd yn defnyddio'r persbectif hwn.

Yn aml, bydd y brif iaith mewn cymdeithas ddwyieithog yn siapio tueddiadau diwylliannol, patrymau cyfathrebu, a chynnydd technolegol. O ganlyniad, mae tuedd gynyddol i fabwysiadu'r iaith honno dros amser.

At ddibenion polisi iaith yng Nghymru, mae hyn yn golygu y dylai ymdrechion ganolbwyntio ar sefydlu amgylcheddau sosioeconomaidd a sifig sy'n annog a chefnogi siaradwyr Cymraeg i gynnal a defnyddio eu hiaith ochr yn ochr â'r iaith fwyafrifol.

Ar yr un pryd, rhaid gochel rhag gorbwysleisio ystyriaethau sefydliadol a symbolaidd. Rhaid, er enghraifft, osgoi sefyllfa lle mae'r grŵp iaith lleiafrifedig yn orddibynnol ar ysgolion i drosglwyddo'r iaith, yn arbennig os yw hyn ar draul datblygu gofodau ar gyfer trosglwyddo a chymdeithasoli'r Gymraeg yn ehangach.

Mae angen i bolisi iaith o fewn ardaloedd dwysedd canolig neu is ganolbwyntio ar sefydlu, ehangu a datblygu gallu'r grŵp iaith lleiafrifedig i gynhyrchu ei strategaethau ei hun i drosglwyddo a chymdeithasoli'r iaith.

Rhaid i bolisi iaith:

- gefnogi teuluoedd i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf yn ogystal ag ehangu cyfleoedd i gaffael a defnyddio'r iaith y tu hwnt i'r teulu
- creu gofodau cymdeithasoli lle mae modd defnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystr

Ac er mwyn datblygu strategaethau priodol ac effeithiol i gyflawni'r uchod ar hyd yr amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol o dan sylw, rhaid i bolisi iaith:

- gydnabod ac ymateb i ddynmeg ieithyddol sydd ar hyd ardaloedd dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg
- cydnabod ac ymateb i'r rhyngberthynas rhwng y Gymraeg a ffactorau sosioieithyddol ac economaidd ehangach, gan gynnwys amddifadedd, dosbarth cymdeithasol a natur gynyddol amlethnig ac amlddiwylliannol ein cymunedau.

2 Cyd-destun cymdeithasol y Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is

Amlinellodd adroddiad cam cyntaf y Comisiwn yr egwyddorion cyffredinol mai ffenomen gymdeithasol yw iaith. Mae i iaith sawl swyddogaeth gymdeithasol:

- caniatáu i bobl gyfathrebu â'i gilydd
- cario diwylliant yn ei ystyr ehangaf
- marcio hunaniaeth

Mae'r cyd-destun cymdeithasol lle y defnyddir y Gymraeg yn dra amrywiol ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Roedd adroddiad y cam cyntaf hefyd yn cydnabod y gall defnydd o'r Gymraeg amrywio yn ôl iaith aelwyd, iaith cymdogaeth, iaith addysg, iaith sector economaidd, a bod ffactorau eraill megis oedran a dosbarth cymdeithasol yn bwysig.

Wrth drafod ardaloedd dwysedd canolig neu is o dan gylch gwaith ail gam y Comisiwn, mae'n bwysig ailymweld â'r egwyddorion hyn gan fod y tueddiadau cymdeithasegol sydd ynghlwm â'r Gymraeg yn amrywio.

Fel y nododd adroddiad cam cyntaf y Comisiwn, canlyniad yr holl brosesau hyn yw fod y drafodaeth ynghylch cymunedau Cymraeg yn ymglyffwrdd yn aml â thrafodaethau am gyfiawnder cymdeithasol mewn meysydd fel y farchnad dai, yr economi ac yn y blaen. Nid mewn gwagale y mae'r Gymraeg yn bod, ond fel cyfrwng mynegiant a chyfathrebu o fewn grwpiau cymdeithasol ac fel rhan o ecosystem ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol ehangach sy'n cynnwys ieithoedd, hunaniaethau a phrofiadau amrywiol. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, mae'n rhaid deall y materion sy'n effeithio ar wahanol grwpiau cymdeithasol. Dim ond drwy gydnabod y rhain y gellir cynllunio polisiau iaith effeithiol a mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r cymunedau hyn wrth ddefnyddio a chysylltu â'r Gymraeg. Nod yr adroddiad hwn felly yw gwreiddio'r Gymraeg yn gadarn o fewn gwedd amlieithyddol cymunedau Cymru, mewn ffordd sy'n hybu cydlyniant cymdeithasol, parch ieithyddol a pherthyn.

Argymhelliad 37 cam cyntaf y Comisiwn oedd y 'dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn edrych ar faterion yn ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg.' Argymhellwyd y dylai'r grŵp 'roi ystyriaeth lawn i'r materion hyn yng nghyd-destun y Gymraeg fel iaith gymunedol ac mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch', ac y dylid hefyd roi 'sylw priodol i gyd-destunau gwledig.' Barn y Comisiwn yw y dylai'r grŵp tasg a gorffen hwn ledaenu cwrpas ei waith i gynnwys ardaloedd dwysedd is neu ganolig yn ogystal, ac yn ystod y drafodaeth sy'n dilyn, amlinellir rhai cwestiynau penodol y dylai'r grŵp hwn eu harchwilio fel rhan o'i waith.

2.1 Dosbarth cymdeithasol ac amddifadedd

Un o gasgliadau cam cyntaf y Comisiwn oedd y dylid cydnabod yn llawn arwyddocâd dosbarth cymdeithasol wrth ddatblygu polisi iaith. Un ychwanegiad pwysig i waith y grŵp tasg a gorffen fyddai ceisio gwell dirnadaeth a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng dosbarth cymdeithasol a defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd dwysedd canolig ac is, yn ogystal ag yn yr ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai hyn gael ei wneud ar sail ystod eang o ddata, er mwyn ystyried:

- sut y mae sicrhau bod y Gymraeg yn iaith sy'n berthnasol ac yn hygyrch i bawb
- sut y mae cynyddu defnydd a throsglwyddo'r Gymraeg
- sut i gynllunio ymyriadau polisi ar draws addysg, cyflogaeth a'r gymuned mewn modd bwriadus a chydlynus

Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried ardaloedd fel Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, sydd ymhlith yr ardaloedd a chanddynt y lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru.

Annigonol hyd yma yw'r ddealltwriaeth o'r berthynas ystadegol rhwng statws sosioeconomaidd (NS-SEC) a gallu yn y Gymraeg, ond mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu, yn ôl cyfrifiad 2021, fod y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod yn uwch ymhlith unigolion sy'n perthyn i'r categori 'Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol' (NS SEC Lefelau 1 i 6) mewn ardaloedd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg, a bod cynrychiolaeth is o siaradwyr Cymraeg ymhlith y dosbarth gweithiol, yn enwedig unigolion o fewn NS SEC 7+ (ac eithrio myfyrwyr, sy'n dangos y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar draws yr holl gategorïau NS SEC).

Yn wir, clywsom dystiolaeth gan arweinwyr cymunedol yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru fod angen rhoi ystyriaeth fanwl i effaith amodau a heriau cymdeithasol ac economaidd ar gyfleoedd i gaffael a defnyddio'r Gymraeg, ac ar allu pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol yn fwy cyffredinol. Er mwyn sicrhau cynnydd mewn defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau difreintiedig, mae'n hanfodol i gynllunio ieithyddol fynd y tu hwnt i ddarparu cyfleoedd ieithyddol yn unig. Dylai gynnwys dulliau integredig sy'n cydnabod bod adfywio cymunedol a chynhwysiant economaidd yn rhan annatod o adfywio ieithyddol.

Er mwyn darlunio'r hyn a olygir yn y paragraff blaenorol, trown yn awr i drafod rhai o'r heriau penodol a godwyd. Ymhlith y rhain yr oedd:

- prinder cyfalaf ac amser, gan gynnwys effaith amddifadedd incwm a chyflogaeth ac amser ar allu pobl i ddysgu neu ddefnyddio'r Gymraeg

- prinder cyfleoedd neu weithgarwch Cymraeg mewn ardaloedd difreintiedig, gan arwain at deimlad o ddiffyg mynediad at fywyd Cymraeg

Clywsom dystiolaeth mewn sawl rhan o Gymru am brinder cyfleoedd rhad ac am ddim. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, tynnwyd sylw at y gwahaniaethau economaidd a chymdeithasol rhwng gwahanol ardaloedd o'r brifddinas, gydag ardaloedd y de a'r dwyrain yn profi rhwystrau ychwanegol ar sail y ffactorau hyn. Cafwyd tystiolaeth o'r effaith a gaiff hyn ar:

- gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol yn eu hardaloedd lleol
- cyfleoedd i fedru cymryd rhan yn y gymuned Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn enwedig mewn gweithgareddau ar ôl yr ysgol

Mae amseroedd teithio—ynghyd â phellteroedd teithio—yn creu rhwystr rhag medru defnyddio'r Gymraeg, ac mae hyn yn fwy arwyddocaol fyth mewn cymunedau difreintiedig. Mae angen cefnogaeth bellach i ddisgyblion addysg Gymraeg ledled y wlad er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a'r Gymraeg. Dywed person ifanc o dde dwyrain Cymru:

Roedd e'n galed colli allan mewn clybiau ar ôl ysgol [oherwydd amser neu bellter teithio] achos mae'n rhieni yn danfon ni i'r ysgolion yma i gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd—ond ni'n colli allan ar rain yn y lle cyntaf

Gall teuluoedd o ardaloedd trefol difreintiedig wynebu rhwystrau rhag manteisio ar y cyfleoedd hyn. Gall hyn fod oherwydd bod yr ysgol yn rhy bell o'u cartref a bod y pellter teithio'n ormodol ar gyfer gweithgareddau Cymraeg ar ôl oriau ysgol.

Clywsom dystiolaeth gan arweinwyr cymunedol ac aelodau'r gymuned am effaith amddifadedd ar eu perthynas â'r Gymraeg. Yn benodol ceir her wrth geisio ymgysylltu â chymunedau lle mae amgylchiadau heriol, megis tlodi, yn golygu nad yw'r ymdrech sydd ei hangen i gyrraedd y Gymraeg yn flaenoriaeth ddydd-i-ddydd:

Dyw'r iaith ddim yn flaenoriaeth iddyn nhw ar y funud, ond mae angen plethu hyn i mewn i gael pawb i helpu ei gilydd

(Arweinydd grŵp ieuencid)

Fel yr awgryma'r dyfyniad hwn, fodd bynnag, mae'n bosibl ystyried y Gymraeg yn y cyd-destunau hyn mewn ffordd gwbl wahanol, ac mae hedyn yno y gellid ei ddatblygu. Fodd bynnag, o gydbblethu'r iaith i mewn i weithgareddau a chyfleoedd cymunedol ystyrlon, gall y Gymraeg gynnig ffyrdd newydd o ddehongli a

gwerthfawrogi hunaniaeth a diwylliant, meithrin ymdeimlad o berthyn a chreu ystyr. Nid moeth ychwanegol i'w hystyried pan fo'r amodau sosioeconomaidd yn ffafriol mo'r Gymraeg, ond rhywbeth y mae gan bawb, waeth beth fo'u cefndir, hawl i gael mynediad ati. Yr her i'r grŵp tasg a gorffen fydd canfod ffyrdd newydd o wireddu'r dyhead hwn drwy blethu'r Gymraeg i mewn i ymyriadau sy'n berthnasol i'w bywydau ac sy'n cyfuno buddiannau sosioeconomaidd a diwylliannol i gymunedau difreintiedig, gan gynnig cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol newydd.

Yn wir, yn ystod ein gwaith, clywsom fod cefnogaeth eang i'r Gymraeg mewn egwyddor, ond bod rhwystrau cymdeithasol ac economaidd i rai, gan gynnwys costau a phellteroedd teithio, yn cyfyngu ar gyfranogiad mewn realiti. Nid mater o newid agweddau at y Gymraeg mo hyn o reidrwydd felly, ond o sicrhau bod amodau byw yn caniatáu cyfranogiad. Dylid cynnal digwyddiadau o fewn cymunedau ac o fewn pellter cyrraedd rhwydd iddynt er mwyn lleihau rhwystrau fel cost a phellteroedd teithio, a sicrhau bod mynediad at ofodau Cymraeg yn hawdd. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned rydym o'r farn y dylai archwilio hyn ymhellach fod yn flaenoriaeth i'r grŵp tasg a gorffen wrth iddo estyn ei orchwyl i gynnwys ardaloedd dwysedd canolig ac is.

2.2 Cyfalaf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd

Mae deall y gwahanol fathau o gyfalaf, boed yn gymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu ieithyddol, yn ffordd arall hanfodol o werthuso sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol, ac o dadansoddi'r strwythurau grym sy'n bodoli yn y cyd-destunau cymdeithasol lle y mae'r iaith yn bodoli ac yn datblygu. Cyflwynodd Pierre Bourdieu (1986), y cymdeithasegydd Ffrengig, y cysyniad o 'gyfalaf' i esbonio'r gwahanol adnoddau sydd ar gael i unigolion, ac y mae modd eu defnyddio i sicrhau mantais gymdeithasol. Mae'n nodi 3 math o gyfalaf:

- cyfalaf economaidd, sy'n cyfeirio at adnoddau ariannol fel arian, eiddo, a chyfoeth ac yn pennu statws cymdeithasol a chyfleoedd
- cyfalaf diwylliannol, sy'n cynnwys gwybodaeth, sgiliau (gan gynnwys sgiliau ieithyddol), addysg, a dewisiadau diwylliannol
- cyfalaf cymdeithasol, sy'n cyfeirio at gysylltiadau a rhwydweithiau cymdeithasol unigolion, a mynediad at wybodaeth, cyfleoedd, ac adnoddau nad ydynt ar gael i unigolion â rhwydweithiau cymdeithasol cyfyngedig

Mae'r ffurfiau hyn o gyfalaf yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn gallu dylanwadu ar safle cymdeithasol unigolyn a'i bŵer o fewn cyd-destunau cymdeithasol amrywiol. Er enghraifft, gall diffyg cyfalaf economaidd gyfyngu ar allu cymunedau i fuddsoddi mewn seilwaith ieithyddol neu gyfleoedd gwaith lleol. Mae cyfalaf diwylliannol, fel addysg drwy'r Gymraeg, mynediad at lenyddiaeth, hanes, traddodiadau a'r cyfryngau Cymraeg er enghraifft, yn seilwaith ar gyfer cynnal a datblygu hunaniaeth ieithyddol. Yn ogystal, mae cyfalaf cymdeithasol yn chwarae rôl drwy greu rhwydweithiau cefnogol, hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, a chynnig

cyfleoedd lle gall y Gymraeg ffynnu. Gallai ystyriaeth o wahanol fathau o 'gyfalaf' helpu i ddiffinio a phennu rhaglen waith y grŵp tasg a gorffen drwy archwilio a oes, er enghraifft, brinder cyfalaf cymdeithasol i gael mynediad at ofodau Cymraeg, neu brinder cyfalaf economaidd ac amser ar gyfer dysgu gydol oes.

Gall syniadau Bourdieu helpu i ychwanegu at ein dealltwriaeth hefyd o'r ddynameg wahanol rhwng amrywiol siaradwyr y Gymraeg mewn amryfal gymunedau. Gan gydnabod bod iaith yn cael ei siarad a'i defnyddio ar hyd continwrm o ran hyfedredd ac arferion, gellid er enghraifft archwilio a oes gan rai mathau o siaradwyr Cymraeg fwy o gyfalaf cymdeithasol a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg na siaradwyr eraill mewn rhai cyd-destunau neu ardaloedd, lle y mae dwysedd siaradwyr yn is. Gallai hyn arwain at ddatblygu ffyrdd o sicrhau bod siaradwyr o bob cefndir, hyfedredd ac arfer yn cael mynediad at rwydweithiau a digwyddiadau Cymraeg, a bod cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol Cymraeg yn y gymuned bob amser yn weladwy ac yn hygyrch.

Ar y llaw arall, mae diffyg cyfleoedd cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r aelwyd yn effeithio ar bob math o siaradwr. Yn wir, gellid synio am sefyllfaoedd lle y mae gan siaradwr gyfalaf cymdeithasol yn y Gymraeg, ond fod y cyfalaf hwnnw yn isel ei werth yn y gymuned lle mae'n byw. Clywsom dystiolaeth gan ddisgyblion ysgol a oedd yn wynebu beirniadaeth am ddefnyddio'r Gymraeg ar y buarth neu mewn cyd-destunau allgyrsiol eraill, a phwysau cymdeithasol gan gyfoedion i droi at y Saesneg. Yn hyn o beth, yn ogystal â rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r rhwystrau systemig a sylfaenol sydd yn cyfyngu ar gyfalaf economaidd, diwylliannol a chymdeithasol unigolion a sut i fynd i'r afael â'r rhain yng nghyd-destun Cymru, dylai'r grŵp tasg a gorffen archwilio pa ymyriadau polisi a allai arwain at sefydlu gofodau ac amgylcheddau cymdeithasol lle y negodir y gwahanol fathau hyn o gyfalaf. Hynny er mwyn ceisio lleihau effaith gwahanol strwythurau a pherthnasau grym rhwng cyfoedion a'i gilydd a chreu lle i gynnal, cefnogi a chymhell yr iaith.

2.3 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Yn adroddiad ei gam cyntaf, pwysleisiodd y Comisiwn yr angen am ymchwil bellach i archwilio'r croestoriadau rhwng gallu ieithyddol a nodweddion gwarchodedig ar lefel leol. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, dylai cylch gorchwyl yr ymchwil hwn gynnwys yr ardaloedd dwysedd uwch, canolig ac is, ac fe ddylai ystyried siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru yn ogystal. Byddai hyn yn cynnwys sut gall profiadau byw gwahanol grwpiau amrywio mewn ardaloedd gwledig, trefol a dinesig, a pherthnasedd y Gymraeg yn y cyd-destunau hyn. Canolbwyntiwn yn y fan hon felly ar yr hyn a godwyd yn ystod gwaith ail gam y Comisiwn mewn perthynas â chymunedau amlddiwylliannol a chrefyddol, rhywioldeb, ac anabled.

2.4 Cymunedau amlddiwylliannol a chrefyddol

Tynnodd cam cyntaf y Comisiwn sylw yn benodol at yr egwyddor mai grŵp amlweddog yw unrhyw grŵp iaith, a bod y grŵp Cymraeg yn cynnwys o'i fewn

amrywiaeth fewnol sylweddol o ran nodweddion a hunaniaethau siaradwyr unigol, ynghyd â nodweddion a hunaniaethau y mae grwpiau o siaradwyr Cymraeg yn eu rhannu gyda'i gilydd ar y cyd. Mae materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant a'r Gymraeg yn greiddiol, felly, i'r ymdrech i sicrhau bod yr iaith yn perthyn i ni i gyd, ni waeth beth yw ein cefndir.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Llywodraeth Cymru 2021a) yn pwysleisio'r nod o feithrin 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.' Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Llywodraeth Cymru 2022) yn cynnwys y nod o ddileu anffafiaeth o ran mynediad at addysg a chyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg i siaradwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Ar ben hynny mae Cymraeg 2050 (Llywodraeth Cymru 2017) yn amlygu'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel ffordd o gofleidio aml-ddiwylliannaeth ac amrywiaeth.

Yng nghymunedau amlddiwylliannol Cymru, gall profiadau pobl o'r Gymraeg amrywio. Mae rhai wedi tyfu i fyny mewn ardaloedd heb lawer o gyswllt â'r iaith, rhai yn siarad Cymraeg ers cenedlaethau, ac eraill wedi magu cysylltiad â'r Gymraeg drwy wahanol lwybrau—boed hynny drwy eu teuluoedd, ysgolion, neu drwy symud i Gymru o wledydd eraill. Mae pob taith at y Gymraeg yn werthfawr ac yn cyfrannu at gyfoeth y gymuned Gymraeg.

Gan gydnabod hyn, dylid dathlu'r ystod eang o gefndiroedd sydd bellach yn rhan o gymunedau Cymraeg Cymru. Mae'n bwysig cydnabod bod rhai cymunedau wedi ymsefydlu yng Nghymru ers cenedlaethau, tra bod eraill wedi ymuno'n fwy diweddar, megis mudwyr rhyngwladol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Er bod statws a hawliau mudwyr yn amrywio, mae pob unigolyn a grŵp yn dod â chyfoeth ieithyddol, diwylliannol ac addysgol sy'n cyfrannu at fywyd y Gymraeg, a rhaid yw ystyried ehangder yr amrywiaeth o ran cefndiroedd ieithyddol, diwylliannol ac addysgol wrth geisio sicrhau mynediad teg ac addas at addysg Gymraeg fel plant, pobl ifanc ac oedolion.

Mae nifer o bobl sy'n symud i Gymru yn meddu ar sgiliau amlieithog, ac mae hynny'n ased wrth feithrin dwyieithrwydd ac ymgysylltu â'r gymuned Gymraeg. Gall y gallu i weithredu mewn mwy nag un iaith fod yn fantais wrth ddysgu'r Gymraeg ac adeiladu cysylltiadau lleol (Higham 2020). Serch hynny, gall diffyg gwybodaeth neu gyswllt â'r Gymraeg ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch addysg a gyrfaedd. Mae hynny'n arbennig o bosibl lle:

- mae'r dwysedd siaradwyr Cymraeg yn is
- mae prinder cyfleoedd i ymgysylltu â'r iaith
- bo'r ysgolion Cymraeg wedi eu lleoli ymhellach oddi wrth y cartref

Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, mae ehangu mynediad at yr iaith drwy addysg gymunedol, megis colegau addysg bellach, darpariaeth i oedolion ac elusennau, yn gam cychwynnol hanfodol, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth gymunedol o'r cyfleoedd hynny drwy hyrwyddo cydlynus a phwrpasol.

Mae'n hanfodol i siaradwyr ieithoedd eraill gael mynediad at addysg Gymraeg ar yr un telerau ag addysg Saesneg i oedolion. Credwn y dylid ehangu'r rhaglenni WSOL a Croeso i Bawb i sicrhau eu bod ar gael yn genedlaethol. Mae angen datblygu hyfforddiant arbenigol i diwtoriaid sy'n addysgu'r Gymraeg i siaradwyr ieithoedd eraill, gan gynnwys cefnogaeth i ddatblygu dulliau addysgu sy'n sensitif i amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol.

Yn ogystal, rydym o'r farn y dylid integreiddio'r Gymraeg yn rhan o gyrsiau ESOL prif ffrwd ac adeiladu ar arferion da megis y model a welsom mewn coleg addysg bellach lle cyflwynir y Gymraeg fel rhan o brofiad dysgu ESOL. Mae hyn yn cynnig cyfle i bontio rhwng dysgu Saesneg a dysgu Cymraeg, gan greu llwybrau dwyieithog realistig sy'n croesawu ac yn cefnogi pob siaradwr newydd.

Clywsom yn ogystal am brofiadau rhai siaradwyr Cymraeg a arddelai grefydd heblaw Cristnogaeth. Roedd yr unigolion hyn yn byw mewn ardal amlddiwylliannol ddinesig, ond yn teithio i ardal lai amrywiol o ran crefydd i fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Dywedodd unigolyn o dde ddwyrain Cymru:

Roedd rhaid i fi adael fy nghymuned, a gorfod esbonio fy nghrefydd i bobl arall

Awgryma'r profiad hwn y gellid cryfhau'r ymdeimlad mewn rhai achosion fod y Gymraeg yn perthyn i bawb, gan sicrhau bod amrywiaeth grefyddol a diwylliannol yn cael ei hadlewyrchu a'i chefnogi yn llawn. Clywsom fod y profiad hwn o deimlo'n estron weithiau yn arwain at ansicrwydd ynghylch dilyn modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol.

Dyle fe fod yn rhywbeth dwi ddim yn meddwl dwywaith am neud modiwlau yn y Gymraeg achos dwi wedi cael addysg Gymraeg

Clywsom hefyd am bwysigrwydd sicrhau bod staff ysgolion Cymraeg a sefydliadau cymunedol yn adlewyrchu eu cymunedau'n well mewn ardaloedd amlddiwylliannol. Clywsom am lwyddiant ysgol yn cynnal Parti Eid, gan roi cyfle i deuluoedd Mwslimaidd gymryd rhan ganolog mewn digwyddiad ysgol Gymraeg. Dyna enghraifft

o ddigwyddiad cymunedol o gwmpas yr ysgol a oedd yn defnyddio'r Gymraeg gan arwain at brofiad cadarnhaol yn y cyd-destun hwn.

Rhan bwysig o waith y grŵp tasg a gorffen, felly, fydd ystyried sut y gellir adeiladu ar lwyddiannau fel hyn er mwyn ehangu ac amrywio'r ystod o ddigwyddiadau diwylliannol a gynhelir yn Gymraeg, i sicrhau eu bod yn ymgorffori profiadau, diwylliannau a safbwyntiau'r holl bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg heddiw. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn perthyn i bawb hefyd yn golygu hyrwyddo parch ieithyddol ehangach, lle caiff y Gymraeg ei chryfhau ochr yn ochr ag ieithoedd eraill sy'n rhan o fywyd cymunedol Cymru heddiw. Mae hyn yn golygu creu gofodau cymdeithasol lle gall siaradwyr o bob cefndir ieithyddol deimlo'n rhan o'r un gymuned sifig.

2.5 Rhywedd a rhywioldeb

Rhan greiddiol bellach o'r gwaith hwn fydd ystyried profiadau unigolion a chymunedau LHDTTC+ o fyw drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd tua 13,320 o siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn yn uniaethu fel:

- 'Hoyw neu Lesbiaidd'
- 'Deurywiol'
- cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol arall (LHD+)

Mae hyn yn cynrychioli 3.4% o'r holl siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn.

Mae 'Queering Language Revitalisation' (Walsh et al. 2025) yn archwilio sut mae siaradwyr ieithoedd lleiafrifol LHDTTC+, gan gynnwys Gwyddeleg, Llydaweg, Catalaneg a Chymraeg, yn synio am eu hunaniaethau ac yn canfod ffyrdd o'u cynnwys ac o gael eu cynnwys o fewn cymunedau ieithyddol lleiafrifol. Mae'n pwysleisio'r angen am iaith gynhwysol a'r rôl hanfodol y mae'r celfyddydau a'r gymuned yn ei chwarae.

Nodwn lwyddiant grŵp sgwrs LHDTTC+ Gwyddeleg yn Iwerddon, 'Queercal Comhrá' (Walsh 2025). Mae llawer o aelodau'r grŵp hwn wedi dysgu'r Wyddeleg fel oedolion yn hytrach na thrwy'r system addysg. I lawer, mae dysgu'r iaith wedi bod yn ffordd o gysylltu â'u hunaniaeth LHDTTC+ ac, ar yr un pryd, at eu hunaniaeth Wyddelig. Drwy'r profiad hwn, maent wedi sylweddoli y gall hunaniaeth LHDTTC+ a defnyddio'r iaith lleiafrifol gyd-fyw ac, mewn gwirionedd, gryfhau ei gilydd. Nid 2 hunaniaeth anghydnaws sydd yn gwrthdaro â'i gilydd felly, o reidrwydd, yw bod yn berson LHDTTC+ ac yn siaradwr iaith lleiafrifol: i'r gwrthwyneb, gallant gydbblethu ac atgyfnerthu ei gilydd. Yn achos y Gymraeg, nodwn fod y Gymraeg a hunaniaethau LHDTTC+ wedi eu cyfuno ers degawdau—o ddyddiau CYLCH (Cymdeithas yr Hoywon a'r Lesbiaid Cymraeg eu Hiaith) yn y 1990au cynnar i 'Mas ar y Maes', a gyflwynwyd gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 (Jobbins 2013; Eisteddfod Genedlaethol 2021).

Yn hyn o beth, dyma enghraifft arall o'r modd y gall y Gymraeg fanteisio ar ei sefyllfa lleiafrifol i feithrin dealltwriaeth a chynhwysedd o bob math o grwpiau a chymunedau

lleiafrifol eraill. Enghraifft o bosibiliadau o'r fath yw digwyddiad blynyddol, 'Dragwyl', sydd yn rhan o ddigwyddiadau Tafwyl yng Nghaerdydd. Mae'n noson o ddathlu diwylliant amrywiol 'drag' yn Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae gofodau LHDTTC+ cyfrwng Cymraeg yn gallu darparu gofod cynhwysol i siaradwyr o bob cefndir, hyfedredd ac arfer i archwilio'r berthynas rhwng eu hunaniaeth ieithyddol a hunaniaethau eraill. At hynny, mae'r achos Gwyddeleg a grybwyllwyd yn flaenorol yn tynnu sylw at sut y gall cymuned o'r fath fod yn 'locus of language revitalisation' (Morris a Parker, 2025) i unigolion LHDTTC+. Mae hefyd yn adleisio'r awgrym yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (gweler pennod 3, 'Trosglwyddo a chymdeithasoli iaith') fod yn rhaid i'n dealltwriaeth o'r amryfal ddulliau o drosglwyddo'r Gymraeg, bellach, drosgynnu a mynd y tu hwnt i'r modelau mwy traddodiadol sy'n canolbwyntio ar drosglwyddo o fewn teuluoedd yn unig.

Clywsom hefyd fod angen bod yn weithredol o ran geirfa LHDTTC+ Gymraeg sy'n hygyrch ac yn ddiwylliannol berthnasol i'w defnyddio bob dydd. Mae Llywodraeth Cymru (2023b) eisoes wedi cyhoeddi rhestr gynhwysfawr Termau LHDTTC+ yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag mae gwaith o hyd i ystyried termau addas mewn rhai meysydd, er enghraifft perthnasau teuluol yng nghyd-destun pobl anneuaid (megis modryb neu ewythr, nith neu nai ac ati). Bydd angen i'r grŵp tasg a gorffen ystyried pa waith pellach y gellid ei wneud yn y maes hwn er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned.

2.6 Anabledd

Yn debyg i'r modd yr ydym wedi trafod cydblethiad hunaniaeth siaradwyr iaith leiafrifedig a mathau eraill o hunaniaeth uchod, pwysleisiwn yr angen i gydnabod yr hunaniaeth gyfun, hunaniaeth Gymraeg a hunaniaeth anabl, fel rhan o brofiadau cymdeithasol amlweddog.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r model cymdeithasol o anabledd yn bwysig ar gyfer deall y berthynas hon. Yn hytrach na gweld anabledd fel nodwedd unigol neu feddygol, mae'r model cymdeithasol yn pwysleisio rôl strwythurau ac agweddau cymdeithasol wrth lunio profiadau pobl anabl. Felly, wrth ystyried cynllunio ieithyddol a hyrwyddo'r Gymraeg, mae'n bwysig mabwysiadu dull sy'n cydnabod y cydblethiad hwn o hunaniaethau ac sy'n sicrhau bod lle canolog i leisiau a phrofiadau pobl anabl o fewn y maes. Drwy wneud hynny, gellir datblygu ymagwedd gynhwysol sy'n galluogi pobl anabl i fynegi a byw eu hunaniaeth Gymraeg yn llawn, gan adlewyrchu natur amrywiol a rhyng-gysylltiedig cymdeithas.

Clywsom am y berthynas rhwng y Gymraeg a phrofiadau pobl anabl, gan gydnabod pwysigrwydd y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r Ymgynghoriad 'Cynllun Hawliau Pobl Anabl' (Llywodraeth Cymru 2025a).

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn tynnu sylw at dystiolaeth fod nifer o bobl anabl wedi colli cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg oherwydd diffyg darpariaeth addas.

Mae eraill wedi wynebu rhwystrau strwythurol sy'n cyfyngu ar eu gallu i ddefnyddio neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2025a).

Mae'r ymatebion hefyd yn dangos bod angen adlewyrchu'n gliriach y rhyngberthynas rhwng iaith a hygyrchedd. Mae hawl i pobl ddall, fyddar a phobl ag anghenion cyfathrebu amgen gael Cymraeg hygyrch, boed hynny drwy Braille, fformat hawdd ei ddeall neu dechnoleg cynorthwyl, yn rhan annatod o sicrhau cyfiawnder iaith. Mae angen gwreiddio'r Gymraeg yn fwy yn agenda hawliau pobl anabl. Mae dulliau hygyrch yn cael eu cynhyrchu yn bennaf yn Saesneg, mae gwasanaethau'n aml yn ddiofyn yn uniaith Saesneg ac nid yw darpariaeth ddigidol Gymraeg yn cadw i fyny â'r angen. Awgryma'r ymatebion i'r ymgynghoriad fod diffyg hyfforddiant a diffyg staff Cymraeg eu hiaith mewn gofal iechyd, addysg a gofal cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at danseilio hawliau iaith.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi nifer o ffyrdd cadarnhaol y mae modd defnyddio cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd gynhwysol. Mae galwadau cryf i:

- ddatblygu a chynyddu gwasanaethau iaith Arwyddion Prydain drwy'r Gymraeg
- sicrhau bod pob gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, cyfiawnder a gofal cymdeithasol, ar gael yn ddwyieithog
- creu deunyddiau hygyrch megis fersiynau hawdd eu darllen, capsïynau a chyfieithu sain yn Gymraeg bob amser

Mae'r Comisiwn yn cytuno ag argymhellion ac awgrymiadau yr ymgynghoriad hwn.

Yn ogystal, credwn fod pwysigrwydd arbennig i rôl sefydliadau pobl anabl megis Anabledd Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod y sefydliadau hyn yn bwysig o ran cynllunio, llywodraethu a gwerthuso'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

Yn y cyd-destun hwn, felly, dylai gwaith y grŵp tasg a gorffen gynnwys archwilio ffyrdd o sicrhau bod pob gwasanaeth a phob dull hygyrch ar gael yn Gymraeg, ac o fonitro effaith ieithyddol. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, dylid cynnwys pobl anabl sy'n siarad Cymraeg ym mhob cam o'r broses hon. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio rhwng sawl sefydliad: Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, a chyrrff pobl anabl i osgoi system ddwyieithog. Dim ond drwy drin y Gymraeg a hygyrchedd fel egwyddorion integredig y mae modd sicrhau bod pobl anabl yng Nghymru yn cael yr hawliau iaith a'r cyfleoedd y maent yn eu haeddu.

2.7 Y Gymraeg fel offeryn cymdeithasol: yr hyn sydd yn bosibl

Rydym wedi amlinellu rhai o'r heriau a allai rwystro neu leihau'r cyfleoedd i unigolion a chymunedau gyfranogi o'r iaith. Rydym hefyd wedi awgrymu y dylai'r grŵp tasg a gorffen fynd ati i archwilio ffyrdd integredig a chyfannol o ystyried y materion amlweddol hyn wrth ystyried sut i sicrhau defnydd o'r iaith mewn ardaloedd

dwysedd is neu ganolog, fel yn yr ardaloedd dwysedd uwch. Mewn gair, dylid ystyried y Gymraeg yn un o nifer o ffactorau sy'n plethu â'i gilydd yn hytrach nag fel ffenomen ar wahân. Mae'r Comisiwn yn glir bod cryfhau'r Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolog neu is yn gorfod bod ynghlwm wrth waith o uno cymunedau a chreu cysylltiadau cymdeithasol newydd. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod y Gymraeg yn rhan naturiol, groesawgar ac integredig o fywyd cymunedol, lle mae pobl o wahanol gefndiroedd ieithyddol yn cymysgu, cydweithio ac ymdeimlo'n rhan o'r un gymuned sifig.

Wrth gloi hyn o adran felly, trown i amlinellu sut y gallai meddylfryd ac ymagwedd o'r fath weithio yn ymarferol a gwyrddroi unrhyw ganfyddiadau tybiedig o'r Gymraeg fel moeth dewisol, ychwanegol. Yn hytrach dylid synio am y Gymraeg fel offeryn cymdeithasol a all gyfrannu mewn modd integredig at wella llesiant a chyfranogiad cymdeithasol yn ein cymunedau. Trwy wneud hynny, gall yr iaith ddod yn berthnasol i fywydau pobl bob dydd, gan feithrin ymdeimlad o berthyn ar eu telerau eu hunain.

Roedd llesiant yn thema gyson wrth i ni glywed am weithgarwch cymunedol llwyddiannus mewn ardaloedd difreintiedig, neu weithgarwch a oedd yn ymgysylltu â phobl o gefndiroedd difreintiedig; yn wir, roedd yn ystyriaeth allweddol wrth wraidd y gwaith. Ar yr un pryd, roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n rhan annatod o'r ffordd yr oedd pobl yn meithrin perthnasau â'i gilydd, yn magu hyder ac yn creu ymdeimlad o berthyn o fewn y gymuned. Dywedodd aelod o staff Canolfan Trochi Hwyr:

Lles sydd yn dod yn gyntaf bob tro. Dyna yw'r peth pwysica'

Mae rhoi lles yn gyntaf yn creu amodau a chefnogaeth gadarnhaol sy'n hwyluso caffael iaith. Fe glywsom gan staff o Ganolfan Trochi Hwyr sy'n delio gyda llawer o ddysgwyr dosbarth gweithiol, sydd hefyd wedi profi heriau yn eu bywydau. Nid yn unig y mae'r Ganolfan yn meithrin dysgwyr hyderus yn eu Cymraeg, ond mae hefyd yn cyfrannu at ddatblygu hunanhyder a hunanwerth ehangach. Wrth eu trochi yn y Gymraeg, cynigir cyfle hefyd i gael cefnogaeth ddwys ac archwilio ffyrdd newydd a gwahanol o'u mynegi eu hunain. Er mai addysgu'r Gymraeg yw prif nod y ddarpariaeth, ceir cydnabyddiaeth fod rhaid rhoi'r lle blaenaf i les yr unigolyn a bod y Gymraeg yn rhan felly o gydblethiad llawer ehangach o ffactorau. Dywedodd aelod o staff Menter Iaith:

Mae lles yn ganolog i bopeth 'da ni'n gwneud

Mae lles hefyd yn ganolog i waith cymunedol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. Clywsom gan Fenter Iaith fod lefelau amddifadedd yr ardal mae'n ei gwasanaethu yn ystyriaeth hanfodol wrth greu rhaglenni a gweithgareddau i'r gymuned, er mwyn sicrhau fod pobl o gefndiroedd difreintiedig yn teimlo croeso ac fel eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn.

Mae lles wrth wraidd eu gwaith, gan eu bod yn ymwybodol o heriau cymdeithasol yr ardal a'r effaith negyddol posibl ar les. Oherwydd hyn, rydym yn credu y dylai cynllunio ieithyddol cymunedol ystyried yn ofalus y cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol mewn ardaloedd difreintiedig, er mwyn sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at y Gymraeg. Dywedodd aelod o staff Menter Iaith:

[Rydyn ni'n] defnyddio'r Gymraeg i adfywio'r gymuned

Mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos sut y gellir defnyddio'r Gymraeg i ymgysylltu â phlant o gefndiroedd difreintiedig mewn ardaloedd dwysedd is neu ganolog. Hynny yw, mae'r Gymraeg yn rhan o daith magu hyder y plant ac yn rhan o ymgyrch lles ehangach. Mae'r plant yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd cefnogol, gyda lles wrth wraidd y gwaith. O ganlyniad, mae'r plant yn y canolfannau yn gweld perthnasedd y Gymraeg i'w bywydau nhw, ac yn datblygu perthynas bersonol gadarnhaol â'r iaith. Mae'n enghraifft gadarnhaol o weithgarwch lleol llwyddiannus sy'n rhoi lles yn gyntaf, ac mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r lles hwnnw.

Er bod yr adran hon yn tynnu sylw at rai o'r rhwystrau uniongyrchol y mae unigolion a chymunedau yn eu hwynebu wrth ddefnyddio'r Gymraeg—megis diffyg amser, costau, pellteroedd teithio a phrinder cyfleoedd lleol—mae'n bwysig pwysleisio nad y rhain yw'r problemau craidd ynddynt eu hunain, ond symptomau o heriau strwythurol ehangach. Mae ffactorau megis amddifadedd economaidd, diffyg seilwaith cymunedol, a chyfyngiadau ar fynediad at gyfleoedd diwylliannol a hamddenol yn siapio'r realiti hon. O ganlyniad, rhaid i unrhyw ymyriad—gan gynnwys gwaith y grŵp tasg a gorffen—ganolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael â'r problemau strwythurol hyn, yn hytrach na thrin y symptomau ar eu pen eu hunain.

2.8 Casgliad

Argymhelliad 37 adroddiad cam cyntaf y Comisiwn oedd y 'dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn edrych ar faterion yn ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg.' Wrth ystyried ardaloedd dwysedd canolog ac is o dan gylch gwaith ail gam y Comisiwn, amlygwyd drachefn yr angen i ystyried ystod eang o ffactorau sosioeconomaidd, gan gynnwys dosbarth cymdeithasol, cymunedau amlddiwylliannol a chrefydd, rhywedd a rhywioldeb ac anabledd, wrth archwilio'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny.

Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, barn y Comisiwn felly yw y dylai'r grŵp tasg a gorffen hwn ledaenu cwrpas ei waith i gynnwys ardaloedd dwysedd is neu ganolig yn ogystal, gan archwilio'r ffactorau sy'n effeithio ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru a thu hwnt. Dylai ei gylch gorchwyl hefyd gynnwys:

- archwilio pa ymyriadau polisi a allai arwain at sefydlu gofodau i gynnal, cefnogi a chymell yr iaith
- ystyried sut y gellir ehangu ac amrywio'r ystod o ddigwyddiadau diwylliannol a gynhelir yn Gymraeg er mwyn adlewyrchu'n well yr ehangder profiadau, diwylliannau a safbwyntiau sy'n byw ac yn bod drwy gyfrwng yr iaith
- ystyried pa waith pellach y gellid ei wneud i sefydlu gofodau a geirfa LHDTG+ Gymraeg sy'n hygyrch ac yn ddiwylliannol berthnasol i'w defnyddio bob dydd
- archwilio ffyrdd o sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch a bod yr hygyrchedd hwnnw yn hwylus yn Gymraeg
- gweithio i adnabod a nodi ymyriadau a all fynd i'r afael â'r problemau strwythurol—yn economaidd, yn gymunedol ac yn ddiwylliannol—sydd yn peri rhwystrau i rai unigolion a chymunedau rhag defnyddio'r Gymraeg

3 Trosglwyddo a chymdeithasoli iaith

Er bod trosglwyddo'r Gymraeg yn ffactor mewn polisi iaith ledled Cymru, mae ei natur a'r heriau sydd ynghlwm wrtho yn wahanol mewn ardaloedd dwysedd canolog ac is. Yn y cyd-destunau hyn, mae llawer o siaradwyr Cymraeg wedi caffael yr iaith drwy'r system addysg yn hytrach nag yn y cartref, ac fel y gwelwn isod, maent yn llai tebygol o'i throsglwyddo'n awtomatig i'r genhedlaeth nesaf. Mae hyn yn creu cylch lle mae'r ysgol yn dod yn brif safle trosglwyddo. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar sut y gellir mynd i'r afael â'r cylch hwnnw drwy gryfhau cymdeithasoli iaith yn y teulu, a'r tu hwnt i'r ysgol.

Rydym yn dechrau gyda throsglwyddo rhwng y cenedlaethau yn y teulu, gweithred bob dydd gan rieni, neiniau a theidiau, a gofalwyr. Yn ôl Joshua Fishman (1991), ffigwr pwysig ym myd adfywio iaith, gall y math hwn o drosglwyddo fod yn un o'r sylfeini cryfaf ar gyfer bywiogrwydd hirdymor iaith. Yn wir, ysgrifennodd:

[to attempt to revive language] via stylish efforts to control the language of education, the workplace, the mass media and governmental services, without having safeguarded [intergenerational language transmission] is equivalent to constantly blowing air into a tire that still has a puncture.

Mae data'n dangos bod plant sy'n caffael y Gymraeg yn ifanc yn fwy tebygol o'i defnyddio'n nes ymlaen yn eu bywydau (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015). Fodd bynnag, nid yw trosglwyddo rhwng y cenedlaethau yn y teulu bob amser yn bosibl. Mewn cyd-destunau lleiafrifedig fel y Gymraeg, nid oes gan lawer o deuluoedd sgiliau Cymraeg perthnasol neu deimlant nad oes ganddynt hyder i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt gyda'u plant (rydym yn mynd i'r afael â 'pharadocs' hyder yn adran 3.4).

Mae mathau eraill o drosglwyddo hefyd yn bwysig. Gall ysgolion, rhwydweithiau cyfeillion, gweithgareddau diwylliannol, a gofodau Cymraeg i gyd chwarae rôl wrth alluogi pobl i ddysgu, defnyddio, datblygu neu adennill sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn wir ym mhob ardal, waeth beth yw'r dwysedd o siaradwyr iaith benodol. Mae'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd dwysedd canolog neu is, lle mae trosglwyddo'n llai tebygol o ddigwydd yn y cartref, a lle mae llai o ymyriadau cymunedol a chymdeithasol i gynnal a datblygu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r dull holistaidd hwn hefyd yn bwysig wrth sicrhau nad yw plant yn profi'r iaith mewn modd tameidiog neu anghyson, a bod modd i'r iaith eu cyrraedd ar draws pob rhan o'u bywydau, gan gynnwys yn y cartref, yn yr ysgol, yn y gymuned ac ar-lein ac ar y sgrin.

O gyd-destun y teulu, awn ymlaen i ystyried dulliau eraill o gaffael, dysgu neu ail-egnio Cymraeg pobl, megis trosglwyddo yn y gymuned, trosglwyddo rhwng brodyr a

chwiorydd a chyfoedion, a mwy. Gan dynnu ar sefyllfa'r Fasgeg, rydym yn ystyried sut y gellid ymgorffori 'cymdeithasoli iaith' mewn polisi a chryfhau'r trosglwyddo'r Gymraeg ac annog ei defnydd bob dydd. Cyn hyn, rydym yn archwilio ystadegau ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg rhwng cenedlaethau.

3.1 Trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau: tystiolaeth ystadegol

Mae'r adran hon yn crynhoi canlyniadau'r Cyfrifiad ynglŷn â throsglwyddo'r Gymraeg yng Nghymru rhwng y cenedlaethau. Mae'r data'n canolbwyntio ar blant tair a phedair oed sy'n byw mewn aelwydydd un teulu. Mae'r gyfradd trosglwyddo yn cael ei mesur drwy ganran y plant ifanc hyn a nodir eu bod yn gallu siarad Cymraeg o fewn strwythur cartref penodol, yn y cyfnod cyn addysg statudol. Dylid nodi, gan nad yw'r Cyfrifiad yn holi am ddefnydd iaith, mai dod i gasgliad ynglŷn â chyfraddau trosglwyddo a wneir yn yr ystadegau hyn. Yn ogystal, cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig COVID-19, ac nid yw effaith cyfnodau clo a dysgu o bell ar sgiliau Cymraeg wedi eu harchwilio'n llawn.

3.1.1 Cyfraddau trosglwyddo yn ôl strwythur aelwydydd

Mae natur cyfansoddiad aelwyd yn rhagfynegi'n gryf batrymau trosglwyddo'r Gymraeg ac mae trosglwyddo cynnar yn y teulu yn rhagfynegydd cryf o ddefnyddio'r Gymraeg yn nes ymlaen mewn bywyd. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd cyfraddau trosglwyddo rhwng y cenedlaethau yn amrywio ar draws y 3 phrif fath o deulu gyda phlant 3 i 4 oed. Mewn aelwydydd cwpl gyda 2 oedolyn neu fwy yn siarad Cymraeg, y gyfradd trosglwyddo oedd 80.7%, yn fras yn gyson â ffigur Cyfrifiad 2011 sef 82.2%. Mewn gwrthgyferbyniad, yn achos aelwydydd cwpl gyda dim ond un oedolyn yn siarad Cymraeg cafwyd cyfradd is o 40.4%, i lawr o 45.4% yn 2011. Roedd gan aelwydydd un rhiant ag ynddynt un oedolyn yn siarad Cymraeg gyfradd trosglwyddo o 52.1%, yn debyg i'r 53.3% a gofnodwyd yn 2011.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi ymelwa ar ddadansoddiad arbenigol pellach o Gyfrifiad 2021 sy'n gymorth i ddeall patrymau trosglwyddo a chaffael y Gymraeg. Mae'r gwaith hwn (Prosiect BRO: i'w gyhoeddi) yn dangos nad yw'r canrannau hyn yn gyson ledled Cymru, a bod dwysedd neu ganran y siaradwyr yn yr ardal neu'r awdurdod lleol yn cyd-fynd â chanran y plant 3 a 4 oed sydd wedi caffael y Gymraeg cyn addysg statudol. Mae'r data ar gyfer plant 3 oed yn atgyfnerthu hyn ymhellach, ond gyda'r niferoedd yn llai mae'r data'n anoddach i'w ddehongli, yn enwedig mewn rhai siroedd. Yn achos aelwydydd Cymraeg gyda phlant 3 oed yn unig, mae'r cyfraddau'n gostwng ym mhob sir ac ym mhob math o aelwyd Gymraeg. Mae cyfraddau cenedlaethol y math hwn o aelwyd yn gostwng fel a ganlyn:

- aelwydydd cwpl gyda 2 yn siarad Cymraeg: o 81% i 76%
- aelwydydd un rhiant yn siarad Cymraeg: o 52% i 44%
- aelwydydd cwpl gydag un yn siarad Cymraeg: o 40% i 32%

Mae'r gostyngiad pwynt canran yn llai sylweddol ar yr aelwydydd cwpl Cymraeg gyda 2 yn siarad Cymraeg. Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn amlygu ei hun eto fel ffactor, yn enwedig ar aelwydydd un rhiant Cymraeg ac aelwydydd cwpl gydag un yn siarad Cymraeg. Awgryma hyn fod amgylchedd ieithyddol yn ffactor wrth drosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu. Mae'r data hwn yn atgyfnerthu canfyddiadau sy'n awgrymu y gall hyn hefyd fod yn gysylltiedig ag argaeledd gofal plant a darpariaeth blynnyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler hefyd Evas et al (2017)).

Y tu hwnt i nifer y siaradwyr Cymraeg, roedd rhyw'r oedolyn sy'n siarad Cymraeg yn ffactor, yn enwedig mewn aelwydydd gyda dim ond un person yn siarad Cymraeg. Ar gyfer cartrefi cwpl lle nad oedd ond un oedolyn oedd yn gallu siarad Cymraeg, roedd y gyfradd trosglwyddo i blant 3 a 4 oed yn uwch pan oedd yr oedolyn a siaradai Gymraeg yn fenyw (45%), o'i chymharu â phan oedd yr oedolyn a siaradai Gymraeg yn wryw (34%). Roedd y patrwm hwn yn wir ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol.

Mewn aelwydydd cymysg eu hiaith ag ynddynt 2 oedolyn, ardal dwysedd uchel Gwynedd oedd uchaf gyda chyfradd trosglwyddo o 60.0%, o'i chymharu â 18.8% ym Mlaenau Gwent. Nododd aelwydydd un rhiant sydd ag un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg y cyfraddau uchaf yng Ngheredigion (77.8%) a Gwynedd (77.0%), sydd, wrth gwrs, yn ardaloedd dwysedd ieithyddol uchel. I'r gwrthwyneb, Casnewydd, ardal â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg, oedd â'r isaf sef 22.2%. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu perthnasedd cyfansoddiad aelwydydd a chyd-destun lleol o ran siapio trosglwyddo'r Gymraeg a'r angen am ddulliau hyblyg a chynhwysol o drosglwyddo iaith.

3.1.2 Lefelau rhuglder yn ôl cyd-destun dysgu cychwynnol

Mae cymhariaeth o lefelau rhuglder hunanddisgrifedig siaradwyr Cymraeg, wedi'u categorio yn ôl eu prif amgylchedd dysgu, yn tynnu sylw at gydberthynas arwyddocaol rhwng caffael cynnar yn y teulu gartref a rhuglder uwch.

Mae data o 2019 i 2020 yn dangos bod 83.7% o'r unigolion hynny a ddysgodd siarad Cymraeg gartref fel plentyn ifanc yn eu disgrifio'u hunain yn rhugl. Os lleoliad addysg ffurfiol oedd y cyd-destun dysgu cychwynnol, disgrifiodd 43.3% o'r rhai a ddechreuodd siarad Cymraeg yn y feithrinfa (3 i 4 oed) eu hunain fel rhai rhugl. 13.2% yw'r ffigur ar gyfer y rhai a ddechreuodd ddysgu'r iaith yn yr ysgol gynradd (Llywodraeth Cymru 2020c).

3.1.3 Trosglwyddo ac ystadegau gwladol sosioeconomaidd (NS-SEC)

Defnyddiodd dadansoddiad gan Hywel Jones o Statiaith (2025) ddata NS-SEC i archwilio'r berthynas rhwng dosbarth economaidd-gymdeithasol a throsglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Dangosodd fod oddeutu 60% o'r plant a ddadansoddwyd ar draws cyfrifiadau 2001, 2011 a 2021 yn byw mewn aelwydydd lle roedd person cyswllt yr aelwyd (fel arfer y person sy'n cwblhau'r ffurflen cyfrifiad

mewn aelwyd benodol) o fewn lefelau NS-SEC L4 i L11. Mae'r ystod hon o gategoriâu NS-SEC yn cwmpasu pob grŵp galwedigaethol ac eithrio cyflogwyr mawr a galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch (L1 i L3) a'r rhai nad ydynt erioed wedi gweithio neu sy'n ddi-waith yn y tymor hir (L14.1 a L14.2) a myfyrwyr (L15).

Gan reoli ar gyfer y math o aelwyd, oedran y plentyn, cyfrifiad, rhanbarth (Gwynedd; Ynys Môn, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin; gweddill Cymru), ac ardal (a ddiffinnir fel MSOA) a chan ganiatáu ar gyfer rhai rhyngweithiadau, dangosodd ei fodel ystadegol fod:

- y cyfraddau trosglwyddo uchaf yn gyson mewn aelwydydd lle roedd 2 oedolyn yn siarad Cymraeg (fel sy'n amlwg o'r data crai)
- daearyddiaeth yn parhau i fod yn arwyddocaol: Gwynedd oedd yn dangos y cyfraddau uchaf, ac yna ardal gyfunol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion ac Ynys Môn
- cyfraddau trosglwyddo yn amrywio yn ôl categori NS-SEC, ond dim ond wrth symud o'r grwpiau NS-SEC uwch a chanolradd cyfunol (L1 i L11) i alwedigaethau gwaith lled ailadroddus ac ailadroddus (L12 a L13), ac eto i'r grwpiau economaidd anweithgar (L14 a L15) y gwelwyd graddiant cymdeithasol i lawr ac yn arwyddocaol

3.2 Yr hyn a allai fod y tu ôl i'r ystadegau

Mae dadansoddiad ystadegol, yn enwedig o ddata'r cyfrifiad dengmlynnyddol, wedi rhoi awgrymiadau ar gyfer datblygu polisi sydd wedi'u hategu gan ymchwil sy'n pontio ystadegau, gwyddorau ymddygiadol a phrofiad personol pobl. Er enghraifft, archwiliodd ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth Brifysgol Caerdydd (Evas et al. 2017), y modd y trosglwyddwyd y Gymraeg mewn teuluoedd â phlant 0 i 4 oed. Roedd yr ymchwil hon yn defnyddio:

- adolygiadau o lenyddiaeth ryngwladol ar drosglwyddo iaith
- adroddiadau ar ymyriadau trosglwyddo'r Gymraeg
- data cyfrifiad
- holiaduron
- cyfweiliadau â 60 o ofalwyr yng ngogledd-orllewin a de-ddwyrain Cymru

Canfyddiad yr adroddiad oedd mai ffactorau demograffig, yn hytrach na rhai seicolegol neu agweddau, oedd yn darogan trosglwyddo iaith orau. Mewn geiriau eraill, gallai rhywun feddu ar agwedd bositif tuag at y Gymraeg, a pheidio â'i defnyddio gyda'i blant. I lawer mewn ardaloedd Cymraeg, roedd defnyddio'r Gymraeg gyda phlant yn rhywbeth awtomatig, ond mewn ardaloedd dwysedd is, Saesneg oedd y sefyllfa ddiofyn yn aml.

Un o ganfyddiadau arwyddocaol yr ymchwil hon (oedd yn cydblethu ag ymchwil a wnaed ganol y 1990au (Evas 1999)) oedd y cysyniad o ‘roddi iaith rhwng cenedlaethau’ (intergenerational language donation), lle’r oedd rhieni a gofalmwyr sy’n siarad Cymraeg (hwythau yn aml wedi cael eu haddysgu yn y Gymraeg) yn dibynnu ar ysgolion i drosglwyddo’r iaith yn hytrach na’i defnyddio gartref. Noda Evas et al (2017):

[...] byddai rhoddi o’r fath yn digwydd pan fyddai siaradwyr Cymraeg yn sicrhau bod eu plant yn caffael sgiliau yn y Gymraeg, trwy’r system addysg, ond nid trwy sicrhau mai’r Gymraeg oedd iaith y cartref, ac o bosibl heb ddefnyddio’r iaith â’r plentyn o gwbl

Ymhlith y rhwystrau a grybwyllwyd yng ngwaith 2017 roedd diffyg hyder, diffyg cyfle, ac ofn beirniadaeth. Mewn cartrefi cymysg eu hiaith, roedd defnydd o’r Gymraeg yn aml yn gyfyngedig i ryngweithio un-wrth-un â phlant gan nad oedd ‘mathemateg sosioieithyddol’ (Alvarez Enparantza 2001) yr aelwyd (ymysg ffactorau posibl eraill) yn caniatáu i’r Gymraeg gael ei siarad yn rheolaidd o flaen y rhai nad oeddent yn ei deall. Dywedodd cyfranogwyr yn Evas et al (2017):

If you don’t speak Welsh at home, which we didn’t, when you have a child, it tends to be that you don’t even think about the language [...]. When they start school, then you make a decision. If you’re not used to speaking [Welsh], English is the default setting

Dyw’r Gymraeg ddim yn dod yn naturiol [imi] mewn sefyllfa cartrefol

Mae’r mewnwelediadau hyn yn amlygu’r angen am strategaethau trosglwyddo amrywiol a chymunedol. Mae cefnogi defnydd iaith y tu hwnt i’r teulu yn hanfodol i gynnal y Gymraeg. Felly, dylid ystyried potensial ‘rhoddi iaith’ yn gyfle pellach i gynyddu trosglwyddo mewn sefyllfaoedd lle nad yw trosglwyddo mwy uniongyrchol rhwng cenedlaethau wedi bod yn bosibl. Mae’r math hwn o gefnogaeth hefyd yn hanfodol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith fywiog, amlweddog sy’n bodoli ac yn cael ei siarad y tu hwnt i’r ystafell ddosbarth a lleoliadau sefydliadol eraill.

3.3 Polisi ar drosglwyddo’r Gymraeg

Mae gwaith polisi diweddar ar drosglwyddo’r Gymraeg wedi canolbwyntio ar annog defnydd gweithredol o’r Gymraeg rhwng rhieni neu ofalmwyr a’u plant yn y teulu, gan ystyried gwahanol broffiliau ieithyddol rhieni neu ofalmwyr sydd â gallu cyfyngedig neu ddiffyg hyder yn y Gymraeg. Nod y ‘Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo’r Gymraeg a’i

defnydd mewn teuluoedd' (Llywodraeth Cymru 2021b) yw mireinio sut mae mynd i'r afael â throsglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn y teulu. Y polisi hwn yw'r prif strwythur polisi cyfredol ar gyfer y maes. Ac yntau wedi'i seilio ar y gwyddorau ymddygiadol ac wedi'i lywio gan ymchwil ac ymwneud â rhanddeiliaid, mae'n cydnabod bod trosglwyddo iaith yn aml yn beth anymwybodol yn hytrach na bod yn ddewis bwriadol. Ei nod oedd gwneud i ddefnyddio'r Gymraeg gartref deimlo'n hawdd, yn enwedig i'r rhai nad oeddent yn hyderus neu'n ymarfer yn rheolaidd.

Mae egwyddorion y polisi yn cynnwys:

- cydnabod plant fel asiantau gweithredol wrth ddefnyddio a throsglwyddo'r Gymraeg
- cefnogi strwythurau teulu amrywiol (gan gynnwys teuluoedd un rhiant a theuluoedd LHDTC+)
- cydnabod rôl rhwydweithiau teulu estynedig

Ymrwymodd y polisi i ddull gwaith ar sail tystiolaeth ac sy'n dysgu o brofiad a gosododd 4 nod:

1. ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol
2. ailgynnu sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain
3. cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg
4. cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant

3.4 Ymchwil ymddygiadol a throsglwyddo'r Gymraeg

Un prosiect a ddeilliodd o'r polisi oedd prosiect ymchwil yn seiliedig ar y gwyddorau ymddygiadol (Claremont Communications 2026), yn targedu'r rhieni neu'r gofalwyr sydd neu oedd â sgiliau Cymraeg, ond nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn defnyddio eu Cymraeg gyda'u plant. Ddefnyddiodd fodel CAM-Y (COM-B), sy'n nodi bod yn rhaid i unigolyn feddu ar y Cymhelliant (Motivation), yr Amgylchiadau (Opportunity) a'r Medr (Ability) cyn rhoi Ymddygiad (Behaviour) penodol ar waith (ac sy'n cael ei drafod yn fanylach yn Michie, van Stralen a West, (2011)) ac yn yr adrannau sy'n dilyn, nododd yr astudiaeth rwystrau cyffredin sy'n amharu ar drosglwyddo. Hefyd, amlygodd grŵp pwysig, y 'canol symudol', sydd â chymhelliant ond a allai gredu nad yw eu sgiliau Cymraeg yn ddigonol. Mae'r ymchwil yn argymhell ymyriadau bach, syml nad ydynt yn feirniadol er mwyn cynyddu defnydd yn raddol. Datblygwyd 3 syniad peilot:

- defnyddio caneuon i sbarduno defnydd o'r Gymraeg
- annog ymrwymiad cynnar yn ystod beichiogrwydd
- annog y Gymraeg drwy chwarae gartref

Mae'r prosiect hwn sy'n seiliedig ar y gwyddorau ymddygiadol yn berthnasol i bob math o gyd-destunau sosioieithyddol, gan gynnwys y rhai â dwysedd uchel o siaradwyr (yn ogystal â'r rhai y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arnynt). Mae'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r bylchau bob dydd a all atal rhieni a gofalmwyr sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg rhag defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Efallai y bydd teuluoedd yn brin o ran modelau rôl gweladwy, neu atgyfnerthiad ieithyddol gan y gymuned, efallai na fydd ganddynt gyweiriau addas yn y Gymraeg na gwybodaeth o ba fath o Gymraeg sy'n addas i'w defnyddio gyda phlant. Efallai nad oes ganddynt gyfleoedd bob dydd i glywed a defnyddio'r Gymraeg. Yn yr achosion hyn, mae trosglwyddo yn fwy o her fyth. Bydd canlyniadau llawn ar gael yn ddiweddarach yn nes ymlaen yn 2026.

Gall canolbwyntio ar ymyriadau bach, ymarferol, megis darparu mynediad hawdd i gerddoriaeth Gymraeg, helpu rhieni a gofalmwyr i ddefnyddio eu Cymraeg gyda'u plant mewn ffordd sy'n isel o ran y pwysau sydd arnynt, sy'n hwyliog ac yn ddiymdrech. Mae'r dull hefyd yn helpu i bontio'r 'dolen wedi'i gollwng' rhwng cefnogaeth strwythuredig a bywyd bob dydd y cartref. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r defnydd o'r Gymraeg yn dod i ben wedi i deuluoedd adael sesiynau ffurfiol, fel y rhai y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu, sy'n cynnwys rhaglenni Mudiad Meithrin Clwb Cwtsh, Cymraeg i Blant a grwpiau babanod a phlant bach Cylch Ti a Fi. Yn gryno, ei nod yw cynorthwyo teuluoedd i ddod yn asiantau gweithredol ar gyfer trosglwyddo iaith, hyd yn oed mewn amgylcheddau lle nad y Gymraeg yw'r norm. A gall hyn yn ei dro feithrin hyder mewn defnydd iaith.

Roedd diffyg hyder yn thema a grybwyllwyd yn aml yn y gwaith hwn ar drosglwyddo. Yn wir, mae diffyg hyder yn ein Cymraeg yn thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg yng ngweddill ein gwaith hefyd. Fel a nodwyd eisoes, mae hyder yr unigolyn yn gysylltiedig â nifer o ffactorau y tu hwnt i hyfiedredd ieithyddol personol gydag amgylchedd ieithyddol y cyd-destun yn chwarae rôl bwysig wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Yn yr adran nesaf, dadansoddwn hyder (neu ddiffyg hyder) ymhellach yng nghyd-destun trosglwyddo'r Gymraeg gan ddefnyddio model CAM-Y (COM-B) i wneud hynny.

3.5 CAM-Y a throsglwyddo'r Gymraeg: goblygiadau polisi

Mae canfyddiadau o ddiffyg hyder (ar sail hunan-ddiffiniad) yn y Gymraeg yn rhwystro rhag cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r adran hon yn cyfeirio at fodel CAM-Y (COM-B) (Michie, van Stralen a West, 2011), sy'n awgrymu, er mwyn i unrhyw Ymddygiad (Behaviour) penodol ddigwydd, bod rhaid i berson feddu ar y Cymhelliant (Motivation), yr Amgylchiadau neu'r Cyfle (Opportunity), ac ar y Medr (Capability), angenrheidiol i gyflawni'r ymddygiad hwnnw. Mae 'hyder' yn perthyn i'r Medr seicolegol ac i'r Amgylchiadau neu'r Cyfle (Opportunity).

Y term technegol mwyaf manwl gywir am hyn yw hunan-effeithiolrwydd (self-efficacy), sef cred rhywun yn ei allu i lwyddo mewn sefyllfaoedd penodol neu i gyflawni tasg (Bandura 1997).

Os oes gan rieni neu ofalwyr ffydd isel yn eu gallu i siarad Cymraeg yn 'gywir' maent yn rhagweld canlyniad negyddol, sef ofn gwneud camgymeriad neu ofn teimlo embaras. Yn ôl Bandura (1997), mae hunan-ffeithiolrwydd wedi'i adeiladu o 4 prif ffynhonnell, a'r fwyaf pwerus ohonynt yw 'profiad meistrol'; hynny yw, 'mastery experience', sef llwyddiant yn y gorffennol.

Mae 'paradocs hyder' neu sefyllfa 'Catch-22' yn codi oherwydd bod y profiadau meistrol hyn yn brin ymysg rhieni a gofalwyr sydd â hyfedredd is yn yr iaith. Er mwyn teimlo'n hyderus wrth siarad Cymraeg, mae angen profiadau cadarnhaol ar riant neu ofalwr o wneud hynny'n llwyddiannus (ac o wneud hynny'n llwyddiannus gyda phlant). Ond er mwyn ceisio siarad Cymraeg, mae rhiant neu ofalwr yn teimlo bod angen lefel o hyder eisoes.

Mae'r cylch hwn yn rhwystr pwerus. Fodd bynnag, mae ffocws uniongyrchol ar 'drwsio hyder' drwy berswadio (neu drwy ddefnyddio gwybodaeth) yn aml yn aneffeithlon ac mae ceisio newid hyder pobl ar raddfa fawr, yn enwedig drwy berswadio uniongyrchol, yn anodd ac yn annhebygol o lwyddo. Y prif reswm yw bod hyder yn bennaf yn deillio o brofiad, nid o wybodaeth. Er ei bod hi'n ymddangos yn reddfodl dweud wrth pobl 'Dal ati, ti'n gallu ei wneud e!', mae'r dystiolaeth yn dangos bod hwn yn ffordd wan ac annibynadwy ar gyfer creu newid parhaol.

3.5.1 Model gweithredu yn gyntaf

Y strategaeth fwyaf effeithiol yw model 'gweithredu yn gyntaf.' Mae'r dull hwn wedi'i seilio ar egwyddor sylfaenol seicoleg cymdeithasol; mae cred a hyder yn aml yn dilyn ymddygiad, nid fel arall. Nid rhywbeth diweddar i ddod i sylw maes newid ymddygiad yw hwn. Mae'n ddull sydd wedi ei brofi ac sydd wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus ers degawdau mewn meysydd fel iechyd y cyhoedd ac addysg. Mae wedi'i seilio ar ddamcaniaethau clasurol sydd wedi'u hymchwilio'n drylwyr sef Damcaniaeth Anghyseinedd Gwybyddol (Cognitive Dissonance Theory) (Festinger 2017) a Damcaniaeth Hunan-Ganfyddiad (Self-perception Theory) (Bem 1972).

3.5.1.1 Damcaniaeth Anghyseinedd Gwybyddol

Bydd pobl yn teimlo anghysur meddyliol cryf (anghyseinedd) pan fydd eu gweithredoedd yn gwrthdaro â'u credoau. Er mwyn datrys hyn, maen nhw'n fwy tebygol o newid eu credoau i gyd-fynd â'u gweithredoedd nag i'r gwrthwyneb.

3.5.1.2 Damcaniaeth Hunan-Ganfyddiad

Yn aml, rydym yn casglu'n haggweddau ein hunain drwy arsylwi ar ein hymddygiad ein hunain. Bydd rhiant neu ofalwr sy'n defnyddio ymadrodd Cymraeg yn llwyddiannus yn sylwi ar hyn ac yn mabwysiadu agwedd newydd: 'rhaid mai fi yw'r math o berson sy'n gallu siarad Cymraeg.'

3.5.1.3 Deilliannau'r dull gweithredu yn gyntaf

Mae dull 'gweithredu yn gyntaf' yn:

- cynorthwyo rhieni a gofalwyr

- meithrin gallu gwirioneddol ar sail profiadau llwyddiannus
- creu cylch cynaliadwy a phositif o ddefnyddio iaith

Mae hefyd yn mynd y tu hwnt i ofyn i rieni a gofalwyr deimlo'n hyderus, ac yn hytrach yn rhoi'r offer iddyn nhw ddod yn hyderus. Yn hytrach na cheisio trwsio Medr (hyder) isel, rydym yn ffocysu ar ail-siapio'r Amgylchiadau a'r Cymhelliant mewn ffordd mor bendant fel bod yr Ymddygiad yn digwydd hyd yn oed gyda Medr cychwynnol isel. Felly ni ddylem ofyn 'sut mae perswadio pobl i weithredu?' ond yn hytrach, 'sut mae helpu pobl i symud ymlaen?' a gadael i'w credoau am yr ymddygiad ddal i fyny wedi hynny. Wrth symud tuag at y model hwn, fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth o hyd nad yw cred yn y gallu i gyflawni ymddygiad penodol ynddo'i hun yn ddigonol, a bod sicrhau digon o gyfleoedd i ddysgu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer yr ymddygiad hefyd yn sylfaenol bwysig.

Pan fydd rhiant neu ofalwr yn cyflawni gweithred fach, lwyddiannus, mae'n cymryd rhan mewn proses o hunan-berswadio. Mae gwneud y weithred ei hun yn cynhyrchu'r dystiolaeth ddiamheuol sy'n ail-lunio cred unigolyn am ei alluoedd. Dyma sut mae profiadau meistrolï'n cael eu creu—dyma'r tanwydd mwyaf pwerus ar gyfer hunan-effeithiolrwydd.

Mae'r model 'gweithredu yn gyntaf' hwn yn fwy na damcaniaeth yn unig. Mae'n ddull ymarferol, sydd wedi ei brofi ac mae'n cael ei ddefnyddio mewn meysydd cyfatebol i ddatrys heriau tebyg.

3.5.1.4 Enghreifftiau o ddulliau gweithredu yn gyntaf

Mae rhaglen 'Couch to 5K' lechyd y Cyhoedd yn llwyddiant byd-enwog. Nid yw'n ceisio argyhoeddi pobl sydd heb redeg o'r blaen fod modd iddyn nhw redeg 5km. Mae'n cynnig gweithred fach iawn yn gyntaf (rhedeg am 60 eiliad). Mae'r llwyddiant ymddygiadol bach hwn yn meithrin y gred sydd ei hangen i roi cynnig ar y weithred nesaf, sydd ychydig yn anoddach. Mae hunaniaeth 'rhedwr' yn cael ei hadeiladu drwy weithredu (sef rhedeg), nid drwy berswâd.

Mewn Addysg Iaith mae dulliau cyfoes o Addysgu Iaith Gyfathrebol (CLT) wedi'u hadeiladu ar yr egwyddor hon. Mae dysgwyr yn cael eu hannog i weithredu, i gyfathrebu a chwblhau tasgau yn yr iaith newydd o'r diwrnod cyntaf un, hyd yn oed gyda chamgymeriadau. Mae hyder a hunaniaeth fel 'siaradwr' yn deillio'n uniongyrchol o siarad.

3.5.1.5 Enghraifft o sut i roi'r dull gweithredu yn gyntaf ar waith

Os mai'r strategaeth yw helpu rhieni a gofalwyr i gymryd cam ymlaen, yr her dechnegol yw dylunio'r cam cyntaf hwnnw.

Mae EAST (Behavioural Insights Team 2015) yn becyn adnoddau ymarferol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer creu'r 'cyfleoedd hanfodol hyn i weithredu.' Mae 4 elfen i EAST:

- Easy

- Attractive
- Social
- Timely

3.5.1.5.1 Easy

Dyma'r brif reol. Rhaid i'r cam cyntaf fod yn hollol syml. Mae hyn yn golygu lleihau'r llwyth gwybyddol drwy ddarparu'r geiriau angenrheidiol yn eu cyd-destun (er enghraifft ar fagnet ar oergell) fel nad oes angen ymdrechu i gofio rhywbeth.

3.5.1.5.2 Attractive

Rhaid fframio'r weithred fel ei bod yn apelio at gymhellion a hunaniaeth graidd y rhiant neu'r gofalwr. Nid prawf iaith mohono, ond yn hytrach weithred ystyrlon o gysylltiad â'r plentyn.

3.5.1.5.3 Social

Mae ymddygiad yn heintus. Rhaid inni greu amgylchedd cymdeithasol cefnogol lle mae 'rhoi cynnig arni' yn cael ei normaleiddio a'i ddathlu.

3.5.1.5.4 Timely

Dylid cyflwyno awgrymiadau a chiwiau ar yr adeg orau. Mae sticer ar focs cinio gyda 'Mwynha dy ginio' yn sbardun amserol ar gyfer yr ymddygiad.

3.5.1.5.5 Ychwanegu at becyn adnoddau ymarferol EAST

Mae trafodaethau diweddar yn eiriol dros ychwanegu 'F' (Fun) neu 'Sbort' i greu'r model FEAST mwy cynhwysfawr. Mae'r ychwanegiad hwn yn hanfodol ar gyfer ymddygiadau sy'n deillio o ddewis megis defnyddio'r Gymraeg gartref. Yn Gymraeg, byddwn yn cyfeirio at FEAST o hyn allan fel 'HAPUS' (Hawdd; amserol; pleserus; undod; sbort). Mae sicrhau bod gweithgaredd yn sbort yn rhoi gwobr emosiynol yn syth, ac mae hyn yn helpu i oresgyn apêl bwerus rhwyddineb tymor byr (siarad Saesneg) dros fudd pell, hirdymor. Drwy ail-lunio'r dasg fel rhyngweithio chwareus, rydym yn creu cylch parhaus positif i annog yr ailadrodd sy'n angenrheidiol er mwyn creu arfer parhaol. Mae hyn yn gwneud yr ymyriad yn effeithiol ac yn gynaliadwy. Felly, ar gyfer ein hymdriniaeth â throsglwyddo iaith yn y bennod hon, mae Sbort yn golygu bod angen mwynhau'r profiad. Mae defnyddio'r Gymraeg drwy ganeuon neu gemau yn dileu'r pwysau i berfformio'n dda ac yn darparu gwobrau emosiynol yn syth.

3.5.1.6 Casgliadau am ddull gweithredu yn gyntaf

Cymorth a chyngor sydd wrth galon hyn. Mae llwyddiant i'w gael trwy 'helpu pobl i wneud yr hyn maen nhw eisoes eisiau ei wneud' (Fogg 2020). Mae hyn yn symud yr holl fframio o fodel diffyg ('mae rhieni a gofalwyr yn brin o hyder a rhaid eu trwsio') i fodel ar sail cryfderau ('mae rhieni a gofalwyr yn frwdfrydig ond yn wynebu rhwystr'). Mae'n ein tywys rhag dylunio un dewis sengl. Yn hytrach, rydym am adeiladu ar sgiliau a gallu sylfaenol person, gan eu cynorthwyo i wneud dewisiadau gwell iddyn nhw eu hunain yn y tymor hir.

3.5.2 Emosiwn a rhesymeg

Mae'r gwyddorau ymddygiadol yn pwysleisio pwysigrwydd emosiwn wrth i unigolion wneud penderfyniadau. Nid yw dadleuon rhesymegol bob amser yn argyhoeddi nac yn cyflyru pobl i newid. Mae hynny oherwydd bod emosiynau, patrymau meddwl a dylanwadau cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig yn y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau. Yn aml, fe fydd pobl yn dibynnu ar deimladau ac yn gwneud penderfyniadau yn sydyn, gan ffafrio emosiwn ar draul rhesymeg. Gall ffactorau megis yr hyn sydd yn boblogaidd neu'n gweddu i farn dybiedig y grŵp hefyd ddylanwadu ar benderfyniadau, yn hytrach na rhesymeg. Tra fod y rhesymeg yn bwysig i gyfiawnhau penderfyniadau, mae emosiwn a dylanwad cymdeithasol yn ffactorau pwerus, ac ar adegau, yn bwysicach na rhai eraill (gweler hefyd Brader, 2006; Moran, N., a Bagchi, 2019).

Wrth geisio dylanwadu ar benderfyniadau unigolion felly, a helpu unigolion i newid ymddygiad, rhaid cyflwyno negeseuon, dadleuon a thechnegau sydd yn apelio i emosiwn ac yn gweddu i gyd-destunau cymdeithasol hefyd.

3.5.2.1 Crynodeb o sut i ddylanwadu ar ymddygiad

- Rydym yn dechrau gydag egwyddor Fogg: tybiwch fod rhieni a gofalwyr yn frwdfrydig.
- Rydym yn defnyddio HAPUS i ddylunio camau gweithredu syml sy'n gwella Cyfle a Chymhelliant.
- Mae'r weithred hawdd hon yn hwb i'w gallu.
- Mae'r weithred lwyddiannus yn darparu Profiad Meistroli (Bandura).
- Mae'r profiad hwn yn meithrin hunan-effeithiolrwydd yn uniongyrchol, gan wella eu Gallu seicolegol (CAM-Y).
- Mae'r hyder newydd hwn yn caniatáu i gred a hyder ddal i fyny ag ymddygiad, gan greu cylch hunangynhaliol a rhinweddol.

Mae goblygiadau cymhwyso fframweithiau HAPUS a CAM-Y ar gyfer polisi iaith ehangach yn amlwg, ac rydym yn credu y dylid archwilio'r rhain ymhellach a'u mabwysiadu mewn polisi ac ymyriadau yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r gwaith ar drosglwyddo'r Gymraeg wedi canolbwyntio'n bennaf ar rieni a gofalwyr fel prif drosglwyddwyr yr iaith ac mae ymdrechion (gan gynnwys Cymraeg i Blant ac eraill) wedi canolbwyntio ar eu hannog i wneud hynny. Ond nid rhieni a gofalwyr yw'r unig gynghreiriaid ac asiantau posibl wrth drosglwyddo'r Gymraeg.

Cyflwynwyd model TRIAWD (TROsglwyddo, CAffael, Defnyddio, Datblygu) a ddatblygwyd gan Jones, Llwyd a Roberts (i'w gyhoeddi; gweler y graffeg ar wefan BRO) i'r Comisiwn. Mae'r model hwn yn seiliedig ar dri chyd-destun craidd, sef y cartref/teulu, y gymuned/cymdeithasoli a'r ysgol/addysg (gan ddisodli'r olaf â gwaith/gweithle yn ei ystyr ehangaf, wrth i unigolion symud i gyfnodau newydd yn eu bywydau), gyda'r digidol wedi ei integreiddio i'r cyd-destunau hyn. Mae'r model yn

cydnabod trosglwyddo *rhwng* y cenedlaethau—prosesau fertigol i'r ddau gyfeiriad oedran—a throsglwyddo *ymysg* y cenedlaethau—prosesau llorweddol ymysg pobl o'r un grwpiau oedran—a bod y prosesau hyn yn digwydd o fewn pob un o'r tri chyd-destun craidd. Mae'r model hefyd yn nodi fod y tri chyd-destun yn newid yn barhaus; gan ehangu a lleihau eu dwysedd a'u harwyddocâd ar wahanol adegau, a chan gydbblethu â'i gilydd mewn gwahanol gyfuniadau, yn ôl sefyllfaoedd unigolion ar wahanol bwyntiau yn eu bywydau. Mae'r tri chyd-destun hefyd yn cael eu gosod o fewn sffêr ehangach y 'macro'—megis y polisïau, gweithdrefnau, diwylliannau, gwerthoedd, arferion ac ati—er mwyn cydnabod y grymoedd ehangach hyn sy'n dylanwadu ar ieithoedd, unigolion a chymdeithasau.

Trown yn awr at Wlad y Basg, lle mae ffordd fwy holistaidd o gymdeithasoli iaith plant wedi datgelu llwybrau a strategaethau diddorol sy'n mynd y tu hwnt i rieni a gofalfwyr ac yn edrych ar y gymuned gyfan fel asiantau a all gael effaith positif ar ddysgu a defnyddio iaith leiafrifedig gan bawb.

3.6 Trosglwyddo'r Fasgeg: paradeim newydd i Gymru ei efelychu?

Mae sefyllfaoedd y Fasgeg a'r Gymraeg yn meddu ar nodweddion tiriogaethol, demograffig a sosioieithyddol sy'n eu gwneud yn arbennig o addas ar gyfer cyfnewid profiadau a syniadau.

Fel yng Nghymru, mae gwaith adfywio'r Fasgeg wedi canolbwyntio ers tro ar yr angen i gynyddu nifer y siaradwyr Basgeg. Yn hyn o beth, rhoddwyd sylw i 4 maes:

1. trosglwyddo'r Fasgeg yn y teulu
2. meithrin gallu llawn ymhlith siaradwyr drwy raglenni llythrennedd
3. creu addysg cyfrwng Basgeg i blant teuluoedd sy'n siarad Basgeg a theuluoedd sy'n siarad Sbaeneg
4. dysgu Basgeg gan oedolion

O ganlyniad i'r cynnydd mewn addysg cyfrwng Basgeg, bu cynnydd mawr yn 'euskaldun berri' (siaradwyr 'newydd' y Fasgeg), hynny yw unigolion wnaeth gaffael y Fasgeg drwy ddulliau heblaw am drosglwyddo rhwng y cenedlaethau yn y teulu (Gobierno Vasco a Siadeco, 2021; Nandi et al., 2022). Mae'r datblygiad hwn wedi cael sylw academiaidd (Ortega et al. 2016a), ac mae'n cael ei ystyried fwyfwy yng ngwaith gweithredwyr cymdeithas sifil a pholisi iaith sefydliadol fel ei gilydd. Mae materion gallu a hyder iaith a nodwyd yn gynt yn achos y Gymraeg yng Nghymru hefyd yn amlwg yn achos y Fasgeg yng Ngwlad y Basg. Er bod llawer o siaradwyr newydd wedi datblygu lefelau uwch o allu ac yn nodi eu bod yn 'byw yn y Fasgeg', mae eraill sydd heb wneud hynny. Mewn ardaloedd Sbaeneg iawn, mae llawer o bobl ifanc yn nodi eu bod yn colli eu sgiliau wedi cyfnod addysg orfodol ac yna'n cael trafferth defnyddio Basgeg yn weithredol. Fe wnaeth ymchwil Evas et al (2017) ddangos canlyniadau tebyg yn achos rhai cyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg yng

Nghymru. Mae canfyddiad o ddiffyg hyder hefyd yn broblem i lawer o siaradwyr y Fasgeg, i'r graddau nad yw llawer o siaradwyr newydd yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Basgeg 'gwirioneddol' neu 'ddilys' (Gobierno Vasco a Siadeco, 2021; Nandi et al., 2022).

Mae arolwg a gynhaliwyd yn 2021 (Gobierno Vasco; Gobierno de Navarra 2024) yn dangos y sefyllfa ddiweddaraf o ran trosglwyddo'r Fasgeg yn y teulu. Mae'r Fasgeg yn cael ei throsglwyddo fel unig iaith y cartref mewn 96% o gartrefi pan fydd y 2 riant neu'r 2 ofalwr yn siaradwyr Basgeg iaith gyntaf ac 86% pan fydd un yn siaradwr Basgeg iaith gyntaf a'r llall yn ail iaith. Mae'r ganran yn lleihau pan fydd y 2 riant neu'r 2 ofalwr â'r Fasgeg yn ail iaith gyda 37% yn trosglwyddo'r Fasgeg fel unig iaith a 36% arall yn ei throsglwyddo ynghyd â'r Sbaeneg neu'r Ffrangeg (mae'r data hyn ar gyfer Gwlad y Basg gyfan yn hytrach na Chymuned Ymreolus Gwlad y Basg yn unig). O ran polisi iaith, mae'n galonogol bod rhai rhieni neu ofalwyr nad ydynt wedi cael eu magu yn y Fasgeg yn trosglwyddo'r Fasgeg fel iaith gyntaf i'w plant. Mae ymchwil ansoddol yn dangos, yn gyffredinol, y byddai rhieni neu ofalwyr sy'n siaradwyr newydd yn hoffi siarad Basgeg â'u plant, ond mae llawer yn nodi nad ydyn nhw'n teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r iaith (Garcia-Ruiz 2025).

Hyd at ddechrau'r 21ain ganrif, roedd ymchwil ar drosglwyddo'r Fasgeg dros y cenedlaethau yn y teulu yn brin. Yn gyffredinol, nid oedd yn mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol parhad y Fasgeg dros y cenedlaethau (Kasares, 2014; Kasares, Ortega ac Amorrortu, 2022). Mae polisi iaith macro wedi canolbwyntio'n bennaf, ac yn gryf iawn, ar addysg drwy gyfrwng y Fasgeg, gyda chyfraddau disgyblion a addysgwyd mewn ysgolion drwy gyfrwng Basgeg yn codi o tua 15% yn 1983 i 67% yn 2021 ar draws pob canolfan addysg ac eithrio prifysgolion yng Nghymuned Ymreolus Gwlad y Basg, gyda'r canrannau'n uwch eto mewn addysg prif ffrwd 3 i 16 oed (Lloyd-Williams, ap Gruffudd a Jones, 2024). Er gwaethaf hyn, mae llawer o brosiectau arwyddocaol, sy'n cael eu gyrru'n bennaf gan fentrau cymdeithasol ar y lefel ficro neu leol mewn cydweithrediad â sefydliadau cyhoeddus, wedi anelu at ddylanwadu ar ecosystem ieithyddol plant sy'n siarad Basgeg. Fel y gwelwn yn nes ymlaen, mae mentrau cymunedol o'r gwaelod i fyny wedi bod ar flaen y gad wrth geisio mynd i'r afael â heriau, tra bod ymchwil academaidd wedi esblygu i ddarparu damcaniaethau sy'n bwrw goleuni ar weithgarwch yn y maes. Yn ddiddorol ddigon, mae'r 2 ddull, yr un mwyaf greddfodol yn seiliedig ar arsylwi ar heriau a mentrau ymarferol ar y naill law, a chynigion o fyd theori ar y llaw arall, wedi dod i'r un casgliadau. Felly, mae damcaniaeth newydd wedi bwrw goleuni ar yr arferion a'r mentrau a weithredwyd o'r blaen, ac at y paradeim 'cymdeithasoli' hwn y trown yn awr.

3.6.1 Y paradeim cymdeithasoli iaith

Mae gwreiddiau'r paradeim cymdeithasoli iaith yng nghanol yr 1980au pan geisiodd anthropolegwyr ieithyddol Gogledd America (Schieffelin ac Ochs, 1986), egluro sut

roedd pobl yn dod yn aelodau o'u grŵp cymdeithasol a pha rôl mae iaith yn ei chwarae yn y broses honno. Yn hanfodol i hyn mae'r ddealltwriaeth bod cymdeithasoli iaith yn cwmpasu mwy na dysgu iaith yn unig. Mae'n ymestyn i'r dylanwadau diwylliannol (a llawer o rai eraill) sy'n siapio datblygiad dynol, ac yn gwahaniaethu rhwng dau brif ddimensiwn: sut mae plant yn cael eu cymdeithasoli 'trwy'r defnydd' o iaith a sut maen nhw'n cael eu 'cymdeithasoli' i ddefnyddio iaith.

I'r awduron hyn, mae cymdeithasoli iaith yn broses holistaidd, heb fod yn gyfyngedig i'r teulu, sy'n ddynamig, yn rhyngweithiol, ac yn gyd-destunol, hynny yw wedi'i leoli yn ei gyd-destun ac wedi'i ddatblygu pan fydd siaradwyr yn rhyngweithio mewn sefyllfaoedd. Mae'r broses gymdeithasoli yn barhaus, heb fod wedi'i chyfyngu mewn amser ac felly nid yw'n gyfyngedig i blentyndod. Mae'n broses gydol oes.

Mae'r paradeim hwn yn cwestiynu ai yn 'fertigol' (o'r top i lawr) yn unig ac ai mewn un cyfeiriad (o rieni/gofalwyr i blant neu oedolion i blant) yn unig y digwydd trosglwyddo. Nid yw plant ifanc yn dderbynwyr goddefol; gallant gymdeithasoli oedolion eu teuluoedd (Schieffelin ac Ochs, 1986) a hefyd weithredu fel asiantau gweithredol wrth gymdeithasoli plant eraill. Ar yr un pryd, mae asiantau a gofodau eraill sy'n rhan o'r we ddynamig o ryngweithio â phlant yn dod i'r amlwg ac yn wir yn cael eu cydnabod. Oherwydd hyn, nodwedd y broses hon yw'r ffaith ei bod yn gweithio mewn 'dau gyfeiriad neu mewn mwy na dau gyfeiriad' (Sacks, 1984; Garrett a Baquedano-López, 2002; He, 2011). Natur aml-asiantaeth sydd iddi (He 2011). Dylid nodi, fodd bynnag, er gwaethaf cydnabyddiaeth gynyddol bod gan blant fwy o asiantaeth nag a dybiwyd o'r blaen, yn y rhan fwyaf o gydberthnasau rhwng oedolion a'u plant, gan y rhiant neu'r gofalwr mae'r awdurdod, a bydd hyn yn anochel yn effeithio ar lefel ac effaith asiantaeth plentyn. Rhieni a gofalwyr, yn bennaf, sy'n gwneud penderfyniadau o ran p'un a yw plentyn yn mynychu cylch chwarae neu ysgol benodol, er enghraifft. Yn fyr: mae gan blant asiantaeth, ond mae gan rieni a gofalwyr awdurdod.

Mae rhai (Duranti, Ochs a Schieffelin, 2011) wedi dadlau y gall paradeim cymdeithasoli iaith, oherwydd ei fethodoleg, ei ddull dadansoddol, a'i safbwynt damcaniaethol, wneud cyfraniad, nid yn unig at ddeall prosesau lleiafrifoli a shift ieithyddol, ond hefyd at brosesau cynnal ac adfywio iaith. Fodd bynnag, mae enghreifftiau'n parhau i fod yn brin, ac yng nghyd-destun penodol ieithoedd lleiafrifedig Ewrop, ychydig iawn o astudiaethau a gafwyd. Yng Nghymru fe wnaeth Jones and Morris (2007a;b); a Morris a Jones (2008) gymhwyso'r dull hwn i'w hastudiaeth ansoddol o gymdeithasoli cynnar iaith plant rhwng 0 a 2 oed. Fe wnaeth Kasares (2012; 2014) hefyd gymhwyso hyn i sefyllfa'r Fasgeg. Dangosodd y 2 astudiaeth fod y patrwm cymdeithasoli iaith yn addas ar gyfer astudio parhad iaith dros y cenedlaethau. Mae cysyniadau traddodiadol trosglwyddo ac atgynhyrchu yn ymgorffori byd-olwg cyfan, neu ffordd o ddeall y ffenomen, sy'n cuddio agweddau sylfaenol ar y broses y mae plant yn mynd drwyddi wrth ddod yn siaradwyr.

3.6.2 Y newid mewn meddwl: o drosglwyddo i gymdeithasoli

O ganlyniad, mae Kasares (2017) yn cynnig newid o baradeim ‘trosglwyddo’ i ‘gymdeithasoli.’ Mae’r newid hwn yn y ffocws yn dod â nodau, dulliau, gofodau ac asiantau newydd i mewn i’r fei.

Canlyniad cyntaf mabwysiadu’r paradeim cymdeithasoli iaith yw ei fod yn gwneud y cysyniad o ‘famiaith’ yn un fwy perthynol, ac yn amlygu ffactorau eraill (perthnasau cymdeithasol, bywyd ysgol, hamdden, ac ati) sy’n siapio magwraeth ieithyddol (‘crianza lingüística’, (Kasares 2017)). O ganlyniad, mae perthnasau plant o’r un genhedlaeth (ymysg cyfoedion) yn bwysicach am mai’r rhain sy’n dangos orau sut mae eu cymdeithasoli fel siaradwyr. Drwy *gyfathrebu nad yw wedi’i sefydliadoli* rydym yn golygu rhyngweithio (megis chwarae rhydd) lle nad yw iaith y cyfathrebu wedi’i sefydlu ymlaen llaw, yn wahanol i sefyllfaoedd cyfathrebu sydd wedi’u sefydliadoli (yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau sydd wedi eu trefnu a’u rheoleiddio ag ati), lle mae defnydd iaith yn cael ei gymell neu ei ragnodi (Kasares 2017).

O dderbyn nad cysyniad ‘mamiaith’ yw’r unig ffordd o drosglwyddo iaith, mae hyn yn ei gwneud hi’n bosibl gweithio gydag ystod ehangach o fathau o deulu, fel rhieni neu ofalwyr sydd â gallu cyfyng neu hyd yn oed heb allu o gwbl yn yr iaith leiafrifedig. Mae hyn yn werthfawr, o ystyried nodweddion demoieithyddol sefyllfaoedd sosioieithyddol y Fasgeg neu’r Gymraeg. Byddai’r rhan fwyaf o deuluoedd fel arall y tu hwnt i sgôp ymchwil a pholisi, a byddai eu hymdrechion a’u strategaethau ar gyfer magu plant sy’n siarad ieithoedd lleiafrifedig yn llawer llai gweladwy (Kasares 2020a).

Mae’r paradeim cymdeithasoli iaith hefyd yn caniatáu inni ddiwygio ymdrechion i sicrhau parhad cenedlaethau’r iaith leiafrifedig. Mae hynny’n golygu bod plant yn defnyddio’r iaith leiafrifedig yn eu cyfathrebu nad yw wedi ei sefydliadoli. Nid ‘dysgu’ yr iaith yn unig yw’r peth dan sylw. Mae defnydd gweithredol o iaith, a hynny mewn sefyllfaoedd nad ydynt wedi eu sefydliadoli yn bwysig mewn sefyllfaoedd iaith lleiafrifedig (Kasares 2017).

Mae’r tabl canlynol yn crynhoi’r prif wahaniaethau rhwng y ddau baradeim.

Newid paradeim: cysyniad, amcan, modd ac asiantau Kasares (2017).

Cysyniad	Amcan	Modd	Asiantau
Trosglwyddo	Mamiaith	Y cartref Yr ysgol	Rhieni a gofalwyr Athrawon Asiantaeth unffordd (fertigol, o'r top i lawr [↓])
↓	↓	↓	↓
Cymdeithasoli	Cyfathrebu plant nad yw wedi ei sefydliadol	Holistaidd (ecosystem ieithyddol gyfan y plentyn)	Asiantaethau lu Rhyngweithiol (fertigol, o'r top i lawr ac o'r gwaelod i fyny [↑] a llorweddol [↔])

Nid yw'r syniad o atgyfnerthu arferion defnydd o fewn perthnasau plant wedi ei gyfyngu i'r cartref a'r ysgol. Mae dylanwadau cymdeithasoli yn ymestyn i feysydd ehangach bywyd cymdeithasol, ac mae natur holistaidd cymdeithasoli iaith yn effeithio ar y gymuned gyfan (gweithgareddau allgyrsiol, chwaraeon, cerddoriaeth, neu'r cyfryngau, hynny yw, ecosystem gyfathrebol gyfan plentyndod).

Mae cymdeithasoli cenedlaethau newydd mewn iaith lleiafrifedig yn gofyn am rôl gymdeithasoli ymwybodol y teulu, gwaith cymdeithasoli hanfodol yr ysgol, cydweithrediad cymdeithasoli byd allgyrsiol, a'r cyfleoedd sy'n cael eu creu gan weinyddiaethau cyhoeddus, yn fyr, yr hyn sy'n gyfystyr â 'throsglwyddo cymunedol' (Kasares 2020b), sy'n creu'r amodau cymdeithasol sy'n gwneud yr iaith yn adnodd deniadol sy'n werth ei defnyddio a'i dewis. Ond, os, fel y nodwyd eisoes, nad 'derbynwyr' iaith yn unig mo plant, na chwaith etifeddion syml i dreftadaeth ieithyddol eu rhieni neu eu gofalwyr, ac os ydynt, yn hytrach, yn asiantau gweithredol ym mharhad yr iaith, rhaid iddynt wneud yr iaith a dderbyniant yn eiddo iddynt eu hunain ac yn rhan o bwy maent eisiau bod (Kasares 2017).

3.7 Ail-fframio asiantau a gofodau cymdeithasoli

O ystyried y 'lens' newydd ar gyfer polisi iaith yr ydym wedi'i hegluro uchod, trown yn awr at ddadansoddiad o bwy neu beth y mae modd eu hystyried yn asiantau cymdeithasoli ieithoedd lleiafrifedig, boed yn bobl, yn ofodau, neu'n weithgareddau.

3.7.1 Rhieni, gofalwyr, asiantau cymdeithasoli ieithyddol arwyddocaol, a llawer mwy na throsglwyddwyr iaith

Er ein bod wedi ein hargyhoeddi gan y ddadl y gall asiantau tu hwnt i'r teulu gyfrannu at barhad iaith dros y cenedlaethau, ni ddylid casglu ar sail hyn ein bod yn cwestiynu pwysigrwydd rôl y teulu o ran cymdeithasoli. Heb os, mae rhieni neu ofalwyr sy'n siarad ieithoedd lleiafrifedig yn asiantau cymdeithasoli pwysig i'w plant. Fodd bynnag, nid dyna'r unig weithgarwch maen nhw'n ymgymryd ag ef. Mewn cyd-destunau lleiafrifedig fel y Gymraeg neu'r Fasgeg, mae angen ystyried rhieni a gofalwyr hefyd fel cynllunwyr iaith 'in situ' y mae eu dewisiadau a'u harferion yn cael eu llunio gan rymoedd cymdeithasol ehangach (King a Fogle, 2006; Nandi, 2018).

Bydd eu penderfyniadau'n ystyried mewn modd ymwybodol sefyllfa iaith leiafrifedig y Fasgeg, neu'r Gymraeg, ac mae llawer yn mynd ati i fagu eu plant fel eu bod yn ddwyieithog mewn ffordd holistaidd sy'n ceisio cynnwys cynifer o ddulliau ag sy'n bosibl i gynorthwyo hyn (Kasares, Ortega ac Amorrortu, 2022).

I lawer, mae magu plant mewn iaith leiafrifedig yn broses ymwybodol a gweithredol a thrown bellach at y weithred o gymdeithasoli sydd wedi'i chynllunio gan rieni a gofalwyr. Gall hyn fod yn heriol, oherwydd yng nghyd-destunau'r Fasgeg a'r Gymraeg fel ei gilydd, rydym wedi gweld y gall hyd yn oed un aelod teulu nad yw'n siarad Basgeg neu Gymraeg arwain at gyfraddau trosglwyddo is rhwng y cenedlaethau. Pan na fydd trosglwyddo'n llwyddo ymhlith rhieni neu ofalwyr sy'n llawn cymhelliant ac yn ymroddedig, gall hyn arwain at rwystredigaeth neu euogrwydd pan fyddant yn cael trafferth cynnal defnydd cyson o'r iaith leiafrifol (Garcia-Ruiz 2025) a hefyd pan fydd plant yn dechrau gweithredu eu dewisiadau iaith eu hunain (Nandi, Kasares a Manterola, 2024). Fe wnaeth Birnie (2024) astudiaeth debyg ar Aeleg yn yr Alban yn y cyfnod wedi COVID-19.

Ond ar wahân i 'ddefnyddio' eu Cymraeg neu eu Basgeg â'u plant, mae llawer o feysydd eraill lle gall rhieni a gofalwyr ddefnyddio eu gallu personol i gynllunio iaith. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- trosglwyddo agweddau positif ac ymlyniad emosiynol tuag at y Fasgeg
- dewis ysgol
- defnyddio cynnyrch diwylliannol fel llyfrau, teledu neu gerddoriaeth
- cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden yn y Gymraeg neu'r Fasgeg

Mae'r mathau hyn o strategaethau hefyd wedi'u nodi mewn teuluoedd lle mae gan rieni neu ofalwyr lai o sgiliau yn yr iaith neu lle nad oes ganddynt allu o gwbl yn y Fasgeg, ond lle maent wedi ymrwymo i sicrhau bod eu plant yn dysgu'r iaith cyn llawned â phosibl (Amorrortu et al. 2009). Mae hefyd yn bwysig nodi bod y drafodaeth hon yn berthnasol i rieni a gofalwyr Cymru (waeth beth yw eu gallu yn y Gymraeg). Mae rôl rhieni a gofalwyr fel asiantau cymdeithasoli yn ymestyn ymhell y tu hwnt i unrhyw sgiliau Cymraeg a allai fod ganddynt, ac mae'n cynnwys penderfyniadau, agweddau a dewisiadau sy'n galluogi eu plant i gaffael, defnyddio a pherchnogi'r Gymraeg mewn cyd-destunau ehangach na'r ysgol.

Nid yw ymdrechion o'r fath yn gwbl weladwy drwy lens y cysyniad traddodiadol o drosglwyddo fertigol nad yw ond yn ystyried rhieni a gofalwyr sy'n medru siarad iaith leiafrifedig. O ganlyniad, nid oes digon o gymorth a chydabyddiaeth wedi bod i'r cyfraniad hwn at bolisi iaith.

Mae'r adran hon yn trafod mentrau a phrosiectau o Wlad y Basg sy'n cefnogi defnydd yr iaith leiafrifedig ac sydd hefyd yn cysylltu â'r hyn a welir yn aml yng

nghyd-destun Cymru, sef lle canolog yr ysgol i drosglwyddo iaith (gwelir hefyd gyfeiriadau at roddi iaith rhwng y cenedlaethau yn Evas et al (2017) ac Evas (1999).

3.7.2 Mentrau a phrosiectau a ffyrdd eraill o gynorthwyo trosglwyddo

Yng Ngwlad y Basg, mae corff o fentrau ieithyddol a gynlluniwyd gan gymunedau eu hunain (yn aml gyda chyllid cyhoeddus) yn enghreifftiau o arfer da y mae modd eu rhannu a'u hefelychu mewn cymunedau eraill.

Er enghraifft, yn aml bydd rhieni a gofalwyr yn cymryd camau rhagweithiol i greu amgylcheddau Cymraeg neu Fasgeg. Maent yn:

- trefnu grwpiau chwarae anffurfiol
- dewis gofalwyr sy'n siarad Cymraeg neu Fasgeg
- ymuno â rhwydweithiau Cymraeg neu Fasgeg er mwyn cael cefnogaeth gan bobl eraill (Jones a Morris, 2007b; Nandi, Kasares a Manterola, 2024)

Gallai'r ymdrechion hyn helpu i wrthbwysu goruchafiaeth yr hyn a elwir yn iaith hegemonaid (defnyddir y term 'iaith hegemonaid' yn gynyddol yn y cyd-destun Basgeg i gyfeirio at iaith sy'n dominyddu cyd-destunau penodol. Gall fod yn Ffrangeg yn ogystal â'r Sbaeneg, neu'r Saesneg) ac estyn y Gymraeg neu'r Fasgeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gyda chymorth cyrff, cymdeithasau a sefydliadau. Drwy gydnabod eu dylanwad a thrwy weithredu ar y cyd, gall rhieni a gofalwyr gynnal y Fasgeg neu'r Gymraeg mewn bywyd beunyddiol, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae dwysedd is o ran yr iaith. Y cwestiwn, yw sut i hwyluso hyn ar raddfa eang.

Mae'r rhestr hon yn nodi rhai prosiectau a mentrau i gefnogi rhieni a gofalwyr ar sail yr hyn a nodwyd ynghynt.

3.7.2.1 Gwefannau

Mae gwefannau wedi cael eu lansio gan gonsortia o gynghorau lleol ([Emangiltza](#) 'Dyror allwedd' yng Nghymuned Ymreolus Gwlad y Basg ac [Era Nafarroa](#) yn Navarra). Eu nod yw codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth i deuluoedd sydd â diddordeb mewn magu eu plant yn y Fasgeg. Gall rhieni a gofalwyr ddod o hyd i sesiynau hyfforddi, adnoddau ar gyfer chwarae, ac amserlen o weithgareddau ar gyfer hamdden plant yn y Fasgeg.

3.7.2.2 Ymgyrchoedd

Roedd '[Haurren aurean helduok heldu](#)' (O flaen plant, Basgeg bob tro i ni oedolion) yn ymgyrch gan y sefydliad cymdeithas sifil Euskaltzaleen Topagunea. Fe'i rhoddwyd ar waith gyda chyllid gan Lywodraeth Navarra. Roedd y prosiect yn mynd i'r afael â'r ffaith bod llawer o rieni a gofalwyr sy'n siarad Basgeg yn siarad â'u plant yn y Fasgeg, yn annog eu plant i gyfathrebu â chyfoedion yn y Fasgeg ond eu bod nhw eu hunain yn defnyddio Sbaeneg gyda'i gilydd. Tynnodd yr ymgyrch sylw at bwysigrwydd rhieni a gofalwyr fel modelau rôl ar gyfer ymddygiad ieithyddol.

3.7.2.3 Cymdeithasau

Mae cymdeithasau wedi cael eu creu i sefydlu gofodau ar gyfer teuluoedd sy'n siarad Basgeg ac i gynnig gweithgareddau iddynt, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle mae gan y Fasgeg bresenoldeb cymdeithasol gwan. Enghraifft o hyn yw [Irauli](#) yn Pamplona, Navarra, neu [Plazara](#) yn Baiona, Gwlad y Basg yn Ffrainc. Mae'r gymdeithas olaf hon wedi lansio'r prosiect '[FamiliON](#)', sy'n cynnig profiadau trochi iaith i deuluoedd (o bob cwr o Wlad y Basg), lle mae rhaglen o weithgareddau wedi'i hanelu at bob rhiant a gofalwr (gan gynnwys hyfforddiant datblygu iaith i'r rhai sydd am wella eu gallu yn y Fasgeg), ac at blant, gydag amrywiaeth o weithgareddau hamdden. Mae teuluoedd yn byw gyda'i gilydd yn y Fasgeg am wythnos.

3.7.2.4 Mentrau cyffredinol

Mae mentrau cyffredinol i gefnogi ac annog dysgu a defnyddio'r Fasgeg ar lefel gymunedol yn aml yn cynnwys rhaglenni a gweithgareddau arbennig i rieni, gofalwyr a theuluoedd. Enghraifft o hyn yw [Egizu](#) yn Getxo, ardal dwysedd canolig ar gyrion Bilbao (lle mae 33% yn siarad Basgeg, a 11% yn siarad Basgeg neu Fasgeg a'r Sbaeneg adref), gyda'r prosiect 'Sendi' i gefnogi'r Fasgeg yn y teulu. Mae'r gweithgareddau'n amrywio o wersi i rieni a gofalwyr i wella eu sgiliau llafar yn y Fasgeg ('Gurasolagun' = 'Cyfaill i rieni'), sgysiau i rieni a gofalwyr ac addysgwyr, neu sesiynau 'Euskaraz Olgetan' i chwarae a chanu gyda'r teulu yn y Fasgeg. Mae cymdeithasau cymunedol fel hon, a chanddynt sylfaen gwirfoddolwyr gref a chymorth ariannol gan y cyngor lleol, yn fodel cyffredin yn ne Gwlad y Basg o fewn gwladwriaeth Sbaen sy'n ardaloedd dwysedd canolig neu is. Wrth gwrs, mae enghreifftiau o fentrau a chynlluniau tebyg sydd wedi cael eu gweithredu yng nghydestun y Gymraeg yng Nghymru.

3.7.2.5 Gweithredu hyn o safbwynt y Gymraeg

Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, dylai system gref, wedi'i chynllunio'n dda, o gefnogi rhieni/gofalwyr a theuluoedd fod yn rhan ganolog o bolisi. Dylai'r system hon:

- fod â chymau gweithredu ymarferol a gwybodaeth eglur ar sut mae cymryd rhan
- bod yn seiliedig ar y gwyddorau ymddygiadol a dylai adlewyrchu anghenion lleol
- annog syniadau ar lawr gwlad a chydabod bod gan bobl sy'n byw'r drwy'r profiad fewnwelediad gwerthfawr, ond efallai y bydd arnynt angen help i wneud newid parhaol

3.8 Cefnogi rhieni a gofalwyr o bob cefndir ieithyddol

Mae llawer o'r drafodaeth am drosglwyddo'r Gymraeg yn canolbwyntio ar rieni neu ofalwyr sydd â rhywfaint o Gymraeg, neu sydd wedi derbyn addysg Gymraeg eu hunain. Er bod y grŵp hwn yn bwysig, mae'n hanfodol cydnabod yn glir nad dyma broffil mwyafrif rhieni neu ofalwyr plant sy'n derbyn addysg Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig ac is. Yn yr un modd ag y trafodir profiadau grwpiau eraill yn gynharach yn yr adroddiad hwn, dylid deall rhieni a gofalwyr di-Gymraeg fel rhan ganolog o realiti gymdeithasol ac ieithyddol yr ardaloedd hyn.

Hefyd, fel y trafodwyd ym mhennod 2 ('Cyd-destun cymdeithasol y Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is'), mae'r cymunedau dan sylw yn aml yn gymunedau dwyieithog neu amlieithog, gyda'r Gymraeg yn bodoli ochr yn ochr ag ieithoedd, hunaniaethau a phrofiadau eraill. Dylid deall y drafodaeth ganlynol am deuluoedd, ysgolion a chymdeithasoli iaith o fewn y cyd-destun ehangach hwn, ac nid fel trafodaeth ar y Gymraeg mewn seilo ar wahân.

Mae cyfran sylweddol o blant sy'n mynychu addysg Gymraeg yn yr ardaloedd hyn yn dod o deuluoedd lle nad oes gan y rhieni neu'r gofalwyr unrhyw Gymraeg, neu lle mae'r rhieni neu'r gofalwyr yn teimlo nad oes ganddynt y gallu na'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt. Mae cyfraniad mawr gyda'r rhieni a'r gofalwyr hyn i ddyfodol y Gymraeg ac rydym yn amlinellu hyn yn yr adrannau sy'n dilyn.

Mae'r dystiolaeth sy'n dilyn yn dangos nad yw cefnogi rhieni a gofalwyr di-Gymraeg yn fater o 'drosglwyddo'r iaith' yn yr ystyr draddodiadol, ond o'u galluogi i weithredu fel asiantau cymdeithasoli mewn ffyrdd eraill, waeth beth yw eu gallu yn y Gymraeg. Gall hyn gynnwys:

- cefnogi penderfyniadau addysgol sy'n ffafrio'r Gymraeg
- hwyluso mynediad at weithgareddau cymunedol a hamdden cyfrwng Gymraeg
- atgyfnerthu agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a'u gweld fel rhywbeth sy'n perthyn i'w teuluoedd hwy hefyd
- cefnogi plant i gynnal defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, hyd yn oed pan nad yw'r rhiant neu'r gofalwr yn gallu siarad yr iaith ei hun

O safbwynt polisi iaith, mae hyn yn gofyn am symud oddi wrth ddisgwyliadau bod rhaid meddu ar y Gymraeg er mwyn cefnogi'r Gymraeg, sef ystyried realiti demograffeg ieithyddol yn fwriadol wrth gynllunio ymyriadau.

3.8.1 Yr ysgol fel ecosystem ar gyfer cymdeithasoli iaith

Mae'r ysgol yn sylfaen bwysig i adfywiad pob iaith leiafrifedig, ond nid yw'r swyddogaeth hon wedi ei chyfyngu i addysgu iaith, addysgu amdani neu addysgu drwyddi. Mae ysgolion Basgeg wedi gweithredu fel catalyddion ar gyfer trosglwyddo, yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae gan y Fasgeg bresenoldeb cymdeithasol gwannach, fel asiant adfywio cymdeithasol-ddiwylliannol ac ieithyddol lleol

(Hernández García 2005; Kasares 2014). Mae profiad o 40 mlynedd a mwy o addysg yn y Fasgeg ynghyd â mewnwelediadau newydd sy'n deillio o ddamcaniaeth cymdeithasoli iaith wedi helpu i adnabod strategaethau i gryfhau ei rôl addysg ac ysgolion cyfrwng Basgeg.

Er bod yr ysgol yn ofod canolog ar gyfer cymdeithasoli iaith, mae'n bwysig pwysleisio nad yw ysgolion Cymraeg yn bodoli ar wahân i'r teuluoedd a'r cymunedau ehangach y maent yn eu gwasanaethu. Mae'r ysgol yn aml yn fan cyfarfod rhwng rhieni a gofalwyr o gefndiroedd ieithyddol amrywiol, gan gynnwys nifer sylweddol o rieni a gofalwyr di-Gymraeg. O ganlyniad, dylid deall rôl yr ysgol nid fel 'gofod Cymraeg' yn unig, ond hefyd fel pont gymdeithasol ac ieithyddol sy'n galluogi cymdeithasoli'r Gymraeg y tu hwnt i'w gatiau. Mae rôl yr ysgol fel ecosystem gymdeithasoli yn dibynnu ar greu cyfleoedd i rieni a gofalwyr gymryd rhan heb ddisgwyliad iddyn nhw eu hunain 'berfformio' yn ieithyddol, ac ar normaleiddio presenoldeb rhieni a gofalwyr di-Gymraeg fel rhan ganolog o fywyd yr ysgol.

Mae paralel rhwng polisi Adrannau Addysg Cymuned Ymreolus Gwlad y Basg a Navarra o ysgolion yn datblygu Cynllun Iaith Ysgol ac un o ddarpariaethau Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sy'n gosod disgwyliad newydd i bob ysgol yng Nghymru (erbyn 2030) baratoi cynlluniau cyflawni ysgol fydd, ymhlith pethau eraill, yn dangos sut y bydd ysgolion yn gwella a, lle bo'n rhesymol ymarferol, gynyddu eu darpariaeth Gymraeg.

Bydd disgwyl i gynllun cyflawni addysg Gymraeg ysgol:

- nodi categori iaith yr ysgol a'r swm presennol o addysg Gymraeg a ddarperir
- esbonio sut y bydd yr ysgol yn darparu'r swm o addysg Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y categori hwnnw
- amlinellu'r camau i hybu addysg drochi hwyr
- cynnwys cynigion ar gyfer cynnal a chynyddu darpariaeth Gymraeg yr ysgol dros gyfnod y cynllun (3 mlynedd)
- os yw'r ysgol yn cynnig darpariaeth feithrin, nodi'r ddarpariaeth bresennol a chynigion ar gyfer ei chynnal a'i datblygu.
- manylu ar sut y caiff rhieni a gofalwyr nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg hyderus eu cefnogi i gefnogi eu plant a chyfrannu at ddiwylliant yr ysgol

Agwedd bwysig ar gynnwys cynllun fydd yr angen i gynnwys cynigion ar sut y bydd yr ysgol yn:

- hybu ethos a diwylliant Cymraeg
- hybu defnydd dyddiol o'r Gymraeg
- sicrhau gwelliant parhaus yn y ddarpariaeth Gymraeg

Gall hyn gynnwys gweithgaredd Siarter Iaith ysgolion. Rhaglen yw'r Siarter Iaith yn anelu at ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae gan bob aelod o gymuned ysgol ran i'w chwarae gan

gynnwys cyngor yr ysgol, dysgwyr, rhieni a gofalwyr, llywodraethwyr, gweithlu'r ysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach, fel busnesau a thrigolion lleol. Llais y dysgwr sydd wrth wraidd y rhaglen, sy'n arf i ddeall yn well eu perthynas â'r Gymraeg a sicrhau eu bod yn ganolog i unrhyw gynlluniau lefel ysgol a chymunedol i ysgogi defnydd o Gymraeg sy'n rhwydd, yn hwyl ac yn berthnasol i'w bywydau bob dydd. Rydym hefyd yn ymdrin â'r Siarter ym mhennod 4, ('Cymdeithasoli'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol: diwylliant, hamdden a phobl ifanc').

Mae 2 ddimensiwn i'w dadansoddi o ran rôl ysgolion: yr ysgol fel gofod lle 'diogelir' yr iaith leiafrifedig a'r ysgol fel canolbwynt ar gyfer cymdeithasoli iaith y tu hwnt i'w gatiau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer rhieni a gofalwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg, lle gall yr ysgol weithredu fel y prif fecanwaith sy'n darparu mynediad at rwydweithiau Cymraeg, gwybodaeth ymarferol, a chyfleoedd cymdeithasoli na fyddent fel arall ar gael iddynt.

3.8.1.1 Yr ysgol fel gofod lle 'diogelir' yr iaith leiafrifedig

Rydym eisoes wedi nodi twf addysg Fasgeg dros y degawdau diweddar. Yn enwedig mewn ardaloedd dwysedd is, yr ysgol Fasgeg yn aml fu'r prif ofod ble 'diogelir' defnydd y Fasgeg, sef y gofod lle y caiff ei dysgu a'i defnyddio'n ddi-gwestiwn. Felly, un maes gweithredu yw cefnogi a chanolbwyntio ar addysg Fasgeg fel gofod o'r fath. Mae hyn yn golygu edrych ar yr ysgol fel system gyflawn o berthnasau a defnydd iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Er mwyn cryfhau'r agwedd hon, mae polisi wedi'i lansio gan Adrannau Addysg Cymuned Ymreolus Gwlad y Basg a Navarra, lle mae rhaid i bob ysgol ddatblygu '[Cynllun Iaith Ysgol](#).' Mae'r ddogfen hon yn cynllunio ar gyfer presenoldeb ieithoedd mewn gweithgareddau a gofodau cwricwlaidd ac allgyrsiol. Yn achos y Fasgeg, mae'n edrych ar y gofodau lle mae'r Fasgeg i fod yn bresennol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth (ffreutur, bws ysgol, amser chwarae ym maes chwarae'r ysgol [...]), yn seiliedig ar ddiagnosis o gyd-destun sosioieithyddol a chymdeithasol lleoliad yr ysgol. Mae'r ddogfen hon yn cael ei hystyried yn offeryn ar gyfer cydlynu cynllunio pob iaith mewn ysgolion (Basgeg, Sbaeneg a Saesneg), ac yn helpu i ddatblygu strategaethau perthnasol ac effeithlon ar gyfer y Fasgeg yn yr ysgol a'r gymuned.

3.8.1.2 Yr ysgol fel canolbwynt ar gyfer cymdeithasoli iaith y tu hwnt i'w gatiau

Yng Ngwlad y Basg, mae'r ysgol wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer adfywio'r Fasgeg a'i diwylliant, yn enwedig mewn ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr. O ganlyniad, mae wedi bod yn ganolfan ar gyfer cymdeithasoli iaith ac ar gyfer mentrau dan arweiniad ysgolion a gofalwyr, ac yn lle i rieni/gofalwyr a'r gymuned ddod at ei gilydd.

Weithiau dan arweiniad yr ysgol, weithiau dan arweiniad rhieni a gofalwyr, mae prosiectau i gryfhau parhad ieithyddol o fewn y triongl teulu-ysgol-hamdden wedi cael eu rhoi ar waith. Drwy atgyfnerthu'r continwwm ieithyddol rhwng teulu, ysgol a hamdden, mae'r amodau ar gyfer cymdeithasoli ieithyddol plant yn gwella. Rhaid inni symud y tu hwnt i brofiadau darniog gan blant a phobl ifanc o'r iaith leiafrifedig.

Mae'n hanfodol sicrhau bod ysgolion a rhieni neu ofalwyr (waeth beth yw eu gallu yn y Fasgeg/Cymraeg) yn cydweithio mewn strategaeth sy'n seiliedig ar athroniaeth bod adfywio neu gymdeithasoli iaith yn gyfrifoldeb ar y cyd ac i'w rannu ar draws pob teulu, waeth beth fo'u lefelau ieithyddol (Ciriza 2019). Un dull effeithiol o estyn dylanwad yr ysgol yw ffurfio rhwydweithiau rhieni a gofalwyr anffurfiol, yn aml drwy offer digidol. Wrth gydnabod yr heriau o gynnal y Fasgeg y tu allan i'r ysgol, mae rhieni a gofalwyr yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol i greu gofodau i blant ryngweithio yn y Fasgeg. Yn ogystal, mae ysgolion yn aml yn 'uchelseinyddion,' hynny yw, maent yn trosglwyddo gwybodaeth ynghylch prosiectau o bob math gan y gymuned neu'r awdurdod lleol, gan gynnwys:

- gweithgareddau dysgu ieithoedd lleiafrifedig
- gweithgareddau hamdden teuluol
- gweithgareddau diwylliannol yn y Fasgeg
- gweithdai gwybodaeth neu ymwybyddiaeth, gan gynnwys i rieni a gofalwyr gan ddarparu negeseuon clir am bwysigrwydd trosglwyddo a strategaethau ymarferol ar gyfer defnydd gartref.

Mae'r rhain fel arfer wedi tarddu o grwpiau rhieni a gofalwyr ac yn y gymdeithas sifil yn hytrach na bod yn seiliedig ar bolisi cenedlaethol o'r top i lawr. Noder hefyd fod hyd at 50% o ysgolion cyfrwng Basgeg yng Nghymuned Ymreolus Gwlad y Basg yn ysgolion 'ikastola', sy'n golygu fod rôl greiddiol gan rieni, gofalwyr a chefnogwyr i gynnal yr ysgol gan eu bod yn endidau annibynnol. Maent yn elwa o sylfaen gadarn o wirfoddolwyr, ac mae llawer yn cael eu hariannu'n rhannol neu'n sylweddol iawn gan awdurdodau lleol.

Ni ellir disgwyl i ysgolion ar eu pennau eu hunain llwyr gynnal na llwyr normaleiddio defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Yn y pen draw, nid diben yr ysgol yw bod yn brif leoliad cymdeithasol y Gymraeg, ond yn hytrach bod yn sbardun sy'n galluogi teuluoedd i symud, ar eu telerau eu hunain, i rwydweithiau a gofodau cymunedol ehangach lle gall y Gymraeg gael ei defnyddio'n ddiofyn.

3.8.2 Dealltwriaeth gynnar plant o normau a gwerthoedd ieithyddol

Wrth siarad am blant yn dysgu'r iaith leiafrifedig, rydym yn aml yn anghofio eu bod yn dysgu mwy na iaith, gan gynnwys gwerthoedd cymdeithasol, y normau, a'r cyd-destunau mae'r iaith honno yn cael ei defnyddio ynddynt (Luykx 2003). Mae plant yn dysgu'r rhain wrth ryngweithio bob dydd.

3.8.3 Asiantaeth plant mewn cydberthnasau rhiant–plentyn

Rydym wedi clywed eisoes bod cymdeithasoli iaith yn ailfframio trosglwyddo fel proses ddynamig, 2 gyfeiriad lle nad yw plant yn dderbynwyr goddefol ond yn cael eu cydnabod fel asiantau gweithredol. Mae plant yn dylanwadu ar arferion iaith teulu cymaint ag y cânt eu siapio ganddynt (Kasares Corrales 2013). Yn yr ystyr honno,

yng nghyd-destun y Fasgeg, mae plant sy'n ymgorffori normau cymdeithasol sy'n ffafrio defnyddio'r Sbaeneg yn aml yn cyflwyno'r Sbaeneg mewn cartref lle mae'r Fasgeg yn cael ei siarad. I'r gwrthwyneb, canfuwyd yn aml fod plant yn 'geidwaid porth' sy'n amddiffyn defnydd o'r Fasgeg gartref fel 'eu iaith nhw.' Nhw hefyd all fod yn cyflwyno'r Fasgeg i deuluoedd sy'n siarad Sbaeneg fel arall (Kasares 2014; Garcia-Ruiz 2025). Yn aml nhw fu'r ysgogwyr i rieni neu ofalwyr ddechrau dysgu'r Fasgeg (Amorrortu et al. 2009). Mae'r 'trosglwyddo tuag i fyny' hwn, lle gall ymddygiadau plant gymell rhieni neu ofalwyr i (ail)ymgysylltu â'r iaith, yn arbennig o bwysig. Mae cydnabod asiantaeth plant yn hanfodol. Mae rhieni a gofalwyr sy'n cydnabod hyn yn fwy tebygol o gynnwys eu plant mewn ffyrdd sy'n eu helpu i addasu'n fwy hyblyg, gan wneud defnydd iaith yn broses a rennir, sy'n esblygu, yn hytrach nag ymdrech anhyblyg, o'r top i lawr. Nodwn fod angen trosglwyddo gwybodaeth i rieni, gofalwyr ac aelodau'r teulu ehangach er mwyn gallu dehongli defnydd iaith eu plant ac i gynnwys eu plant mewn 'polisi iaith teulu.' Fodd bynnag, er bod gan blant asiantaeth, mae anghydbwysedd pŵer rhyngddynt a'u rhieni neu eu gofalwyr.

3.8.4 Plant yn cymdeithasoli plant mewn cydberthnasau rhwng brodyr a chwiorydd a chyfoedion

Mae defnydd iaith brodyr a chwiorydd yn agwedd sy'n aml yn cael ei hanwybyddu wrth drafod polisi iaith teulu. Er bod rhieni a gofalwyr yn siapio amgylchedd iaith cartref yn y lle cyntaf, mae asiantaeth plant a dynameg cyfoedion yn dylanwadu'n gryf ar sut mae brodyr a chwiorydd yn defnyddio iaith gyda'i gilydd. Mewn teuluoedd lle mae'r 2 riant neu'r 2 ofalwr yn defnyddio'r Fasgeg yn gyson, er enghraifft, mae brodyr a chwiorydd yn fwy tebygol o siarad Basgeg â'i gilydd (Kasares 2015). Mae rhai rhieni a gofalwyr hyd yn oed yn gosod rheolau penodol i annog hyn (Garcia-Ruiz 2025). Fodd bynnag, mewn cyd-destunau lle mae'r iaith fwyafrifol yn fwy cyffredin yn gymdeithasol, mae brodyr a chwiorydd hyn weithiau'n symud tuag at yr iaith honno, yn enwedig os caiff ei defnyddio rhwng rhieni a gofalwyr neu ymhlith cyfoedion (Kasares 2015).

Mae i hyn oblygiadau clir i bolisi defnyddio'r Gymraeg. Hyd yn oed pan fydd rhieni a gofalwyr wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg, gall plant ddefnyddio'r Saesneg (neu iaith arall) yn ddiofyn gyda brodyr a chwiorydd os yw'n teimlo'n fwy 'normal' yn eu byd cymdeithasol (gweler hefyd Hodges (2024) ynghylch cymhlethdod dynameg iaith brodyr a chwiorydd). Mae'r ffenomen hon yn arwyddocaol nid yn unig yng nghyd-destun y Gymraeg ond yn ehangach hefyd ar gyfer polisi a chynllunio iaith leiafrifedig. Mae tystiolaeth yn dangos yn gyson bod ymddygiadau'n fwy tebygol o gael eu mabwysiadu pan gânt eu hystyried yn arferol ac yn reddfodol. Pan fydd ymddygiad yn teimlo'n newydd neu'n anghyfarwydd, mae'n llai tebygol y caiff ei fabwysiadu. Mae'r mewnwelediad hwn yn defnyddio damcaniaeth normau cymdeithasol ac yn ymestyn i faes normau personol, gan awgrymu, er mwyn iddo

lwyddo, fod yn rhaid i bolisi iaith fynd i'r afael â chanfyddiadau torfol ac unigol o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn arferol neu'n ddisgwyliedig mewn bywyd beunyddiol.

Mae tystiolaeth o gyd-destun y Fasgeg hefyd yn dangos bod plant yn gymdeithasolwyr ieithyddol hynod effeithiol ar gyfer plant eraill. Mae parhad ieithoedd fel y Fasgeg neu'r Gymraeg dros y cenedlaethau yn gofyn am gryfhau defnydd mewn cydberthnasau plant, yn enwedig ym maes hamdden allgyrsiol, drwy gyfoethogi profiad ieithyddol plant yn ansoddol gydag emosiynau cadarnhaol a phrofiadau cymdeithasol cadarnhaol sy'n gysylltiedig â'r iaith (Kasares 2017).

3.8.5 Cryfhau asiantaeth plant o blaid yr iaith leiafrifedig

Mae 2 ddimensiwn sydd wedi profi'n effeithiol yng nghyd-destun y Fasgeg sef cryfhau'r ymlyniad emosiynol a chymdeithasol yn ogystal â datblygu ymwybyddiaeth sosioieithyddol weithredol ymhlith plant a phobl ifanc.

3.8.5.1 Cryfhau'r ymlyniad emosiynol a chymdeithasol

Profwyd bod cryfhau'r ymlyniad emosiynol a chymdeithasol i'r iaith yn ddull effeithiol, ond mae angen i blant a phobl ifanc deimlo'n gryf ac wedi'u grymuso, a dyna lle mae'r grŵp cyfoedion yn hanfodol.

3.8.5.2 Datblygu ymwybyddiaeth sosioieithyddol weithredol ymhlith plant a phobl ifanc

Mae gwaith cymdeithasau Basgeg â phlant a phobl ifanc megis [EBETÉ](#), [EMUN](#), [UHARRI](#), [UEMA](#), neu '[Raglen Breswyl Trochi Iaith Basgeg](#)' Llywodraeth Gwlad y Basg ar gyfer myfyrwyr Cynradd ac Uwchradd, yn ogystal ag ymchwil ar bobl ifanc (Ortega, Amorrortu ac Goirigolzarri, 2016; Ortega, Goirigolzarri ac Amorrortu, 2022; Goirigolzarri-Garaizar, Ortega ac Amorrortu, 2025) yn dangos bod sicrhau bod pobl ifanc yn cnoi cil yn feirniadol ar ymwybyddiaeth sosioieithyddol yn ddull effeithiol. Yn sgil tystiolaeth gynyddol nad yw siaradwyr Basgeg ifanc wedi cael llawer o gyfle i gnoi cil a thrafod sut maent yn teimlo fel siaradwyr iaith leiafrifedig a thystiolaeth nad ydynt wir yn deall dynameg grym rhwng ieithoedd, mae Swyddfa Addysg Llywodraeth Cymuned Ymreolus Gwlad y Basg wrthi'n dylunio rhaglen i gynnwys agweddau sosioieithyddol yn y cwricwlwm, o addysg Fabanod i addysg Uwchradd. Mae cymdeithas ysgolion cyfrwng Basgeg [Ikastolen Elkartea](#) wedi bod yn defnyddio'r math hwn o gynnwys sosioieithyddol ers sawl blwyddyn bellach gyda chanlyniadau da.

Rydym wedi gweld bod asiantaeth rhieni a gofalcwyr ynghyd â gweithgareddau i helpu pobl ifanc i ddeall materion iaith yn feirniadol ac adeiladu cysylltiadau emosiynol a chymdeithasol cryf â'r iaith leiafrifedig yn ddulliau effeithiol o'u hannog i ddefnyddio'r iaith a'i chefnogi'n ymarferol. Trown yn awr at rôl y gymuned ehangach o ran cymdeithasoli iaith.

3.8.6 Y tu hwnt i'r teulu a'r ysgol, y gymuned fel asiant cymdeithasoli

Mae natur holistaidd y broses cymdeithasoli iaith yn cwmpasu ecosystem gyfathrebol gyfan plant, yn y fath fodd fel ei bod yn galluogi plant, y rhai sy'n dod o deuluoedd lle mae'r iaith yn cael ei siarad a'r rhai sy'n dod o deuluoedd lle nad yw'n cael ei siarad, i ddod yn aelodau llawn o gymuned y siaradwyr. Yn ogystal â'r teulu, mae cyfoedion plant, oedolion eraill y mae plant yn rhyngweithio ac yn cyfathrebu â nhw, yr ysgol, y gweithgareddau, a'r arferion cyfathrebu y mae plant yn cymryd rhan ynddynt (hamdden, chwaraeon, ac yn y blaen), a 'mewnbynnau' eraill (megis sgriniau a bydoedd digidol) hefyd yn chwarae rôl. Mae'r broses ddynamig, amlgyfeiriadol ac amlasiantaethol hon gyfystyr â throsglwyddiad 'cymdeithasol' neu drosglwyddo 'cymunedol.' Mae trosglwyddo llwyddiannus yn ddibynol ar ddefnydd cymdeithasol, ac felly dylid cyfeirio ymyriad sosioieithyddol er mwyn cyfrannu at ddefnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r iaith.

Rydym eisoes wedi trafod 'trosglwyddo cymunedol' yn yr adrannau blaenorol, ond mae cryfder y cysyniad hwn yn gofyn am archwiliad pellach er mwyn adnabod asiantau cymdeithasoli eraill.

3.8.6.1 'Y person yn y stryd' fel asiant mewn rhyngweithiadau bob dydd

Pan fydd siaradwyr iaith leiafrifedig yn ymgymryd â siarad â phlant a phobl ifanc yn y Fasgeg yn ddiofyn (yr enw sy'n cael ei roi ar y strategaeth hon yw 'Y gair cyntaf, yn y Fasgeg'), maent yn cyfrannu at gymdeithasoli ieithyddol y plant hynny. Yng nghydestun y Fasgeg, mae'r norm cymdeithasol 'I blant, Basgeg yn unig', wedi'i wreiddio ar lefel y gymuned, ac mae i'w weld mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is, hyd yn oed ymhlith oedolion sydd â llai o afael ar y Fasgeg (Kasares, Ortega ac Amorrortu, 2022). Mewn ardaloedd dwysedd uwch, mae'r gymuned yn magu siaradwyr ifanc newydd yn y Fasgeg (Ortega et al. 2016a). Er mwyn i hyn ddigwydd mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ar lefel y gymdeithas, boed hynny dan arweiniad mentrau lleol neu ymgyrchoedd llywodraethol, i ba raddau mae siaradwyr yn teimlo fod siarad yr iaith leiafrifedig gyda phlant a phobl ifanc yn ddiwahân yn beth dichonadwy i'w wneud, neu a oes ffactorau eraill sy'n peri nad ydynt yn teimlo hynny. Noder fod mwyafrif helaeth plant a phobl ifanc yng Nghymuned Ymreolus Gwlad y Basg wedi eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Basgeg neu mewn ysgolion cyfrwng dwyieithog, felly gall oedolion ddisgwyl fod pob plentyn neu oedolyn ifanc yn gallu siarad Basgeg.

3.8.6.2 Ffuriau newydd o asiantaeth ac adolygu normau cymdeithasol ar ddefnyddio'r iaith leiafrifedig

Er mwyn cynyddu'r defnydd bob dydd o'r Gymraeg a'r Fasgeg, mae'n hanfodol mynd i'r afael â normau cymdeithasol (a'u hail-lunio) ynghylch pwy sy'n siarad yr ieithoedd hyn, ym mha gyd-destunau, a sut. Dylai polisi iaith feithrin amgylchedd cynhwysol lle mae unigolion o bob cefndir ieithyddol a hyfedredd ieithyddol yn teimlo y gallant

ddefnyddio eu Cymraeg neu eu Basgeg heb rwstr na chywilydd. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd â gallu cyfyngedig, neu siaradwyr tafodieithoedd neu amrywiadau penodol. Yn ogystal, dylai polisi gydnabod a chefnogi rhyngweithio dwyieithog neu sgwrsio mewn dwy iaith, gan gadarnhau dilysrwydd siaradwyr goddefol, y rhai sy'n deall yr iaith ond nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn teimlo y gallant siarad neu 'gynhyrchu' Basgeg neu Gymraeg.

Yn hyn o beth, mae Llywodraeth Gwlad y Basg wedi lansio ymgyrch berthnasol. Mae ['Pixka bat es mucho'](#) (a fyddai'n cyfateb yng Nghymru i '...Tipyn bach is a lot.'), yn deitl sy'n cymysgu'r Fasgeg a'r Sbaeneg, gyda'r nod o annog y rhai sydd ag ychydig o iaith i ddefnyddio hynny o Fasgeg sydd ganddynt. Yng Ngwlad y Basg mae hyn, ac ymyriadau eraill, wedi agor dadl a galluogi cnoi cil (gyda chanlyniadau gobeithiol), ond dylid cofio fod newid agweddau at iaith a rhagdybiaethau am iaith yn broses hirdymor.

3.8.6.3 *Hamdden*

Mae hamdden yn chwarae rôl hanfodol wrth gymdeithasoli iaith plant. Oherwydd hyn, mae'n cynnig cyfle arbennig i feithrin defnydd iaith mewn gweithgareddau hamdden ac allgyrsiol. Y cam cyntaf yw ymgysylltu ag asiantau cymdeithasol (er enghraifft cymdeithasau diwylliannol, clybiau chwaraeon) fel partneriaid cymdeithasoli iaith.

Mae'n bwysig darparu hyfforddiant mewn newid ymddygiad iaith neu gymdeithasoli i arweinwyr a hyfforddwyr gweithgaredd hamdden yn ogystal ag i hyfforddwyr chwaraeon, er mwyn cynyddu defnydd cymunedol o'r iaith. Gallant ddod yn fodelau rôl ieithyddol a datblygu strategaethau i feithrin defnydd iaith.

Mae'r prosiect ['Eusfera'](#) yn ceisio cryfhau presenoldeb y Fasgeg ym mywydau beunyddiol plant drwy ei hintegreiddio ar draws holl weithgareddau plant. Mae'n cael ei hyrwyddo gan [Taupa](#), ffederasiwn o sefydliadau cymdeithasol sy'n cefnogi'r Fasgeg, mewn cydweithrediad â sefydliadau cyhoeddus.

3.8.6.4 *Ymgyrchoedd cyhoeddus a mentrau cymdeithasol*

Mae unrhyw fenter lle gall plant a phobl ifanc ymuno fel rhan o fudiad cymdeithasol yn meithrin agweddau positif ac ymdeimlad o berthyn i'r gymuned. Yng nghydestun y Fasgeg, mae [Euskaraldia](#), sef 11 diwrnod yn y Fasgeg a [Korrika](#), yn weithgareddau cenedlaethol graddfa fawr lle bydd miloedd ar filoedd o bobl yn cymryd rhan drwy ymrwymo i ddefnyddio Basgeg (Euskaraldia) neu drwy redeg a mynychu digwyddiadau cerddorol ar draws Gwlad y Basg (Korrika) ar yr un pryd yn enghreifftiau da o fentrau hynod lwyddiannus.

3.9 Gweithredu ar raddfa eang

Mae dysgu o brofiadau cyd-destunau iaith leiafrifedig, megis Gwlad y Basg, a rhoi hyn ar waith ar raddfa eang yng Nghymru yn gofyn am ddulliau amlochrog, integredig a systemig o adfywio iaith yn ogystal â buddsoddiad priodol. Er mwyn i'r

Gymraeg gyrraedd pob cymuned, mae hyn yn golygu bod angen i weinyddiaeth gyhoeddus, addysg, teuluoedd, y cyfryngau a'r gymdeithas sifig gydweithio tuag at weledigaeth gyffredin ar gyfer y Gymraeg.

Un o'r goblygiadau i bolisi'r Gymraeg yw pwysigrwydd cydnabod a chefnogi asiantaeth rhieni a gofalwyr (a'r gymuned) fel grym o'r gwaelod i fyny wrth drosglwyddo iaith. Rhaid i'r gefnogaeth mae rhieni a gofalwyr yn ei chael ategu amcanion addysg ffurfiol i greu a datblygu amgylcheddau Cymraeg yn eu cartrefi a'u cymunedau. Mae hyn yn cynnwys:

- cefnogi rhwydweithiau anffurfiol rhwng cyfoedion
- hwyluso gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg
- cefnogi rhieni a gofalwyr a darparu adnoddau iddynt sy'n eu galluogi i weithredu fel cynllunwyr a chefnogwyr iaith waeth beth yw eu gallu ieithyddol yn y Gymraeg eu hunain

Rhaid i'r Gymraeg fod yn berthnasol ac yn hygyrch i genedlaethau iau a rhaid iddi greu cysylltiad emosiynol â hwy. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid darparu cynnwys addas yn y Gymraeg yn eang (ymysg llawer o ddatblygiadau eraill). Mae hyn yn cynnwys adloniant digidol, cyfryngau cymdeithasol, gemau, a rhaglenni diwylliannol sy'n cyd-fynd â diddordebau a hobiau plant a phobl ifanc (Garcia-Ruiz 2025; Joly 2025). Ceir trafodaeth bellach ar hyn ym mhennod 4, ('Cymdeithasoli'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol: diwylliant, hamdden a phobl ifanc'). Mae gwneud y Gymraeg yn weladwy ac yn hygyrch yn y meysydd hyn yn hanfodol er mwyn ymgorffori'r iaith mewn bywyd beunyddiol.

Mae hyn yn pwysleisio ymhellach y pwyntiau a wnaed eisoes ynghylch perthnasedd 'gofodau cymdeithasoli' anffurfiol a 'gofodau anadlu' (gweler adrannau 1.12, 1.12.1, 1.10), rhai wyneb yn wyneb a digidol. Mae'r gofodau hyn yn darparu cyfleoedd i drosglwyddo'r Gymraeg rhwng cyfoedion a'r gymuned, ac yn helpu i normaleiddio ei defnydd y tu allan i leoliadau addysgol. Mae hefyd yn meithrin hunaniaethau ieithyddol positif ar draws cenedlaethau (Nandi, Kasares a Manterola, 2024; Saraguet a Leonet, 2025).

Yn olaf, mae llwyddiant dull systemig o'r fath yn dibynnu ar ymchwil gyson a monitro cyfranogol. Mae integreiddio dulliau ymchwil cyfranogol ym mhrosesau cynllunio polisi'r Gymraeg yn caniatáu strategaethau y mae modd eu haddasu ac a all ymateb i realiti sosioieithyddol sy'n esblygu. Mae hefyd yn grymuso unigolion a chymunedau fel asiantau newid ieithyddol, gan helpu i bontio'r bwlch parhaus rhwng gallu yn yr iaith a'i defnyddio bob dydd (Ortega, Goirigolzarri ac Amorrortu, 2022).

3.10 Crynodeb: trosglwyddo a chymdeithasoli iaith

3.10.1 Trosglwyddo rhwng y cenedlaethau yn y teulu

Mae'r teulu'n dal i fod yn safle hanfodol ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag mae cyfraddau trosglwyddo yn amrywio yn ôl strwythur y cartref, rhuglder

rhieni a gofalwyr, a dwysedd lleol siaradwyr Cymraeg. Mae angen ymyriadau eraill i gefnogi pob teulu ar draws Cymru. Mae'r modelau CAM-Y a HAPUS yn darparu model cysyniadol o'r gwyddorau ymddygiadol ar gyfer y rhain (ac ar gyfer gweithgareddau cynllunio iaith eraill).

3.10.2 Rôl addysg a'r gymuned

Mae ysgolion, rhieni a gofalwyr, cyfoedion, rhwydweithiau a mentrau cymunedol yn hanfodol wrth gefnogi caffael iaith, yn enwedig lle nad oes llawer o drosglwyddo rhwng y cenedlaethau yn y teulu. Maent yn cefnogi'r teuluoedd sydd yn trosglwyddo yn ogystal.

3.10.3 Mewnwelediadau ymddygiadol

Mae hyder a chyfleoedd yn themâu canolog. Dylai ymyriadau ganolbwyntio ar alluogi camau bach, cadarnhaol drwy ddefnyddio modelau CAM-Y a HAPUS i greu 'profiadau meistrolï' a fydd, yn eu tro, yn arwain at gynyddu hyder.

3.10.4 Esblygiad polisi

Rhaid i bolisi:

- gydnabod strwythurau teulu amrywiol
- rymuso plant fel asiantau gweithredol
- gefnogi rhieni a gofalwyr o bob proffil ieithyddol
- fanteisio ar botensial ysgolion fel hybiau ar gyfer cymdeithasoli y tu hwnt i'w gatiau

3.10.5 Safbwyntiau rhyngwladol

Mae gwersi o'r gwaith i adfywio'r Fasgeg yn amlygu pwysigrwydd dulliau holistaidd, cymunedol a'r angen i symud tuag at baradeim cymdeithasoli.

4 Cymdeithasoli'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol: diwylliant, hamdden a phobl ifanc

Mae diwylliant, ym mhob ffurf, yn chwarae rôl bwysig wrth ddatblygu a defnyddio sgiliau yn y Gymraeg. Trwy ddarparu cyfleoedd amrywiol mewn ffyrdd sy'n berthnasol i fywyd bob dydd, mae diwylliant yn meithrin cysylltiad cymdeithasol cryf rhwng pobl a'r Gymraeg. Mewn ardaloedd dwysedd canolig ac is, fel mewn ardaloedd dwysedd uwch, mae grwpiau cymunedol, hamdden a chwaraeon yn hanfodol wrth gynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gofod anffurfiol.

Mae cymdeithasoli ieithyddol yn digwydd mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol y tu allan i'r teulu, megis mewn ysgolion, gweithleoedd a gofodau cymdeithasol. Mae cyfleoedd diwylliannol, megis chwaraeon cymunedol, gigs lleol, neu weithgareddau ieuencid, yn cynnig gofodau lle gall plant a phobl ifanc ddefnyddio'r iaith yn awtomatig. Mae hyn yn gallu pontio'r bwlch rhwng defnydd yn yr ysgol neu mewn gwersi a defnydd cymunedol a chymdeithasol. Mae'r cyfnod yn yr arddegau ac fel oedolyn ifanc yn gyfnod pwysig iawn wrth ffurfio hunaniaeth a sefydlu arferion ieithyddol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae diwylliant yn y cyd-destun hwn yn golygu mwy na gweithgarwch diwylliannol Cymraeg penodol. Er bod mentrau a digwyddiadau Cymraeg yn bwysig, nid ydynt ar eu pen eu hunain yn ddigonol i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg. Er mwyn i'r Gymraeg fod yn rhan fyw o fywyd beunyddiol, mae angen sicrhau lle priodol iddi ymhob agwedd ar ddiwylliant Cymru—mewn digwyddiadau, llwyfannau a gofodau diwylliannol ehangach—yn hytrach na disgwyl i unigolion symud tuag at weithgarwch Cymraeg penodol er mwyn defnyddio'r iaith.

Mae a wnelo'r hyn rydym yn ei nodi isod â gwau'r Gymraeg drwy wead cymunedau mewn ffordd gydweithredol, gan weithio gyda chymunedau, mentrau a sefydliadau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio ac yn cael ei chlywed mewn gofodau sy'n berthnasol ac ystyrlon iddynt.

Bydd yr adrannau nesaf yn archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a'r Gymraeg, gan ystyried sut y gall y ddau atgyfnerthu ei gilydd, a sut y gall y gydberthynas hon greu cyfleoedd i greu, cynnal a datblygu gofodau Cymraeg. Er bod y bennod hon yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn bennaf, mae'r egwyddorion sy'n cael eu trafod yma—sef creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gofodau diwylliannol, hamddenol a chymdeithasol—yn berthnasol i bobl o bob oed.

4.1 Chwaraeon

Mae chwaraeon o bob math yn cyrraedd cynulleidfaoedd eang o bobl a phlant sy'n cymryd rhan drwy chwarae'r gamp, hyfforddi, cefnogi clybiau a chwaraewyr, ac wrth gwrs gwylio chwaraeon. Mae chwaraeon yn digwydd ar lawr gwlad ac ar y lefel ryngwladol. Mae hefyd yn weithgaredd sy'n cael ei gyfathrebu ar bob math o lwyfannau a chyfryngau. Ymhlith y rhain mae:

- cynnwys gan unigolion ar y cyfryngau cymdeithasol
- cyhoeddiadau print ac ar-lein
- sylwebaeth a dadansoddi
- cytundebau darlledu ar y lefel uchaf

Mae chwaraeon yn ganolog i fywyd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ein cymdeithas gyfoes.

Dros y 15 mlynedd diwethaf, gwelwyd amlygrwydd newydd i'r Gymraeg, yn enwedig drwy waith Cymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW). Mae hyn wedi cynnwys:

- ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata
- cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol
- presenoldeb amlwg ar ddiwrnodau gemau, ac wrth i'r timau cenedlaethol lwyddo ar y llwyfan rhyngwladol
- cynadleddau i'r wasg yn Gymraeg yn y cystadlaethau mwyaf

Mae hyn oll wedi gosod esiampol o sut y gall sefydliad cenedlaethol integreiddio'r Gymraeg mewn ffordd mor greiddiol a dylanwadol, gan gyfrannu at fod y Gymraeg yn cyrraedd gwahanol gyd-destunau a chymunedau.

Cyfrannodd aelodau'r Comisiwn at [Symposiwm Sgôr: pêl-droed a ieithoedd lleiafrifedig](#), gan ganolbwyntio'n bennaf ar y Gymraeg, Basgeg, Catalaneg, Ffrisieg, Gaeleg yr Alban a'r Llydaweg. Cafwyd cyflwyniadau a thrafodaethau oedd yn amlygu'r berthynas rhwng iaith a phêl-droed gan gynnwys:

- pêl-droed cenedlaethol
- lefelau clybiau a phêl-droed cymunedol
- defnydd iaith gan gefnogwyr a chan glybiau a chymdeithasau
- rhaglenni mentora a hyfforddi
- defnydd iaith ar y cyfryngau cymdeithasol
- rhaglenni cymunedol i ysgogi defnydd iaith
- profiadau pobl o wahanol gefndiroedd yn y byd pêl-droed

Ymysg y negeseuon a ddaeth i'r amlwg oedd fod pêl-droed yn cynnig llawer iawn o ofodau erbyn hyn lle mae ieithoedd lleiafrifedig—gan gynnwys y Gymraeg— yn bresennol ac yn cael eu defnyddio. Cyfeiriwyd at y potensial pellach ar y lefel gymunedol.

Ar y lefel ryngwladol, adroddwyd am brofiadau lle roedd unigolion wedi gallu ailgysylltu gyda'r Gymraeg drwy ddilyn pêl-droed Cymru wrth i'r iaith ennill mwy o fri a phresenoldeb ar y lefel honno a chyfarfod cefnogwyr eraill sy'n defnyddio'r iaith yn gymdeithasol.

Yn ystod digwyddiadau rhyngwladol, megis gemau'r tîm cenedlaethol, mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed a'i gweld ar llwyfan byd-eang ac mae hyn yn meithrin ymdeimlad o falchder ieithyddol, gan gynnwys ymhlith pobl ifanc. Drwy gynyddu presenoldeb y Gymraeg, ei gweld a'i chlywed yn y stadiwm, mae'r effaith yn parhau

wedi i'r gêm ddod i ben, wrth i drafodaethau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau darlledu ailgyflwyno'r profiad ar wahanol lwyfannau. Mae'r Comisiwn o'r farn y gellid estyn y profiad ieithyddol cadarnhaol hwn i gampau eraill ym myd chwaraeon. Mae'n galonogol fod hyn ar waith gan rai cyrff chwaraeon eisoes.

Yn y modd hwn, gall y Gymraeg ddod yn rhan o hunaniaeth gymunedol a chenedlaethol, wedi'i gwreiddio mewn profiadau cyffredin a chydabyddiaeth gyhoeddus. Mae cynyddu gwelededd y Gymraeg yn creu gwell amgylchiadau, ac yn ehangu'r cyfle i bobl ddod ar draws yr iaith a'i defnyddio mewn cyd-destunau cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae meithrin balchder ac ymdeimlad o berthyn yn cryfhau'r cymhelliant, gan wneud pobl yn fwy parod i ymgysylltu â'r Gymraeg. Drwy normaleiddio'r iaith fel rhan o hunaniaeth gymunedol a chenedlaethol, mae'r amodau'n cael eu creu lle gall defnydd o'r Gymraeg ddatblygu'n ymddygiad arferol, yn hytrach na dewis ymwybodol neu eithriadol. Wrth gwrs, y gamp o hyn allan yw sicrhau bod y Gymraeg yn datblygu'n iaith y cae chwarae, gan greu gofod cymunedol pellach i bobl ledled Cymru ei defnyddio'n rheolaidd. Mae chwaraeon cymunedol yn gallu rhychwantu ffiniau cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol. Clywsom dystiolaeth yn awgrymu mai'r cae chwarae yw'r man lle mae llawer o bobl, yn enwedig pobl ifanc, yn treulio cryn dipyn o amser yn wythnosol, ac mae felly'n cynnig cyfle realistig a pherthnasol i ymgysylltu â nhw trwy'r Gymraeg.

4.1.1 Chwaraeon cymunedol

Clywsom am lwyddiannau lleol mewn gwahanol ardaloedd dwysedd canolig ac is yng Nghymru lle mae chwaraeon cymunedol yn cynnig cyfleoedd i gannoedd o blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymarfer eu camp.

Dywedodd unigolyn o dde Cymru:

Y cae chwarae yw'r capel newydd

Yn ôl Arolwg Tracio Gweithgareddau Cymru (Chwaraeon Cymru 2024b), mae tua 16% o oedolion yng Nghymru yn cymryd rhan fel aelodau mewn clybiau chwaraeon. Mae'r cyfranogiad hwn yn tueddu i fod yn uwch ymhlith dynion, pobl ifanc, a'r rhai sy'n dod o gefndiroedd sosioeconomaidd mwy breintiedig. Yn ogystal, yn ôl Arolwg Blyneddol Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru 2024a), mae tua 40% o blant yn cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon 3 gwaith yr wythnos. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn is mewn ardaloedd difreintiedig, lle mai dim ond 32% o blant sy'n gwneud hynny. Ond mae cyfran uwch o blant sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan, gyda 46% ohonynt yn ymwneud â chlybiau chwaraeon dair gwaith yr wythnos.

Clywsom bryderon mai ymylol yn aml yw'r Gymraeg wrth sefydlu a rhedeg clybiau chwaraeon cymunedol a bod lle i ehangu defnydd y Gymraeg yn y cyd-destunau

hyn. Mae hyn yn gyffredin mewn cymunedau eraill lle siaredir iaith leiafrifedig. Yng nghyd-destun Gwlad y Basg cyfeiriwn at 2 fenter sy'n ehangu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Fasgeg mewn clybiau chwaraeon a hamdden. Mae prosiect Euskara Kirolkide gan Soziolinguistika Klusterra yn gweithio â chlybiau chwaraeon i greu gofodau lle gall pobl ifanc ddefnyddio'r Fasgeg wrth hamddena. Yn ogystal, mae prosiect BiKKE gan gyngor taleithiol Bizkaia yn atgyfnerthu defnydd cymdeithasol y Fasgeg drwy chwaraeon, gan ddarparu grantiau, hyfforddiant a chydweithio â ffederasiynau chwaraeon. Mae'r rhaglenni hyn yn gweithredu ar y lefelau micro a strategol ac yn hwyluso cynllunio defnydd yr iaith mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb, gwefannau a gweinyddiaeth fewnol y clybiau. Mae hyn yn sicrhau bod y Fasgeg yn rhan annatod o brofiad chwaraeon a bywyd cymunedol i bobl ifanc.

Yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gall chwaraeon cymunedol hefyd fod yn fodd effeithiol o feithrin sgiliau arwain Cymraeg ymhlith pobl ifanc. Drwy gymryd rhan fel capteiniaid, hyfforddwyr ifanc, gwirfoddolwyr neu gydlynwyr gweithgareddau, gall unigolion ddatblygu sgiliau cyfathrebu, trefnu a gweithio mewn tîm, i gyd drwy'r Gymraeg. Mae'r profiadau hyn yn bwysig o ran meithrin arweinyddiaeth ieuencid ac arweinyddiaeth ieithyddol, a helpu i sefydlu'r Gymraeg fel iaith sy'n berthnasol ac ymarferol o fewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Felly, gall chwaraeon cymunedol nid yn unig fod yn fan cyfarfod cymdeithasol, ond hefyd yn ofod lle gall y Gymraeg gael ei defnyddio, ei normaleiddio a'i chysylltu'n uniongyrchol â phrofiadau emosiynol cadarnhaol ac adeiladol. Dylid ystyried chwaraeon cymunedol yn gyfrwng strategol pwysig ar gyfer hyrwyddo'r iaith a meithrin arweinwyr Cymraeg newydd o fewn cymunedau lleol.

Dylid datblygu amcanion strategol ar y lefel genedlaethol drwy Chwaraeon Cymru ynghyd â dull cynllunio ieithyddol ar lefel ficro ar gyfer chwaraeon cymunedol, â ffocws penodol ar sicrhau presenoldeb y Gymraeg ar lawr gwlad ac mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd.

4.2 Cynllunio ieithyddol ym maes diwylliant

Roedd adroddiad cam cyntaf y Comisiwn yn tanlinellu'r angen am gynllunio ieithyddol cymunedol sy'n strategol ac wedi'i dargedu'n glir. Mae'n bwysig bod mecanwaith addas ynghyd â chyllid priodol ar gyfer cynllunio ieithyddol ar lefel leol. Yn y cyd-destun hwn, mae mecanwaith yn cyfeirio at system neu strwythur cydweithredol lle mae nifer o fudiadau, cymdeithasau, busnesau a sefydliadau neu lywodraethau ar wahanol lefelau'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn cynllunio a gweithredu polisiâu ieithyddol ar y lefel leol. Gall hyn alluogi mwy ohonom i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein bywydau pob dydd mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol drwy gyfrwng yr iaith. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, byddai datblygu'r mecanwaith hyn ymhellach yn galluogi awdurdodau lleol a partneriaid eraill i gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn creu a chynnal gofodau lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio'n awtomatig.

4.3 Creu gofodau digidol

Rydym o'r farn y gall y sector cyfryngau newydd a diwylliannol, sef y cyfryngau hynny nad ydynt yn bapur newydd, radio na theledu traddodiadol, chwarae rôl hanfodol wrth gynnal a datblygu'r Gymraeg yn gyffredinol, ac yn benodol ymhlith pobl ifanc. Mae pobl ifanc yn treulio llawer o'u hamser ar-lein. Dangosodd adroddiad (Ofcom 2025) fod oedolion ifanc yn treulio'r cyfnodau hiraf ar-lein ar ddyfeisiau megis ffonau clyfar, tabledi a chyfrifiaduron. Dangosodd hefyd fod pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn treulio cyfartaledd o 6 awr ac 1 munud ar-lein y dydd. Gallai'r amser hwn fod yn gyfle i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r amgylchedd addysgol, ond Saesneg ar y cyfan sydd yn cael ei defnyddio yn ystod yr amser hwn.

Mae'n bwysig, felly, bod unrhyw strategaeth ar gyfer ehangu defnydd o'r Gymraeg yn adlewyrchu sut a ble mae pobl ifanc yn treulio eu hamser. Ar hyn o bryd, mae prinder data manwl am yr agweddau ieithyddol o batrymau amser hamdden yng Nghymru. Mewn cyd-destun lle mae canrannau o bobl ifanc yn treulio amser mewn gweithgareddau fel gemau cyfrifiadurol, mae angen i bolisïau ieithyddol a pholisïau cyfryngol neu gyfathrebu ystyried y gofodau digidol hyn fel cyfleoedd go iawn ar gyfer y Gymraeg.

Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud o fewn y maes e-chwaraeon gydag Esports Cymru yn gorff cenedlaethol sy'n arwain datblygiad chwaraeon electronig yng Nghymru. Mae potensial i ddefnyddio Esports fel cyfrwng i gryfhau'r Gymraeg, i ddatblygu cynnwys Cymraeg i annog defnyddio'r iaith mewn amgylcheddau newydd.

Clywsom am fentrau eraill sy'n dangos sut y mae modd adeiladu momentwm cymunedol drwy raglen cynhyrchu cynnwys digidol gan bobl ifanc fel rhan o baratoi ar gyfer croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae gweithgareddau digidol a lleol fel hyn yn galluogi pobl ifanc i:

- feithrin sgiliau cynhyrchu cynnwys, gan gynnwys cynnwys digidol sy'n defnyddio'r Gymraeg ar gyfer y gwahanol blatfformau digidol i eraill fedru ei wyllo
- datblygu cysylltiadau lleol a phroffesiynol
- defnyddio'r Gymraeg o bosibl mewn cyd-destun newydd
- magu hyder yn gyffredinol ac yn ieithyddol

Mae'r sgiliau a'r gallu yn bodoli mewn sawl rhan o Gymru i gynnal rhaglenni cynhyrchu cynnwys digidol Cymraeg, gyda llawer wedi'u hanelu at bobl ifanc. Fodd bynnag, mae diffyg adnoddau yn rhwystr rhag gwireddu'r potensial hwn yn llawn. Gall buddsoddi mewn rhaglenni o'r fath nid yn unig gynnig profiad a chyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, ond hefyd bydd eu cynnyrch digidol yn cryfhau gwelededd yr iaith ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol, lle mae prinder cynnwys Cymraeg.

4.3.1 Dylanwadwyr digidol

Mewn cyd-destun lle mae cyfryngau digidol a phlatfformau cymdeithasol yn rhan gynyddol o'n bywydau o ddydd i ddydd, mae'r rôl sydd gan ddylanwadwyr yn bwysig iawn.

4.3.1.1 Enghreifftiau o elwa ar waith dylanwadwyr cynnwys

Mae Llywodraeth Catalwnia wedi ceisio normaleiddio a phoblogeiddio'r Gatalaneg ymhlith pobl ifanc drwy greu rhaglen i gefnogi dylanwadwyr sy'n cynhyrchu cynnwys drwy gyfrwng yr iaith. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys elfennau datblygu busnes yn ogystal ag elfennau defnyddio'r Gatalaneg. Mae'r cynnwys hwn yn denu niferoedd 'gwylio' tebyg i niferoedd ar gyfer teledu cenedlaethol, sy'n dangos potensial eu cyrhaeddiad gyda'r genhedlaeth ifanc yn enwedig. Arweinir strategaeth Llywodraeth Catalwnia gan Swyddfa'r Gweinidog dros Bolisi Iaith ac mae'n cynnwys camau i feithrin ecosystem ddigidol. Mae'r ecosystem yn cynnwys:

- proffesiynoli cynnwys
- casglu data ar ddilynwyr
- cydweithio â'r teledu cenedlaethol i ddatblygu sianel ddigidol gyda dylanwadwyr
- sefydlu gwobrau statws
- cynnig grantiau i ddylanwadwyr

Yn y gymdeithas sifil a'r gymuned ymchwil, mae prosiectau fel ['llista.cat'](#) sy'n crynhoi cynnwys gan grewyr cynnwys ar-lein mewn Catalaneg er mwyn cynyddu gwelededd a defnydd o'r cynnwys Catalaneg. Mae hefyd yn ffordd o amlygu bylchau yn y math o gynnwys ar-lein mewn Catalaneg ac felly'n ffordd o gynllunio rhaglenni newydd i lenwi'r bylchau hyn. Dylid nodi nad cyfrwng i bobl ifanc yn unig yw'r cyfryngau cymdeithasol gan fod pobl o ystod eang o oedran yn cynhyrchu cynnwys ac yn defnyddio'r cynnwys. Fodd bynnag, i bobl ifanc mae'n brif gyfrwng. Gall y polisi sydd wedi'i gyflwyno yng Nghatalwnia gynnig sylfaen i ddatblygu model addas ar gyfer Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc drwy'r cyfryngau digidol. Nid trafod technoleg yr ydym fan hyn wrth gwrs, ond mae technoleg iaith addas yn gallu helpu i greu cynnwys. Trafodwn dechnoleg a'r Gymraeg yn fanylach yn adran 5.11.

4.4 Rôl y cyfryngau

Mae Adroddiad Blynyddol S4C (2025) yn codi cwestiynau am allu'r cyfryngau traddodiadol i gynnig gofod apelgar, cynhyrchiol ac ymatebol i siaradwyr ifanc. Mewn cyfnod o gyni ariannol a newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau, mae'r cyfryngau Cymraeg traddodiadol yn wynebu pwysau dwys sy'n peryglu eu cynaliadwyedd. Yn ôl Mcelroy a Noonan, (2016), mae'r dirywiad hwn yn peri pryder cynyddol ac yn tanlinellu'r angen am ymyrraeth bwrpasol i warchod a datblygu cyfryngau Cymraeg sy'n berthnasol, hygyrch ac o ansawdd. Er nad yw'r cyfryngau traddodiadol yn llai pwysig, mae'r llwyfannau a'r dulliau wedi newid. Y cyfryngau cymdeithasol, fideos TikTok, podlediadau, a chyfryngau digidol deinamig sydd

bellach â dylanwad ar siapio hunaniaeth a defnydd iaith (Cunliffe 2025). Mae creu a rhannu cynnwys yn Gymraeg yn rhan ganolog o ddefnyddio'r iaith mewn bywyd bob dydd. Mae angen dull gweithredu mwy cynhwysfawr sy'n cefnogi ac yn ysgogi pobl i greu eu cynnwys eu hunain yn Gymraeg.

Rydym wedi clywed am bwysigrwydd datblygiadau fel 'Hansh' sydd yn dangos modelau lle mae diwylliant Cymraeg yn cael ei berchnogi'n greadigol gan bobl ifanc. Mae'r platfform yn rhoi lle i leisiau amrywiol rannu profiadau go iawn drwy fideo, cerddoriaeth a chynnwys digidol sy'n adlewyrchu diwylliant poblogaidd. Trwy ddefnyddio arddull anffurfiol a'r cyfryngau cymdeithasol, mae Hansh yn normaleiddio'r Gymraeg ar-lein. Rydym o'r farn fod gan y dulliau hyn y potensial i sbarduno rhagor o greadigrwydd a chreu mwy o gynnwys Cymraeg. Mae gofodau digidol Cymraeg yn cynnig cyfleoedd pwysig i ddefnyddio'r iaith, ac maent yn arbennig o bwysig lle nad oes digon o gyfleoedd wyneb yn wyneb, ac i bobl sy'n byw y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, er mwyn normaleiddio defnydd y Gymraeg, mae angen cynyddu presenoldeb a chynnwys Cymraeg mewn gofodau digidol cyffredinol, nid dibynnu ar lwyfannau Cymraeg yn unig.

4.5 Agweddau pobl ifanc at y Gymraeg

Mae'r adran hon yn:

- archwilio sut mae pobl ifanc yn ystyried ac yn defnyddio'r Gymraeg.
- yn canolbwyntio ar y ffactorau sy'n siapio agweddau pobl ifanc tuag at yr iaith a'u hymddygiadau ieithyddol mewn cyd-destunau addysgol a chymdeithasol
- cynnwys safbwyntiau pobl ifanc o oed ysgol uwchradd a roddodd dystiolaeth i'r Comisiwn
- cyfeirio at ymchwil ar bobl ifanc mewn ysgolion Cymraeg (Williams 2024)
- cynnig darlun o realiti disgyblion a chyn-ddisgyblion ysgolion uwchradd
- ceisio deall y rhwystrau sy'n wynebu rhai sy'n cael eu profiad o'r Gymraeg drwy'r ysgol, heb iddi fod yn iaith yn y cartref, ac sy'n byw mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is
- trafod normau cymdeithasol, perthnasedd diwylliannol, y gofodau lle mae'r Gymraeg yn cael ei gweld a'i defnyddio, a lle'r iaith mewn bywyd bob dydd

Dylid nodi nad yw'r profiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn o reidrwydd yn gyflawn gynrychioliadol o brofiadau pob math o unigolion na'u cymunedau yn ardaloedd dwysedd canolig ac is. Fodd bynnag, maent yn cynnig cipolwg ar rai o'r themâu, y profiadau a'r heriau wrth geisio cynyddu defnydd dyddiol y Gymraeg, yn unol ag ail darged Strategaeth Cymraeg 2050.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 63% o blant a phobl ifanc Cymru rhwng 3 ac 19 oed sy'n siarad Cymraeg yn byw mewn awdurdodau lleol ble mae canran y siaradwyr Cymraeg o dan y cyfartaledd cenedlaethol (Prosiect BRO, heb ei gyhoeddi). I lawer o blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hyn, mae presenoldeb y Gymraeg gymaint yn gryfach y tu mewn i'r ystafell ddosbarth nac ydyw y tu allan

iddi. Felly mae defnyddio'r iaith mewn cyd-destunau anffurfiol yn aml yn bell o fywyd bob dydd. Wrth ystyried y cyswllt rhwng defnydd cymunedol a dwysedd ieithyddol, yna po isaf yw dwysedd y siaradwyr Cymraeg mewn ardal, lleiaf tebygol yw'r cyfleoedd ar hap i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn anffurfiol yn y gymuned. O ddadansoddi'r sefyllfaoedd hyn drwy fodel newid ymddygiad CAM-Y, mae hyn yn dangos bod yr Amgylchiadau (neu'r cyfleoedd) i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned yn fwy cyfyngedig yn yr ardaloedd hyn.

4.6 Cymraeg fel iaith yr ysgol

Ers yr 1960au, mae syniad cyffredin bod twf cyson yn y niferoedd sydd yn mynychu ysgolion Cymraeg (Hodges 2012). Dengys dadansoddiadau mwy diweddar (Lloyd-Williams, ap Gruffudd a Jones, 2024; Prosiect BRO heb ei gyhoeddi) mai bychan fu'r twf (1.2 pwynt canran) dros y degawd diwethaf (o 2013-14 hyd 2023-24) yn gyffredinol ar draws Cymru, er bod amrywiadau mewn gwahanol awdurdodau lleol.

Mae ymchwil ar gyfrwng addysg a defnydd cymdeithasol o'r iaith Fasgeg yn dangos fod patrymau defnydd yn parhau i fod yn anwastad ac yn dibynnu'n fawr ar ddwysedd cymunedol, er mai addysg cyfrwng Basgeg bellach yw'r model mwyaf poblogaidd o bell ffordd yng Nghymuned Ymreolus Gwlad y Basg (Cenoz 2009). Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd addysg i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i gaffael, dysgu, defnyddio a perchnogi iaith, yn enwedig ymhlith teuluoedd lle nad yw'r iaith yn cael ei defnyddio ar yr aelwyd.

Fodd bynnag, yn rhy aml, mae'r Amgylchiadau neu'r Cyfleoedd i'w defnyddio y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn brin. Clywsom gan bobl ifanc fod eu profiadau o'r Gymraeg yn golygu mai iaith yr ysgol, neu iaith cyd-destun addysg yn unig yw'r Gymraeg. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, mae'n hanfodol creu gofodau lle gellir defnyddio'r iaith yn naturiol y tu allan i'r ysgol, gan gryfhau defnydd, cynyddu mynediad, a sicrhau ei bod yn cael ei gweld fel iaith fyw gyda rôl gymdeithasol amlwg.

Mae rhaglen y Siarter Iaith yn cyfrannu at fynd i'r afael â hyn. Clywsom gan gydlynwyr y Siarter Iaith fod y Siarter yn:

fframwaith cenedlaethol sydd â'r nod o ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau, yn enwedig y tu allan i'r ystafell ddosbarth

Prif amcanion y Siarter (Llywodraeth Cymru 2020b) yw:

- gwneud y Gymraeg yn brofiad hwylus
- cynyddu hyder a chymhelliant i siarad Cymraeg

- meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith

Mae'r Siarter yn gweithredu drwy raglenni a thargedau cenedlaethol, ond gyda hyblygrwydd i addasu'n lleol. Mae'n cynnwys partneriaethau gyda rhan-ddeiliaid ac yn cynnig gweithgareddau megis clybiau ar ôl ysgol, systemau gwobrwyo, a chydweithio rhwng ysgolion Cymraeg ac ysgolion Saesneg. Trwy hyn, mae'r Siarter yn anelu at sicrhau bod y Gymraeg yn cyfrannu at greu dinasyddion dwyieithog hyderus ar gyfer y dyfodol.

4.7 Agweddau a defnydd

4.7.1 Pwysau gan gyfoedion

Clywsom am y pwysau mae rhai pobl ifanc yn eu teimlo i beidio â defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

Gall profiadau fel hyn greu teimladau o ansicrwydd a dieithrwch ymysg pobl ifanc, gan fod eu gallu i siarad Cymraeg yn eu gosod ar wahân i'w cyfoedion, ar adeg mewn bywyd lle mae perthyn i grŵp cymdeithasol yn bwysig. Mae tystiolaeth gan Williams (2024) yn trafod hyn ymhellach:

Generally, when individuals, especially young people, feel different to those in their social environment, they suppress the behaviour that makes them feel different, i.e., they become less likely to speak Welsh

Mae pwysau cymdeithasol, felly, yn gallu effeithio ar ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg, a hynny yn ei dro yn cyfrannu at gadarnhau'r profiad mai iaith yr ysgol yn unig yw'r Gymraeg.

4.7.2 Perchnogaeth

Clywsom dystiolaeth am berthynas emosiynol pobl ifanc gyda'r Gymraeg a'r awydd i deimlo perthynas bersonol gyda'r iaith. Nodwyd nad yw medru siarad yr iaith o angenrheidrwydd yn arwain at deimlad o berchnogi'r iaith. Gall hyn arwain at lai o gymhelliant (sef C yn y model CAM-Y) i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau tu hwnt i'r ysgol. Barn un person ifanc o dde ddwyrain Cymru oedd fod modd:

[...] gadael addysg yn teimlo bod nhw [pobl ifanc] ddim yn perthyn i'r iaith, maen nhw'n gweld e fel 'sgil' ond does dim calon

Yn ymchwil Williams (2024), nododd disgyblion mewn ysgolion Cymraeg fod yr iaith yn rhan bwysig o'u hunaniaeth ac yn elfen gadarnhaol o'u bywydau bob dydd:

Byswn i ddim yn teimlo'r un peth os o fi ddim yn siarad Cymraeg

Our language is unique. It's my identity

Welsh language is important; I wouldn't be the person I am [without it]

Clywsom fod rhai pobl ifanc yn gweld y Gymraeg fel rhywbeth sy'n cysylltu pobl â'i gilydd, a bod y gallu i siarad Cymraeg yn cynrychioli 'cymuned o bobl':

Mae'n rhan ohono fi, dwi'n rhan o gymuned

We are so few; it connects us together

Creates a community that's stronger together

Mae perthynas emosiynol pobl ifanc â'r Gymraeg yn ffactor pwysig, ac maent yn aml yn adfyfrio ar ei harwyddocâd yn eu bywydau. Wrth drafod yr iaith, mae teimladau o falchder a pherthyn yn dod i'r amlwg, ond ar yr un pryd mae rhwystrau cymdeithasol yn dylanwadu ar eu profiadau. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, mae'n bwysig deall y ffactorau sy'n llywio agweddau plant a phobl ifanc tuag at yr iaith, gan adnabod y rhwystrau yn ogystal â'r cyfleoedd a'r holl brofiadau, er mwyn cryfhau a chynyddu ei defnydd cymdeithasol a chymunedol ymhlith y genhedlaeth iau. Mae'r adran nesaf yn amlinellu dull o fynd i'r afael â'r materion hyn.

4.7.3 Siaradwyr gweithredol

Mae ymchwil yng Ngwlad y Basg (Ortega, Goirigolzarri ac Amorrortu, 2022) yn dadlau bod rhoi cyfleoedd penodol i bobl ifanc adfyfrio ar eu perthynas â'r Fasgeg yn cynyddu eu defnydd o'r iaith (rydym wedi cyfeirio at hyn ym mhennod 3, 'Trosglwyddo a chymdeithasoli iaith'). Mae'r ymchwil yn awgrymu fod hyn yn gallu troi'r unigolyn yn 'siaradwr gweithredol', hynny yw siaradwr sydd yn gwneud penderfyniad ymwybodol i ddefnyddio'r Fasgeg mewn amryw o sefyllfaoedd cymdeithasol, nid dim ond yn yr ysgol. Mae hyn yn darparu i'r unigolyn:

[...] knowledge about themselves and their situational context, as well as a safe space to rehearse new forms of speakerhood

Mae adfyfrio o'r fath yn darparu man i drafod eu profiadau o ran dysgu a siarad y Fasgeg. Mae Ikastolen Elkarte, sef cynghrair ysgolion Basgeg, wedi datblygu

cwricwlwm anffurfiol, gydol-ysgol sydd yn seiliedig ar yr ymchwil hon (Muñoa Barredo, Beola Olaziregi a Lasa, 2024). Rydym hefyd yn trafod Ikastolen Elkarte ac agweddau eraill ar ymyriadau o Wlad y Basg yn adran 3.6. Ffocws y cwricwlwm yw dysgu hanes sosioieithyddol y Fasgeg i ddisgyblion, ac annog trafodaeth am berthynas unigolion â'r iaith. Mae'r modiwlau addysg 'anffurfiol' yn helpu dysgwyr i ddeall cyd-destun cymdeithasol yr iaith drostynt eu hunain ac i weld y Fasgeg mewn ffordd mwy cyfansawdd na dim ond iaith yr ysgol.

Mae technegau adfyfyriol o'r fath yn bwysig yng nghyd-destun ysgolion yng Nghymru yn ogystal, ac fe ellid ystyried sut i'w rhoi ar waith mewn rhagor o weithgareddau sy'n berthnasol i bobl ifanc. Dylid sicrhau bod adfyfyrio o'r fath yn addas ar gyfer oedran neu gyfnod y person ifanc mewn bywyd, gan fod hynny'n annog eu perchnogaeth nhw ar y broses. Nod hyn yw rhoi cyfle i bobl ifanc fyfyrion ddwys ar eu defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd nad ydynt o reidrwydd yn ei wneud fel arfer, a'u galluogi i ddatblygu ymwybyddiaeth ieithyddol gryfach. Y bwriad yw i'r broses hon gyfrannu at leihau rhwystrau, cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr ifanc, a'u cefnogi i ddatblygu'n 'siaradwyr gweithredol.' Mae cynnwys hanes sosioieithyddol yr iaith leiafrifedig yn rhan o ddeall cyd-destunau cymdeithasegol, fel bod dysgwyr yn dysgu ethos, yn hytrach na sgiliau'n unig. Ond y nod a'r gamp yw mai'r dysgwyr eu hunain sy'n adfyfyrio ac nad didactig yn unig mo'r sesiynau hyn.

4.8 Mudiadau a chlybiau pobl ifanc

Mae clybiau ieuenctid, chwaraeon a grwpiau cymunedol yn bwysig yn natblygiad cymdeithasol a diwylliannol pobl ifanc. Maent yn gyfleoedd iddynt:

- ffurfio cysylltiadau â'i gilydd
- datblygu cyfeillgarwch, sgiliau a hyder
- ymwneud ag unigolion o genedlaethau ychydig yn wahanol
- os yw'r Gymraeg yn rhan o'r cyd-destun, brofi'r iaith y tu allan i'r dosbarth neu'r ysgol ac yn eu bywydau bob dydd

Mae gweithgareddau a chyd-destunau o'r fath yn chwarae rôl hanfodol fel gofodau i gynnal a datblygu'r Gymraeg. Rydym yn cydnabod eu cyfraniad pwysig ac yn gwerthfawrogi'r cydweithio rhwng cymdeithasau, mudiadau a sefydliadau ledled Cymru. Ond nid yw clybiau o'r fath ar gael ymhob rhan o Gymru neu o fewn pellter rhesymol i bawb. Yn ogystal, mae toriadau mewn termau real i gyllidebau llywodraeth leol wedi gwasgu ar wasanaethau anstatudol fel gwasanaethau ieuenctid. Mae hyn wedi arwain at lai o gefnogaeth o'r fath i bobl ifanc ac wedi cyfyngu ar y potensial ar gyfer cyfleoedd i gymdeithasu drwy'r Gymraeg. Mae gan y rhanddeiliaid sydd yn gweithio ym maes ieuenctid a'r Gymraeg amcanion cyffredin: cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc a sicrhau bod darpariaeth ieuenctid hygyrch, cynhwysol a chyson ar gael ar draws y wlad.

Gellid adeiladu ar lwyddiant y cydweithio hwn drwy gydweithio'n agosach rhyngddynt ac awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau ar y cyd i gryfhau'r cyfleoedd neu'r

Amgylchiadau (CAM-Y) i blant a phobl ifanc ar draws Cymru fedru datblygu eu diddordebau gan ddefnyddio'r Gymraeg. Dylid cynnwys yr elfennau hyn fel rhan o strategaethau iaith a strategaethau ieuenctid ar lefel awdurdodau lleol. Gallai ehangu partneriaethau o'r fath a lledaenu'r arfer dda sydd yn bodoli mewn mannau gyfrannu at atgyfnerthu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg wrth atgyfnerthu cyfalaf cymdeithasol a sgiliau pobl ifanc hefyd.

Trwy gydlyn adnoddau, rhannu arfer dda, a chydgyllunio gweithgareddau sy'n rhoi'r Gymraeg yn ganolog, gall y partneriaethau hyn ddatblygu ymhellach eu cyfraniad i sicrhau bod gan bobl ifanc gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan feithrin hyder, cymhelliant a pherchnogaeth dros yr iaith.

4.9 Cerddoriaeth a gigs Cymraeg

Mae cerddoriaeth fyw a digwyddiadau fel gigs yn chwarae rôl bwysig ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol llawer iawn o bobl ifanc. Clywsom gyfeiriadau cadarnhaol at fentrau cyfredol fel Maes B a Tafwyl, a chydabyddiaeth o'u gwerth fel modelau sy'n cyfuno cerddoriaeth gyfoes â'r Gymraeg mewn ffordd fywiog ac ysbrydoledig. Mae hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn galluogi pobl ifanc i gysylltu â'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol a pherthnasol, y tu allan i'r ysgol lle mae'r iaith yn greiddiol i'r digwyddiad, a bod elfennau eraill fel y gerddoriaeth, yr hwyl, y cymdeithasu, a'r awyrgylch yn ganolog i'r profiad yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn golygu fod y Gymraeg yn rhan annatod o'r digwyddiadau.

Dywedodd person ifanc o dde Cymru:

Fi'n caru gigs [gan gyfeirio at y Gymraeg]

Mae'r mathau hyn o ddigwyddiadau yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol hanfodol. Maent yn caniatáu i bobl ifanc ddod ynghyd, cysylltu â chyfoedion a rhannu profiadau positif drwy'r Gymraeg mewn cyd-destun anffurfiol hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi gwneud hynny o'r blaen. Mae'r digwyddiadau hyn yn ofodau lle gall pobl ifanc ailgysylltu, atgyfnerthu neu ffurfio perthynas newydd â'r iaith.

4.10 Datblygu cymunedol a'r sector ieuenctid creadigol

Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, mae angen datblygu cymunedau ieithyddol mewn ardaloedd dwysedd canolog neu is yng Nghymru.

At y diben hwn mae cerddoriaeth boblogaidd wedi chwarae rôl mewn cymunedau iaith leiafrifedig ar hyd a lled Ewrop a thu hwnt. Yn achos y Wyddeleg, mae cerddoriaeth boblogaidd yn denu pobl ifanc at yr iaith mewn modd sy'n gyfoes ac yn berthnasol i'r bobl ifanc hynny. Nid mewn gwagle y tyfodd hyn, ac mae sefydliadau megis Glór na Móna a Cultúrlann McAdam Ó Fiaich wedi chwarae rôl flaenllaw yn y

broses adfywio gymunedol, gan gynnig mentora, hyfforddiant, digwyddiadau diwylliannol, a gwasanaethau cymunedol drwy gyfrwng yr Wyddeleg. Mae cynlluniau fel Fís an Phobail, cynllun iaith gymunedol 7 mlynedd ar gyfer gorllewin Belffast, yn dangos sut y mae modd plethu datblygu cymunedol ac adfywio trefol ag iaith leiafrifedig mewn ffordd lle mae'r iaith yn 'ymylol ond yn ganolog': nid yw bob amser yn ganolbwynt ffurfiol, ond mae'n bresennol ym mhob agwedd ar y gwaith cymunedol a wneir. Mae hyn wedi'i seilio'n fwy uniongyrchol ar weledigaeth ddatblygu cymunedol ehangach, â'r iaith yn rhan annatod o'r broses o greu cyfleoedd, cynyddu gallu a meithrin hunaniaeth gymunedol.

Mae'r enghreifftiau o brofiadau cadarnhaol mewn digwyddiadau fel gigs a'r Eisteddfod yn dangos y gall y Gymraeg weithredu fel llwyfan i ehangu cyfalaf cymdeithasol. Maent yn rhoi cyfle i bobl:

- gysylltu â rhwydweithiau ehangach
- meithrin cysylltiadau newydd
- cryfhau ymdeimlad o berthyn i Gymru gan brofi ei hamrywedd mewn ffordd uniongyrchol

Ond i bobl ifanc sy'n gadael ysgolion Cymraeg ac sydd ddim yn rhan o rwydweithiau Cymraeg neu weithgaredd sy'n defnyddio'r Gymraeg, yn aml nid yw'n glir ble, na sut, y gallant gymryd rhan mewn bywyd Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Heb bont rhwng addysg a'r gymuned, mae risg y caiff y Gymraeg ei gweld fel rhywbeth 'i'w gadael ar ôl.'

Dylid ystyried ymhellach beth yw'r llwybrau i mewn i rwydweithiau ieuenctid Cymraeg, pa fath o weithgareddau a sut i'w cyllido er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned o blant a phobl ifanc ar draws Cymru. Dylid creu neu ddatblygu gofodau sy'n cynrychioli'r amrywiaeth gymdeithasol o fewn Cymru, gan sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei phrofi fel adnodd byw, hygyrch, positif ac agored i bawb.

Yn ystod ein trafodaethau â phobl ifanc, clywsom awydd clir am fwy o leoliadau hygyrch lle gallent fynychu cerddoriaeth fyw, yn ogystal â chael cyfleoedd mentora neu ddatblygu sgiliau i'w helpu i ddysgu chwarae offerynnau, creu cerddoriaeth, a threfnu eu digwyddiadau eu hunain drwy'r Gymraeg. Gall y gofodau hyn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol, ac ar yr un pryd, sbarduno hunaniaeth ieuenctid gadarn sy'n gweld yr iaith fel rhan annatod o fynegiant personol a chreadigol.

4.11 Yr 'ŵyl' Gymraeg fel offeryn cynllunio ieithyddol

Rydym wedi clywed sut mae gwyliau Cymraeg yn chwarae rôl bwysig o ran creu cyfleoedd i'r iaith gael ei defnyddio, ei dathlu a'i phrofi. Mae gwyliau yn gallu gweithredu fel gofodau anadlu lle gall y Gymraeg fod yn brif gyfrwng. Felly maent yn gyfleoedd i greu cyfalaf ieithyddol cymdeithasol a diwylliannol ar yr un pryd mewn amgylchfyd positif. Mae gwyliau hefyd yn cynnig llwyfannau i artistiaid, perfformwyr, ac ymarferwyr i ddatblygu drwy'r Gymraeg, gan feithrin cenhedlaeth newydd o arweinwyr diwylliannol ac ieithyddol.

Un o brif ofodau'r Gymraeg sydd hefyd yn wyl wrth reswm yw'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Eisteddfod hefyd yn arf strategol ar gyfer cynnal a thyfu'r Gymraeg. Dylid manteisio i'r eithaf ar y posibilrwydd hwn a'i glymu'n gadarn wrth gynllunio systemig ar gyfer y Gymraeg gan awdurdodau lleol y bydd yr Eisteddfod yn ymweld â hwy.

Fodd bynnag, clywsom nad yw pob gŵyl gymunedol yng Nghymru yn cynnwys y Gymraeg. Mae hwn yn gyfle coll i'r iaith. Clywsom hefyd fod diffyg cydlynw rhwng gwahanol wyliau'n gallu arwain at wrthdaro rhwng dyddiadau. Mae angen dull strategol a chydlynol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn mwy o wyliau nag y mae ar hyn o bryd. Trwy greu partneriaethau rhwng gwyliau Cymraeg a rhai nad ydynt yn cynnwys y Gymraeg ar hyn o bryd, mae modd rhannu arferion da, cydlynw, a chynyddu defnydd yr iaith mewn gofodau newydd.

5 Gweithleoedd a'r Gymraeg

Mae cyfraniad gweithleoedd i ddyfodol ein hiaith yn bwnc a drafodwyd gan gam cyntaf y Comisiwn. Nododd yr adroddiad fod gan sefydliadau sector cyhoeddus ddyletswydd i gefnogi'r Gymraeg, i ymestyn defnydd y gweithlu ohoni yn y gweithle ac i barhau i arloesi a datblygu sut mae defnyddio'r iaith yn fewnol. Cynigiodd nifer o argymhellion i gefnogi'r datblygiadau hynny (argymhellion 18 i 20), ac mae'r rhain hefyd yn berthnasol i weithleoedd eraill, y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, ac o fewn ardaloedd dwysedd canolog neu is.

Yn yr adran hon rydym yn adeiladu ar gasgliadau cam cyntaf y Comisiwn. Dechreuwn drwy ystyried pam mae gweithleoedd yn bwysig, a sut y gall gweithleoedd o bob math gyfrannu at yr amcanion strategol sy'n ganolog i gylch gwaith y Comisiwn. Yna, trafodwn ddulliau o greu newid mewn gweithleoedd, cyn edrych ar safonau'r Gymraeg, diwylliant gweithleoedd, cyfleoedd i brif-ffrydio cynllunio ieithyddol a photensial i fabwysiadu cyfrifoldebau corfforaethol cymdeithasol ieithyddol. Byddwn yn ystyried cyfraniad arweinyddiaeth sefydliadol i ddiwylliant hefyd ac yn mynd i'r afael â'r angen i gynllunio'r gweithlu mewn modd sy'n cefnogi cynnydd mewn defnydd o'r Gymraeg. Down â'r drafodaeth i'w therfyn drwy drafod yr ystod o offer technolegol a allai hwyluso a thrawsnewid y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio'n bennaf ar weithleoedd y sector cyhoeddus, ac yn cydnabod mai dyma'r cyd-destunau lle ceir y mwyaf o liferi polisi uniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw ein dadansoddiad a'n hawgrymiadau'n gyfyngedig i weithleoedd y sector cyhoeddus. Yn hytrach, mae'n archwilio sut y gall gweithleoedd weithredu'n ddwyieithog a sut y gellir creu amgylcheddau gwaith lle mae defnyddio'r Gymraeg yn rhesymol, ymarferol ac o fudd i weithwyr, sefydliadau a chymunedau fel ei gilydd waeth beth yw'r sector.

5.1 Pam mae gweithleoedd yn allweddol yn yr ardaloedd hyn

Mewn ardaloedd dwysedd canolog ac is, mae'r gweithle yn aml yn un o'r prif fannau cymdeithasol lle gall oedolion ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd y tu allan i addysg ffurfiol. I lawer sydd wedi derbyn addysg Gymraeg ond nad ydynt yn dod o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio, mae diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd yn arwain at ddirywiad mewn defnydd wedi gadael yr ysgol ac felly hefyd eu parodrwydd a'u hyder i'w defnyddio. Mae'r bennod hon yn archwilio rôl y gweithle fel gofod cymdeithasoli hanfodol, a'i botensial i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn.

Un canfyddiad wrth drafod gweithleoedd a'r newidiadau sy'n debygol o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yw bod llawer o waith wedi'i wneud dros y degawdau diwethaf. Fel yn achos meysydd eraill a drafodwyd yn yr adroddiad, nid dechrau o ddim byd yr

ydym ni, o bell ffordd. Rydym yn cydnabod rôl ganolog Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt, awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus yn ehangach, busnesau preifat, mentrau cydweithredol, mudiadau ymgyrchu ac undebau llafur yn hyn o beth. Ond er bod cymorth ac arweiniad ar gael i sefydliadau sy'n dymuno cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mae angen sylw ar ddiwylliant sefydliadol ac arferion sefydledig. Un o'n casgliadau, felly, yw bod angen i ymdrechion ganolbwyntio'n gynyddol ar ochr 'pobl' pethau. Mae angen cydnabod bod pobl yn bodoli ac yn byw mewn dynameg grym a bod diwylliant sefydliadol yn cael ei greu ac yn gallu cael ei newid drwy ymyriadau bwriadus. Felly, newid sefyllfaoedd, dynameg a diwylliant sydd ei eisiau, er mwyn helpu pobl i newid eu hymddygiad, nid disgwyl i bobl newid eu hymddygiad o'u pen a'u pastwn eu hunain.

5.2 Cyfundrefn ddwyieithog Cymru

Yr arfer gyfredol gyffredin mewn llawer o weithleoedd yng Nghymru yw dibynnu ar gyfieithu cynnwys o'r Saesneg i'r Gymraeg. Er mwyn i hyn weithredu'n effeithiol, mae'n dibynnu ar wasanaethau cyfieithu wrth gwrs. Ond nid yw hyn yn grymuso unigolion o fewn y gweithle, nac yn eu cymell i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt. Mae'n gosod y cyfrifoldeb ar y proffesiwn cyfieithu, sy'n ddibynnol ar gyllidebau a phenderfyniadau arweinwyr, yn ogystal â beth ddywed y Safonau Iaith ynghylch cyfieithu ai peidio.

Wrth i dechnoleg iaith esblygu ac wrth i'n dyheadau ar gyfer y Gymraeg gynyddu, rydym yn credu mai'r her yw creu sefyllfaoedd sy'n hwyluso newid ymddygiad ac yn newid dynameg y Gymraeg yn y gweithle. Yn hytrach na gweithio a chynhyrchu drwy'r Saesneg ac yna cyfieithu i'r Gymraeg, dylem ymdrechu i hwyluso gweithio dwyieithog gan alluogi unigolion i weithio a chreu cynnwys drwy'r Gymraeg, gan ddefnyddio technoleg i gynorthwyo hynny. Rydym yn gweld yr angen i symud oddi wrth ddibyniaeth lwyr ar wasanaethau cyfieithu, ac yn lle hynny ddatblygu sgiliau, amgylchiadau cefnogol a chymhelliant i unigolion a gweithluoedd, a defnyddio technoleg i hwyluso hyn. Bydd hyn, mae'n debyg, yn golygu newid yn y math o waith cyfieithu, tuag at fwy o ddefnydd o gyfieithu ar y pryd, a mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio gan y gweithlu yn y gweithle. Mae cyfieithwyr yn parhau i fod yn gwbl ganolog i hyn.

5.3 Y rhesymau cymdeithasol a 'phobl' dros weithredu'n ddwyieithog

Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn bwysig pwysleisio na ddylai gweithredu'n ddwyieithog gael ei yrru gan egwyddor cydymffurfio yn unig. Yn hytrach, dylid ei ddeall fel dewis sy'n seiliedig ar werthoedd ac sy'n rhoi pobl wrth wraidd trefniadau gwaith a gwasanaeth. Mae gwaith Price, Ó Torna a Wynne Jones (1997) yn dangos bod manteision cymdeithasol a dynol i sefydliadau sy'n meithrin diwylliant lle mae dwyieithrwydd yn cael ei werthfawrogi, ei normaleiddio a'i weld yn rhan annatod o fywyd proffesiynol, yn hytrach nag fel eithriad neu faich.

Yn gymdeithasol, gall gweithleoedd dwyieithog gryfhau ymdeimlad o berthyn ymhlith staff, a chreu amgylchedd lle mae unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u parchu'n llawn. Mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn cyfrannu at hunan-barch a hyder ieithyddol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd dwysedd canolog neu is, lle gall y gweithle fod yn un o'r prif ofodau cymdeithasoli ieithyddol i oedolion, ac felly'n allweddol i gynnal defnydd dyddiol o'r Gymraeg a throsglwyddo hyder ieithyddol rhwng cenedlaethau.

Mae'r manteision hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r gweithlu ei hun. O safbwynt dynol, mae gweithredu'n ddwyieithog yn gallu cryfhau perthnasoedd rhwng sefydliadau, cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau drwy feithrin ymddiriedaeth, empathi a gwell dealltwriaeth o gyd-destunau lleol. O safbwynt busnes, mae defnydd o'r Gymraeg yn cael ei weld fel modd o atynnu cwsmeriaid a chryfhau brand y busnes (Comisiynydd y Gymraeg 2018). Mae Price et al (1997) yn nodi bod iaith yn gyfrwng sylfaenol ar gyfer creu ystyr a pherthnasoedd, ac felly bod sefydliadau sy'n gweithredu'n sensitif yn ieithyddol yn fwy tebygol o ymddangos yn hygyrch, yn ddilys ac yn gysylltiedig â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Yn y sector preifat yn benodol, gall hyn arwain at deyrngarwch cwsmeriaid, enw da cadarnhaol, a chysylltiadau dyfnach â chymunedau lleol (gweler Comisiynydd y Gymraeg, 2017). Fodd bynnag, nid mater masnachol yn unig yw hyn: mae'n adlewyrchu parch at hunaniaeth pobl a chydabod gwerth profiad byw.

O ganlyniad, dylid ystyried y Gymraeg yn y gweithle nid yn unig fel dyletswydd statudol, ond fel adnodd cymdeithasol a dynol sy'n gallu ychwanegu gwerth go iawn. Mae gweithredu'n ddwyieithog yn gallu cyfrannu at lesiant, ymdeimlad o reolaeth ac asiantaeth unigolion, ac at greu diwylliannau sefydliadol cynhwysol a chydnerth. Yn y cyd-destun hwn, mae hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle yn fuddsoddiad mewn pobl a chymunedau, yn ogystal ag mewn perfformiad sefydliadol ehangach.

5.4 Amcanion: y rhesymau dros ddewis gweithleoedd

Mae defnydd iaith sefydliadau a busnesau yn ehangu ac yn tyfu statws sifig a sosioeconomaidd ein hiaith. Mae'r statws hwn, yn ei dro, yn cyfrannu at hunaniaeth gadarnhaol ymysg y gymuned gyfan mewn perthynas â chefnogi'r iaith leiafrifol. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd mewn agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg fu'n cydreddeg gyda chynnydd ym mhresenoldeb cyhoeddus yr iaith dros y degawdau diwethaf. Mae defnydd gweledol y Gymraeg gan sefydliadau a busnesau yn gallu gwneud cyfraniad pwysig i statws sifig iaith dros amser. Rhaid felly wneud pob ymdrech i barhau i gynyddu gwelededd yr iaith. Yn hyn o beth, mae angen tynnu sylw at y diffyg o'r Gymraeg ar y stryd fawr mewn ardaloedd dwysedd canolog ac is. Er bod polisïau, canllawiau ac adnodd am ddim ar gael gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn annog defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cyhoeddus, nid yw'r arferion hyn wedi'u rhoi ar waith yn gyson nac yn eang ar lawr gwlad. Wrth ymateb i adroddiad y Comisiwn ar gynllunio felly, dylai Llywodraeth Cymru nodi camau y gellir eu cymryd i gynyddu presenoldeb gweledol y Gymraeg ar y stryd fawr.

Yn ogystal â gwelededd allanol, gall sefydliadau wneud cyfraniad pwysig pellach i ddyfodol y Gymraeg am fod y gweithle yn bau ar gyfer cymdeithasoli'r iaith. Mae'r gweithle yn ofod a chyd-destun lle mae arferion defnydd iaith yn gallu cael eu sefydlu a'u hatgyfnerthu, a gall gynnig cyfleoedd a gofodau pwysig i siaradwyr newydd ac i'r rheini sy'n llai hyderus (Hodges 2009). Fel gofod strwythuredig â rheolau ac arferion sy'n dylanwadu ar ymddygiad, gall y gweithle greu cyfleoedd a chymell pobl i wneud defnydd hwylus o'u Cymraeg yn ogystal â sefydlu arferion iaith sy'n cael dylanwad tu hwnt i'r gweithle.

Mae'n ofod hefyd lle gall unigolion negodi, trafod a deall yn well amrywiaeth o agweddau ynghylch yr iaith. Mae modd herio camdybiaethau, lleddfu gofidiau a chynorthwyo teithiau iaith unigolion. O wneud hyn, mae modd datblygu consensws ynghylch cyfraniad sefydliadau at amcanion ieithyddol Cymru.

Ond nid yw gweithleoedd yn hwyluso'r prosesau hyn ar raddfa ddigonol ar hyn o bryd. Yr her o fewn ardaloedd dwysedd canolig neu is, felly, yw datblygu'r gweithle i'w lawn botensial, a sicrhau bod sefydliadau a busnesau Cymru yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddyfodol yr iaith. Dywed Comisiynydd y Gymraeg (2022):

Mae lle i weld cynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg fel iaith gwaith. Â llawer o bobl yn treulio mwyafrif eu horiau effro yn eu gwaith, gall rhoi cyfleoedd i bobl fynd i'r arfer o dreulio'r amser hwnnw'n trafod a gweithredu drwy'r Gymraeg gael traweffaith sylweddol ar arferion iaith yn y gweithle, y cartref a'r gymuned

Rydym yn credu fod gweithleoedd yn ofodau sydd yn cefnogi'r prosesau cymdeithasoli a defnydd iaith o fewn cymunedau lle, ar hyn o bryd, mae prinder gofodau a chyfleoedd o'r fath. Mae modd cyflawni hyn drwy ddilyn arferion da wedi'u seilio ar wyddorau cymdeithasol ac ymddygiadol ac ar dechnoleg i gryfhau gweithluoedd a'u gallu i gydweithio'n effeithiol yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Mae'n casgliadau'n berthnasol i weithleoedd o bob math, boed yn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Er bod gweithredu'n debygol o fod yn haws o fewn y sector cyhoeddus oherwydd fod gan y llywodraeth ddylanwad uniongyrchol dros y sector hwnnw, ni ddylid tybio nad yw'r un cynnydd yn bosibl mewn unrhyw weithle arall.

5.5 Patrymau gweithio

Mae gweithio o bell wedi'i wreiddio yn sgil COVID-19 yn enwedig mewn rhai sectorau a mathau o gyflogaeth. Roedd mwy na chwarter (28%) o weithwyr Prydain yn gweithio'n hybrid rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025, cyfran sydd wedi cynyddu'n raddol ers mis Mawrth 2022. Roedd gweithwyr â chymhwyster 'gradd neu gyfwerth' 10 gwaith yn fwy tebygol o weithio'n hybrid na'r rhai heb gymwysterau

(Office for National Statistics 2025). Mewn rhai gweithleoedd felly, mae natur wasgaredig a llai rhyngbersonol cyflogaeth yn debygol o ddylanwadu ar yr hyn sydd yn bosibl ei gyflawni ar gyfer iaith yn y gweithle. Rydym yn cydnabod y realiti hwn ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd anffurfiol a chymdeithasol sydd wedi eu colli ymysg gweithluoedd o ganlyniad i'r patrymau hyn, a'r effaith ar ddefnydd y Gymraeg mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae technoleg yn cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â'r natur wasgaredig hon, ac mae cyfleoedd i'r Gymraeg yn hynny o beth.

5.5.1 Agweddau at y Gymraeg a diwylliant Cymraeg y gweithle

Gall agweddau unigolion a diwylliant sefydliadol mewn perthynas â'r iaith, ei defnydd neu ei pherthnasedd, fod yn rhwystr rhag ymdrechion i greu cyfleoedd a chymell mwy o ddefnydd. Rydym yn deall bod rhai siaradwyr yn cwestiynu safon a gallu eu sgiliau Cymraeg ffurfiol. Caiff hyn ei gyfleu yn aml fel mater o ddiffyg hyder yr unigolyn. Fel yr ydym wedi dadlau mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn (e.e. 1.11, 3.5.1), mae 'diffyg hyder yr unigolyn' yn ddadansoddiad cyfyngedig o'r cyd-destun. Rydym yn argymhell y dylid creu a datblygu gofodau sy'n cymell defnydd yn hwylus a lle nad yw hyder, neu ei ddiffyg, yn ffactor sy'n dylanwadu ar ddefnydd. Eto, pwysleisiwn mai newid sefyllfaol sydd ei angen, nid disgwyl i unigolion newid y sefyllfa ieithyddol o'u hamgylch o'u pen a'u pastwn eu hunain.

Gall agweddau tuag at yr iaith, yn arbennig ymysg arweinwyr sefydliadau, fod yn sbardun pwerus ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y gweithle. Clywsom dystiolaeth ynghylch arweinwyr sefydliadau, a bu'n amlwg fod barn a phrofiadau unigolion ynghylch y Gymraeg yn ffactor hynod bwerus. Mae gan nifer farn gref ynghylch y Gymraeg, sydd wedi ei ffurfio gan brofiadau personol, barn sy'n dylanwadu ar eu hagwedd a'u hymwneud â'r iaith. Gall yr agweddau hyn fod yn gadarnhaol ac yn gymhelliant i ddefnyddio ac i geisio cyflyru mwy o ddefnydd o fewn y gweithle ac ymysg y gweithlu.

Wrth gwrs gall yr agweddau hyn fod yn negyddol hefyd, sydd yn gallu rhwystro ymdrechion, yn enwedig pan fo'r agweddau hyn ar lefelau uchaf sefydliad. Ar eu gwaethaf, clywsom fod agweddau negyddol yn gallu arwain at gydymffurfiaeth ddibwys â rheoliadau ieithyddol megis safonau'r Gymraeg (hynny yw gwneud 'jyst' digon i gydymffurfio, heb groesawu ysbryd y rheoliad neu'r ddeddfwriaeth), neu greu awyrgylch nad yw'n cymell pobl i ddefnyddio'r iaith. Fe wnaeth iaith Cyf nodi agweddau o'r fath oedd yn awgrymu bod yr agweddau hyn, y clywsom amdanynt gan swyddogion iaith yn ystod gwaith y Comisiwn, wedi bodoli ers cyfnod hir iawn:

Yn y sefydliadau hynny sy'n gweithredu ar draws ffiniau Cymru a Lloegr, gwelwyd bod tensiynau yn bodoli pan nad oedd y sefydliad yn uniaethu i'r un graddau ag ethos a gwerthoedd Llywodraeth y Cynulliad [ynghylch y Gymraeg], neu ag ymdrechion i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig y rhannau datganoledig neu 'ranbarthol' o'r

Rydym yn cydnabod cyfraniad safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011) i sefyllfa gyfredol yr iaith. Er mwyn adeiladu ar hyn, rydym yn credu mai un her mewn perthynas â chreu gweithleoedd sy'n cefnogi gallu, creu cyfleoedd a chymell defnydd o'r iaith, yw defnyddio methodoleg datblygu sefydliadol a chreu gofodau.

5.6 Y weledigaeth: ystyr gofodau Cymraeg yn y gweithle

Sut gall gweithle feithrin gallu ieithyddol, creu cyfleoedd a chymell pobl i ddefnyddio'r Gymraeg? Deallwn fod y Gymraeg, fel y Saesneg, yn gallu cael ei defnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Gall gael ei defnyddio'n fewnol rhwng staff, ac yn allanol â chleientiaid a chwsmeriaid wrth gynnig gwasanaethau. Mae'n bosibl defnyddio'r iaith yn ffurfiol ar gyfer cytundebau, wrth ymwneud â materion technegol neu o fewn prosesau rheoli prosiectau a phobl. Mae modd defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol hefyd; mewn sgysiau ymysg staff, wrth gyfathrebu â chleientiaid neu wrth bostio ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae defnydd ffurfiol ac allanol yn aml yn gofyn am gywirdeb a lefel uchel o sgiliau ieithyddol o gymharu â defnydd anffurfiol a mewnol (gweler hefyd Lewis, 2023).

Rydym yn credu bod defnydd anffurfiol o fewn y gweithle yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, mewn perthynas â chymdeithasoli, sefydlu a chynnal arferion ieithyddol y gweithlu a chreu gofodau Cymraeg. Yn ddibynol ar sgiliau ac arferion ieithyddol y gweithlu, mae modd i weithle (neu ran o weithle) weithredu fel gofod Cymraeg, lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n ffurfiol ac yn anffurfiol; yn fewnol ac yn allanol. Gall hyn ymestyn hefyd i weithgareddau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r gwaith, gan gynnwys rhyngweithio anffurfiol rhwng staff y tu allan i'r gweithle, lle gall arferion iaith a hyder barhau i ddatblygu.

Ond mae modd i unrhyw weithle ddefnyddio'r 2 iaith yn hwylus hefyd, a bod yn ofod lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio. Mae rhaglen ARFOR er enghraifft wedi adnabod sut y mae nifer o fusnesau eisoes yn gweithredu fel hyn. Canfu fod gwaith ffurfiol mewnol ac allanol rhai busnesau gyda chwsmeriaid megis taliadau, cytundebau neu waith cyfreithiol yn cael ei wneud drwy'r Saesneg, er bod yr ymwneud anffurfiol, megis y sgwsio gyda chwsmeriaid yn digwydd drwy'r Gymraeg (Wavehill, 2021). Ein her, felly, yw annog arweinwyr i ddeall cyfraniad posibl y gweithle i ddefnydd iaith a chydabod bod lle i'r ddwy iaith ac nad oes rhaid dewis y naill dros y llall.

5.6.1 Defnydd ffurfiol, defnydd anffurfiol

Rydym yn credu fod angen creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, y tu mewn a'r tu allan i sefydliadau.

Mae Safonau'r Gymraeg, ynghyd â'r Cynnig Cymraeg, sef cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg i sefydliadau sydd wedi datblygu cynllun datblygu'r Gymraeg, yn ogystal ag ymdrechion sefydliadau eu hunain, wedi gyrru cynnydd mewn defnydd ffurfiol o'r Gymraeg o fewn sefydliadau ac yn parhau i wneud hynny. Clywsom fod y disgwyliad i gynyddu defnydd ffurfiol o'r Gymraeg wedi sbarduno trafodaethau mewn rhai gweithleoedd sector cyhoeddus am ddiwylliant ac arferion ieithyddol.

Rydym yn credu bod angen mwy o bwyslais ar ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg er mwyn ei normaleiddio yn y gweithle. Gall creu cyfleoedd i staff sgwrsio gyda'i gilydd, ac â chleientiaid neu gwsmeriaid yn Gymraeg, fod yn ffordd effeithiol o sicrhau cymdeithasoli ieithyddol a chynyddu defnydd. Gall defnydd anffurfiol hefyd fod yn haws ei annog mewn ffyrdd sy'n rhwydd, yn gymdeithasol ac amserol, sydd yn cydfynd ag egwyddorion newid ymddygiad a model HAPUS.

Fodd bynnag, ni ddylid ystyried defnydd anffurfiol a defnydd ffurfiol fel 2 ffenomen gwbl ar wahân. Mae cydberthynas rhyngddynt ac mae'r 2 arfer yn berthnasol i gynaliadwyedd ieithyddol yn y gweithle. Mae defnydd ffurfiol yn hybu statws (ac yn cefnogi gwasanaethu'r cyhoedd), ac mae defnydd anffurfiol yn cefnogi prosesau cymdeithasoli mewnol. Rydym yn credu fod gwaith pwysig eisoes wedi'i wneud i osod seiliau cadarn ar gyfer cynyddu defnydd ffurfiol o'r Gymraeg mewn sefydliadau ac mae'n amser adeiladu ar y llwyddiant hwn. Bellach, mae cyfle i ddatblygu ffyrdd o hybu defnydd anffurfiol o'r iaith, a throi gweithleoedd yn ofodau sy'n hwyluso defnydd rhyngpersonol o'n hiaith.

Er bod llawer o sylw wedi'i roi i ddatblygu sgiliau Cymraeg unigolion drwy addysg oedolion, mae angen ystyried yn fwy y cam pontio rhwng dysgu'r Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. I lawer, nid diffyg gallu ieithyddol yw'r prif rwystr, ond diffyg eglurder ynghylch pryd, sut a ble mae modd defnyddio'r sgiliau hynny yn ymarferol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r gweithle yn safle cymdeithasoli ieithyddol allweddol, lle gall arferion, normau a disgwyliadau naill ai hwyluso neu rwystro'r defnydd o'r Gymraeg.

5.7 Y newid sydd ei angen

Sut, felly, mae troi gweithleoedd yn ofodau sy'n meithrin gallu, cynnig cyfleoedd ac sy'n ysgogi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg? Wrth gasglu tystiolaeth a gwrando ar brofiadau'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio ieithyddol yn y gwaith, daeth un thema gyson i'r amlwg. Er bod amrywiaeth o dechnegau, cymorth a hyd yn oed ddyletswyddau statudol ar gael i gynorthwyo ymdrechion i gynyddu defnydd, mae ffactorau fel ymddygiad dynol, diwylliant sefydliadol a diffyg ffactorau sy'n cymhell yn gallu rhwystro cynnydd.

Felly, credwn mai'r cam pwysicaf yn y gweithle yw datblygu arweinyddiaeth gryfach dros y Gymraeg mewn sefydliadau, a gwneud defnydd mewnol o'r iaith yn rhan ganolog o ddatblygu sefydliadol. Byddai arweinyddiaeth o'r fath yn gallu ysgogi newid sefydliadol mewn gweithleoedd o bob maint i ddefnyddio'r cymorth a'r arweiniad sydd ar gael, a chyfrannu at ddyfodol cadarnhaol i'r iaith. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, rydym hefyd wedi ystyried ffyrdd eraill i helpu sefydliadau i greu cyfleoedd, annog unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg, a manteisio ar dechnoleg.

5.7.1 Arweinyddiaeth ieithyddol: diwylliant yn gyntaf, yna'r Gymraeg

Clywsom gan arweinwyr sefydliadau sydd wedi trawsnewid diwylliant eu sefydliad o ran y Gymraeg, gan osod sylfaen gadarn ar gyfer cynyddu'r defnydd a'r nifer o siaradwyr o fewn eu gweithlu. Yn gyffredin i hyn, roedd tueddiad i ganolbwyntio'n bennaf ar newid diwylliant o fewn y sefydliad a sicrhau bod pawb yn cydnabod pwrpas defnyddio'r Gymraeg. Lle bu newid llwyddiannus, datblygodd diwylliant cefnogol o ran y Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Roedd parch at amrywiaeth o agweddau tuag at yr iaith ac roedd y sefydliad yn barod i drafod yr agweddau hyn.

Roedd newid diwylliant hefyd yn cynnwys gosod gweledigaeth ynghylch gwella a chynyddu'r ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg, yn hytrach na bodloni ar gyhoeddi polisi yn unig. Roedd y weledigaeth yn aml wedi'i chefnogi gan dîm traws-sefydliadol empathig a chyfathrebu'n effeithiol gyda staff a rhanddeiliaid, gan greu sylfaen ar gyfer cyflawni amcanion sefydliadol. Ond, er mwyn newid diwylliant y sefydliad, rhaid newid diwylliant yr arweinyddiaeth yn gyntaf (HICO 2024).

Clywsom bod sawl sefydliad wedi cael cefnogaeth ac ysbrydoliaeth gan raglenni megis cwrs Academi Wales a Cymraeg 2050, 'Arwain Mewn Gwlad Ddwyeithog.' Mae'r rhaglen yn seiliedig ar ymchwil a'r gwyddorau ymddygiadol, a chanfyddiadau ynghylch rôl arweinyddiaeth empathig (gweler Lencioni, 2002; Brown a Treviño, 2006; Carroll, E a Mackie, 2016). Mae'n ceisio datblygu arweinyddiaeth empathig sydd â dealltwriaeth feirniadol o'r Gymraeg, ei sefyllfa yng Nghymru, a'r ystod gymhleth o emosiynau, profiadau a barn sydd gan bobl tuag ati. Mae'n pwysleisio rôl arweinwyr wrth greu diwylliant sefydliadol yn hytrach na dibynnu ar agweddau a hyder unigolion o fewn y gweithle i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae arweinyddiaeth ieithyddol sefydliadau yn berthnasol i bob rhan o Gymru, ond mae angen datblygu arweinyddiaeth benodol mewn cyd-destunau cymdeithasol lle nad yw'r cyfleoedd i siarad a chlywed yr iaith mor amlwg.

Bwriad Arwain Mewn Gwlad Ddwyeithog yw cynorthwyo arweinwyr, beth bynnag eu gallu ieithyddol, i fagu diwylliant sefydliadol lle gall dwyieithrwydd ffynnu. Mae'n ceisio gwneud hyn drwy:

- gefnogi arweinwyr i gnoi cil a deall eu barn isymwybodol
- seicoleg defnyddwyr ffurfiol ac anffurfiol y Gymraeg

- canfod sut mae gwranddo a deall barn eraill am iaith
- canfod sut mae cyfathrebu'n gadarnhaol, yn effeithiol a chynhwysol
- canfod sut i greu amodau cywir i ddechrau gwneud newidiadau cadarnhaol drwy gamau bach

Yn y pen draw, mae'r rhaglen yn pwysleisio'r angen am arweinyddiaeth empathig ac yn cefnogi ei ddatblygiad. Dyma'r math o arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol sydd fwyaf tebygol o allu arwain a gosod llwybr addas i sefydliadau mewn perthynas â'r Gymraeg yn eu diwylliant mewnol.

[...] ethical leaders are characterized as honest, caring, and principled individuals who make fair and balanced decisions. Ethical leaders also frequently communicate with their followers about ethics, [and] set clear ethical standards

(Brown a Treviño, 2006)

Mae arweinyddiaeth empathig yn cyfrannu at brosesau o sefydlu diogelwch seicolegol o fewn y gweithle, lle gall aelodau o'r gweithlu leisio, trafod a herio syniadau yn rhydd (gweler Edmondson, 2018). Mae sefydlu diogelwch seicolegol yn bwysig i greu awyrgylch lle gellir trafod profiadau ac agweddau tuag at yr iaith. Yn ogystal, mae arweinyddiaeth empathig yn aml yn dylanwadu ar y gweithlu ehangach, gan ei gwneud yn fwy tebygol o fynd y tu hwnt i'r disgwyl i gefnogi'r arweinwyr, dangos ymddiriedaeth yn yr arweinyddiaeth, a chael mwy o foddhad yn ei waith (Podsakoff, P. M., MacKenzie, S. B., Paine, J. B., a Bachrach, 2000). Yn ôl astudiaeth achos Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog:

There is a will, and a need, and an ask and an inclusion, now more than ever before, which does make you feel more comfortable to have a go at saying [rhywbeth yn Gymraeg], without being judged. Because I think cultures are changing

Yn ei dro, rydym yn credu fod hyn yn creu arweinwyr sefydliadol sydd yn cefnogi ac yn cymell newid cadarnhaol, sy'n grymuso swyddogion ac 'animateurs' iaith, ac sy'n ffurfioli a mabwysiadu'r technegau a'r cymorth sydd ar gael. Eto yn ôl Astudiaeth Achos Arwain Mewn Gwlad Ddwyeithog:

Dwi'n meddwl gwnaeth y cwrs jyst rhoi bach o bwsh iddyn ni i wneud pethau mwy hwylus efo'r Gymraeg, i wneud o'n mwy accessible i

Rydym yn credu bod angen annog a chefnogi mwy o sefydliadau i ddatblygu diwylliant sefydliadol addas. Un ffordd o wneud hyn yw parhau i ddatblygu Arwain mewn Gwlad Ddwieithog, gan hyrwyddo trafodaeth am y Gymraeg a'r amrywiaeth o safbwyntiau. Dylid datblygu'r cwrs a'r cyfleon i gynnal deialog a meithrin arweinyddiaeth empathig ymhlith holl arweinwyr Cymru, boed yn rheolwyr haen uwch neu'r haen ganol, o'r sector cyhoeddus, preifat a trydydd sector. Er mwyn cefnogi amcanion Cymraeg 2050, dylai arweinwyr, waeth beth eu gallu yn y Gymraeg—hyd yn oed os nad oes ganddynt Gymraeg o gwbl—fedru gwerthfawrogi a dangos y priodweddau angenrheidiol i arwain mewn gwlad ddwyeithog.

5.8 Safonau, diwylliant a chydymffurfiaeth

Mae safonau'r Gymraeg yn sicrhau bod sefydliadau yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid oedd yn fwriad gennym graffu ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn wir, rydym yn cydnabod pwysigrwydd y broses o reoleiddio a gosod safonau sydd ar waith. Mae gwaith y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru o ran y safonau, yn ogystal â'r cymorth a'r gefnogaeth i sefydliadau allu cydymffurfio â hwy, wedi cynyddu argaeledd gwasanaethau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r ymagwedd ddeddfwriaethol hon yn parhau i gael dylanwad cadarnhaol ar y defnydd ffurfiol o'r Gymraeg o ran cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â sefydliadau. Nodwn nad yw'r safonau yn cyrraedd y sector preifat ac o ganlyniad mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y sector cyhoeddus.

Wrth gasglu tystiolaeth gan sefydliadau, daeth yn amlwg fod rhai arferion sy'n ymwneud â'r broses o gydymffurfio yn debygol o fod yn rhwystrau rhag defnyddio'r Gymraeg. Clywsom am enghreifftiau o aelodau staff, gan gynnwys arweinwyr ar lefel weithredol, yn anwybyddu a gwrthod ymwneud â'r safonau. Clywsom hefyd fod rhai aelodau staff ac arweinwyr yn cydymffurfio ag isafbwynt y safonau yn unig a diwylliant o 'dim ond gwneud jyst digon.' Mae cydymffurfiaeth ddibwys fel hon, yn ein barn ni, yn annhebygol o ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd iaith yn ehangach na'r gwasanaeth penodol. Clywsom fod barn gref, ac yn aml negyddol, mewn rhai gweithleoedd am y Gymraeg a'i defnydd, safbwyntiau a allai yrru cydymffurfiaeth ddibwys.

Yn ogystal ag arferion cydymffurfio dibwys, neu o bosibl o'u herwydd, byddai gwaith cysylltiedig â'r safonau a chynnig gwasanaethau penodol drwy'r Gymraeg yn disgyn yn bennaf ar aelodau'r gweithlu sydd â sgiliau Cymraeg.

Serch hynny, clywsom esiamplau lle roedd eu cydymffurfiaeth â gofynion statudol wedi gwella, yn ogystal â'r defnydd o'r Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol. Roedd diwylliant ac arweinyddiaeth sefydliadol yn ganolog i'r trawsnewidiadau hynny. Fe wnaeth y defnydd o'r Gymraeg gynyddu, felly hefyd y niferoedd fu'n datgan fod

ganddynt sgiliau Cymraeg, a chlywsom fod brwdfrydedd ynghylch defnyddio'r iaith o fewn y gweithle. Clywsom mai Arwain Mewn Gwlad Ddwyeithog fu'r sbardun i'r datblygiadau cadarnhaol hyn, ond hefyd fod y safonau eu hun yn sbarc i'r sgysiau a'r newid diwylliannol. Eto, yn ôl astudiaeth achos Arwain Mewn Gwlad Ddwyeithog:

[...] bydden ni mewn sefyllfa hollol wahanol heb y safonau. Nid yw cymryd rhywfaint o ysbrydoliaeth o theori newid diwylliannol a sefydliadol yn tynnu sylw rhag gweithredu safonau. Fy mhrofiad i yw bod y ddau [Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog a'r Safonau] yn ategu ei gilydd

Rydym yn credu mai un her i gynllunwyr iaith yng Nghymru yw rhoi'r gallu a'r offer i sefydliadau a'u harweinwyr i roi ystyriaeth briodol i'w diwylliant sefydliadol mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae angen cefnogi'r sefydliadau hynny i groesawu ysbryd yn ogystal â geiriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 drwy fagu diwylliant sy'n creu cyfleoedd a gofodau, ac yn cymell defnydd o'r Gymraeg.

5.8.1 Cymorth busnes a gorfodaeth drwy amodau

Mae'r safonau ar gyfer ystod o sefydliadau cyhoeddus, yn ogystal â chyrff megis prifysgolion ac ymgymrwyr dŵr. Nid yw mecanweithiau statudol yn berthnasol i'r rhan fwyaf o'r sector breifat na'r trydydd sector. Yn y sefyllfa hon, mae angen troi at ffyrdd eraill i gymell y sefydliadau hyn i ystyried eu diwylliant sefydliadol a'u harweinyddiaeth ieithyddol, a'r gofodau y gallent eu creu i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n bwysig bod y broses hon yn cydnabod bod sefydliadau ar wahanol bwyntiau ar eu taith ieithyddol, a bod cyfleoedd i ymgysylltu drwy gamau bach, hyblyg, yn hytrach na disgwyl ymrwymiad llawn o'r cychwyn cyntaf.

Rydym yn credu felly fod cyfle i adolygu a datblygu'r Cynnig Cymraeg ymhellach, gan ymgorffori elfennau ymddygiadol, lefelau ymrwymiad graddol, a dull cliriach o gyfeirio busnesau—yn enwedig busnesau bach—at gymorth ymarferol megis mentrau iaith a gwasanaethau cefnogi fel Helo Blod.

Ymhellach, mae'r ymwneud â'r rhaglen yn ddibynnol ar ewyllys a pharodrwydd y sefydliadau i newid ac i ymgysylltu'n adeiladol â'r Comisiynydd. Deallwn mai un her i lwyddiant eang y Cynnig Cymraeg yw codi ymwybyddiaeth a dwyn perswâd ar fusnesau a sefydliadau i weithio gyda'r Comisiynydd. Rydym yn credu fod modd cynyddu lefelau ymwneud drwy amodau neu fel rhan o brosesau grantiau cyhoeddus. Yn debyg i'w Addewid Twf Gwyrdd, gall Busnes Cymru hyrwyddo'r Cynnig Cymraeg wrth ymwneud â busnesau, gan hyrwyddo a chynnig yn rhagweithiol y cyfle i ymrwymo i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Er mwyn derbyn grant Cronfa Her ARFOR er enghraifft, bu disgwyl i fusnesau ymwneud â'r Cynnig Cymraeg, a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Fe welwyd

cynnydd o ganlyniad i hyn mewn perthynas â defnydd ffurfiol mewnol ac allanol (Wavehill, 2025). Yn ogystal â'r cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, adroddodd bron hanner (48%) y busnesau fod y gwelliant i'w cynnig Cymraeg wedi helpu i ddenu cwsmeriaid newydd.

Dylid adolygu swyddogaethau Busnes Cymru i fanteisio i'r eithaf ar ei berthynas a'i ddylanwad ar sefydliadau a busnesau Cymru ar gyfer cynyddu'r Gymraeg yn y sector preifat. Dylid gwella sut mae'n cyfeirio busnesau at gymorth addas ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, a sut mae'n ymgysylltu â nhw i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn a thrwy'r busnesau. Mae hyn yn cynnwys helpu busnesau i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'u gwaith, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny—yn gwyno: cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. At hyn rydym yn troi ein sylw nawr.

5.9 Cyfrifoldeb ieithyddol corfforaethol

Yn ogystal â gosod amodau ar dderbyn grantiau cyhoeddus, gall sefydliadau fabwysiadu cyfrifoldeb corfforaethol ieithyddol. Gall hyn fod yn fodd i fusnesau a sefydliadau sicrhau ystyriaeth o'r Gymraeg fel elfen ganolog o'u heffaith gymdeithasol. Canfu ymchwil ar bolisïau iaith:

[...] bod arweiniad polisi cadarn sy'n gosod disgwyliadau clir i'r gweithwyr yn gwbl allweddol ar gyfer creu'r awyrgylch corfforaethol caniataol, a bod arweiniad polisi cadarn yn [...] fodd i hwyluso prosiectau, arferion a threfniadau i'r perwyl hwnnw

(Iaith Cyf, 2010)

Mae 'Model Cyfrifoldeb Ieithyddol Corfforaethol' (Galarraga ac Uranga, 2021) yn cynnig model ar gyfer integreiddio ymrwymïadau ieithyddol i strategaethau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae eu gwaith yn seiliedig ar egwyddorion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (ESG). Mae'r model yn amlinellu proses 6 cham i gwmnïau i ystyried iaith fel elfen o amrywiaeth ddiwylliannol ac effaith gymdeithasol.

Rydym yn cytuno bod '[c]ynsail yng Nghymru er mwyn datblygu yn bellach y syniad o annog cwmnïau i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt eu cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol' (Royles, 2025). Ymhellach, dylid ystyried Cyfrifoldeb Ieithyddol Corfforaethol yn ganlyniad naturiol i ddiwylliant cadarnhaol ynghylch y Gymraeg; proses o ffurfioli ymrwymiad sefydliadol tuag at yr iaith. Yn ymarferol, gall hyn olygu bod sefydliadau'n dechrau gyda chmau syml a gweledol i gefnogi'r Gymraeg, cyn symud dros amser tuag at ymrwymïadau mwy ffurfiol fel rhan o'u strategaeth cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Er mwyn hwyluso a chefnogi sefydliadau Cymru i wneud hyn, mae angen efelychu gwaith Gwlad y Basg, a sicrhau bod

sefydliadau a busnesau yn ystyried iaith fel elfen o'u cyfrifoldeb cymdeithasol. Gall Busnes Cymru ac eraill hyrwyddo'r model hwn wrth ymwneud â busnesau.

Mae sefydliadau datblygu economaidd yn chwarae rôl bwysig wrth osod normau a disgwyliadau ynghylch busnesau a sefydliadau. Mae ganddynt gyfrifoldeb corfforaethol ehangach i'r gymdeithas a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Un enghraifft o hyn yw Bargeinion Dinesig a Thwf sy'n creu swyddi ac yn buddsoddi yn economïau rhanbarthau Cymru. Serch hyn, canfu gwaith ymchwil diweddar mai '[...] ystyriaeth ymylol fu'r Gymraeg yn natblygiad Bargaen Twf Gogledd Cymru, Bargaen Twf Canolbarth Cymru a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe' (Lewis, 2025). Rhaid i sefydliadau o'r fath anelu'n uwch, a sicrhau fod cefnogaeth i weithleoedd a gweithluoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Yn ogystal â disgwyl i arweinwyr unigol allu arwain mewn gwlad ddwyieithog felly, dylid adolygu swyddogaethau a rôl y Partneriaethau Twf yn ogystal â Banc Datblygu Cymru a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig mewn perthynas â'r Gymraeg, er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu perthynas a'u dylanwad ar sefydliadau a phartneriaid. Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, dylai fod disgwyl i'r cyrff hyn fod yn arweinwyr blaengar ar y Gymraeg mewn perthynas â'u swyddogaethau, a dylai fod ganddynt arbenigedd cynllunio ieithyddol addas er mwyn llywio'u hymwneud â phartneriaid a gweithredu eu swyddogaethau yn briodol. Dylai'r cyrff fod yn arwyddbyst effeithiol i gymorth a chynghor ymarferol ynghylch defnydd y Gymraeg gan ac o fewn sefydliadau. Dylent hefyd wrth gwrs weithredu cyfrifoldeb ieithyddol cymdeithasol drwy eu holl waith.

5.10 Cynllunio'r gweithlu

Er mwyn i unigolion a thimau allu manteisio ar ddiwylliant sefydliadol cadarnhaol, a gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, mae angen cynllunio'r gweithlu er mwyn galluogi hynny. Golyga hyn fod angen cyfleoedd, gofodau a chymhelliant i siaradwyr Cymraeg gyfathrebu a gweithio gyda'i gilydd, ac i wneud hynny drwy'r Gymraeg. I wneud hyn, mae angen:

- adnabod a deall lefelau sgiliau ieithyddol y gweithlu
- cynorthwyo unigolion i wella'u sgiliau Cymraeg
- galluogi timau i gydweithio a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- recriwtio'n addas er mwyn ymateb i anghenion sgiliau ieithyddol y gweithlu dros amser
- sefydlu arferion defnydd iaith newydd yn y gweithle

Rydym yn ymwybodol o ystod eang o raglenni cymorth sydd ar gael i sefydliadau o bob math allu datblygu defnydd y Gymraeg yn y gweithle. Ond rydym yn awyddus i weld yr ystod o gymorth mewn perthynas â'r gweithle'n cael ei becynnu neu ei gydlyn yn effeithiol, a hynny o safbwynt y sefydliad dan sylw. Dylid defnyddio methodoleg 'taith y defnyddiwr' (Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol 2025) i wneud hyn. Pan fydd sefydliad yn ymwneud ag un o'r rhaglenni hyn, mae'n bwysig ei fod yn cael gwybod am raglenni ehangach ynghylch datblygu defnydd o'r Gymraeg,

yn cael ei gyfeirio atynt a'i annog i gymryd rhan ynddynt. Mae Arwain mewn Gwlad Dwyieithog yn un enghraifft bosibl o hyn.

5.10.1 Mesur sgiliau Cymraeg y gweithlu

Er mwyn sefydlu sail ar gyfer gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, mae angen deall sgiliau Cymraeg y gweithlu. Nododd adroddiad cam cyntaf y Comisiwn fod anghysondeb ynghylch arferion mesur hyfedredd iaith. O fesur sgiliau a hyfedredd y gweithlu, mae modd cynllunio a chefnogi ymdrechion i ddatblygu'r sgiliau a'r hyfedredd hynny yn fwy effeithiol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad ei bod yn bwysig i sefydliadau cyhoeddus fesur hyfedredd, gan ddefnyddio fframwaith gyffredin ar gyfer gwneud hynny, yn seiliedig ar y CEFR (*Common European Framework of Reference for Languages*). Rydym o'r farn fod yr argymhelliad hwn yn berthnasol i sefydliadau ar hyd Cymru, ac fe fydd mesuriadau cyson gan ddefnyddio fframwaith cyffredin yn sylfaen i gynllunio'r gweithlu'n effeithiol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod llawer o ddatblygiadau ar y CEFR ar y gweill fel rhan o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (Llywodraeth Cymru 2025c).

5.10.2 Datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu

Nododd Arolwg Defnydd Iaith 2019 i 2020 mai dim ond 33% o siaradwyr Cymraeg a nododd fod eu cyflogwr yn cynnig hyfforddiant neu gymorth i wella eu Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2023a). Mae angen i sefydliadau, a chyrrff cyhoeddus yn enwedig, hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith eu gweithluoedd. Wrth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gynnig cyfleoedd i'w rhaglen dysgu Cymraeg, mynegodd dros 400 o bobl ddiddordeb i ymuno â chwrs lefel mynediad.

Yn 2020, roedd 73 allan o tua 5,700 o staff Llywodraeth Cymru yn dilyn cwrs dysgu Cymraeg ffurfiol. O ganlyniad i strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg yn ei gweinyddiaeth fewnol, 'Cymraeg: mae'n perthyn i ni i gyd' (Llywodraeth Cymru 2020a), nifer y rhai oedd yn dysgu adeg llunio'r adroddiad hwn oedd 643 ac roedd 173 yn rhan o raglen fentora'r Gymraeg gan gydweithiwr. Mae hyn yn profi bod y galw a'r awydd gan staff i ddatblygu sgiliau pan fydd diwylliant y gweithle yn gefnogol a'r cynnig yn rhagweithiol.

Mae rhaglenni megis Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig hyfforddiant amrywiol, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr i gyflogwyr. Mae cefnogaeth ac adnoddau ar gael i ddatblygu sgiliau'r gweithlu. Yr her yw newid diwylliant o fewn y gweithle a gwneud y cynnig yn rhagweithiol i'r staff fanteisio arno.

Mae budd hefyd i sefydliadau greu cyfleoedd a gofodau i aelodau staff ddefnyddio'r Gymraeg, pa lefel bynnag eu Cymraeg, mewn ffyrdd anffurfiol a hwyliog. Mae astudiaethau achos y rhaglen Arwain Mewn Gwlad Ddwyieithog yn dangos bod gweithgareddau anffurfiol a chyfleoedd i sgwrsio yn Gymraeg yn meithrin hyder ac yn annog mwy o ddefnydd o'r iaith ymysg y gweithlu. Trwy roi pwyslais ar gryfderau unigolion, dathlu llwyddiannau bach, ac annog trafodaethau agored am brofiadau

Cymraeg, mae modd creu diwylliant gwaith lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd o fewn y gweithle. Mae annog defnydd anffurfiol hefyd yn helpu i leihau pryder ac annog pawb, gan gynnwys dysgwyr, i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg, gan gryfhau diwylliant ieithyddol mewn sefydliad. Mae annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg hefyd yn troi'r gweithle yn ofod ar gyfer cymdeithasoli'r iaith. Mae'n hanfodol bod gweithgareddau o'r fath yn cael eu cynnwys fel rhan o raglen ddatblygu sefydliadol sydd wedi'i thargedu at drawsnewid diwylliant sefydliadol o ran y Gymraeg.

5.10.3 Saernïo timau

Er mwyn hybu defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, rhaid cynllunio'r gweithlu fel bod unigolion yn cael cyfle i weithio gyda chydweithwyr sy'n medru'r Gymraeg. Os yw staff sy'n medru'r Gymraeg wedi'u gwasgaru ar draws sefydliad, bydd defnydd yr iaith yn ddibynnol ar hap a damwain neu gyd-ddigwyddiad fod aelodau sy'n medru'r Gymraeg yn digwydd cyfathrebu. O gynllunio timau gydag ystyriaeth o sgiliau ieithyddol, dros gyfnod o amser mae modd strwythuro cyfleoedd i'r gweithlu ryngweithio yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn Gymraeg.

Yn ogystal â chynllunio ffurfiol y gweithlu, mae creu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn elfen bwysig o gynyddu defnydd ymarferol o'r iaith. Gall gofodau isel eu risg megis sesiynau sgwrs dros banad, clwb cinio neu weithgareddau cymdeithasol anffurfiol ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i siaradwyr newydd a siaradwyr llai hyderus roi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg heb y pwysau sy'n aml yn gysylltiedig â chyd-destunau ffurfiol fel cyfarfodydd neu gyflwyniadau. Mae'r math hwn o weithgarwch yn cyd-fynd â mewnwelediadau'r gwyddorau ymddygiadol, gan greu amgylchiadau ffafriol lle mae defnyddio'r Gymraeg yn teimlo'n hawdd, yn gymdeithasol dderbyniol ac yn bleserus, ac yn gallu arwain at brofiadau cadarnhaol bach sy'n meithrin hyder dros amser. O ganlyniad, gall cyfleoedd anffurfiol chwarae rhan bwysig wrth normaleiddio'r Gymraeg fel rhan o ddiwylliant dydd-i-ddydd y gweithle.

5.10.4 Recriwtio staff fydd yn gweithio trwy'r Gymraeg

Yn ogystal â datblygu hyfedredd, a strwythuro cyfleoedd i weithio mewn timau sy'n medru'r Gymraeg, mae modd cynyddu'r gallu ar lefel sefydliadol drwy recriwtio unigolion sydd â sgiliau Cymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi pwysleisio fod rhoi sylw i sgiliau Cymraeg wrth recriwtio yn:

-
- *gwella gwasanaethau Cymraeg a chreu cyfleoedd i ddefnyddwyr siarad Cymraeg*
 - *cynyddu cyfleoedd i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith*

- *cynyddu ymwybyddiaeth sefydliadau o faterion sy'n effeithio ar y Gymraeg o ran llunio polisi a hybu'r Gymraeg yn gymunedol*

(Comisiynydd y Gymraeg 2020).

5.10.4.1 Heriau recriwtio staff fydd yn gweithio trwy'r Gymraeg

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a glywsom fod sefydliadau yn aml yn wynebu heriau i recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg. Ymhellach, rydym yn nodi dadl Royles fod arweiniad o'r fath 'yn berthnasol hefyd ar gyfer y sector fusnes a mentrau cymdeithasol' (2025 11), nid dim ond y sector cyhoeddus. Yr her yw sicrhau sut mae ysbryd a llythren y canllaw yn cael ei weithredu'n llwyr ledled Cymru. Er hyn, dengys tystiolaeth anecdotaidd y gallai hyn weithiau adlewyrchu dulliau recriwtio yn hytrach na diffyg ymgeiswyr addas. Yn benodol, gall methu â hysbysebu swyddi drwy sianeli lle mae siaradwyr Cymraeg yn chwilio am waith yn awtomatig—megis cyfryngau Cymraeg, platfformau swyddi penodol neu rwydweithiau Cymraeg—gyfyngu ar gyrhaeddiad hysbysebion. Yn y cyd-destun hwn, mae recriwtio yn rhan o'r ecosystem ieithyddol ehangach: mae dulliau wedi eu targedu, ac sy'n ymwybodol o'r Gymraeg, yn gallu cynyddu'r tebygolrwydd o ddenu siaradwyr Cymraeg, ac felly'n cyfrannu'n uniongyrchol at gynllunio'r gweithlu a chreu amodau ffafriol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (gweler hefyd Prys et al. 2024).

5.10.5 Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg

Yn ogystal â datblygu'r modd mae sefydliadau yn recriwtio, mae angen cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r diffyg yn y cynnig addysg bellach yn golygu y gall plant adael addysg cyfrwng Cymraeg a mynd ymlaen i addysg bellach, ond gan golli'r arfer o siarad Cymraeg, yn enwedig os ydynt yn dod o aelwyd lle na siaredir y Gymraeg. Atgyfnertha hyn y canfyddiad fod y Gymraeg yn iaith ysgol, ond nid yn iaith arferol i gyd-destunau eraill gan gynnwys addysg ôl-16 a'r byd gwaith. Mae'n afresymol disgwyl i weithlu, sydd wedi gwneud cymhwyster ar gyfer swydd trwy'r Saesneg, allu gweithio drwy'r Gymraeg yn syth, heb gymorth na diwylliant ehangach i fagu hyder ac arfer mewn amgylchiadau cefnogol sy'n annog hynny. Rhaid cefnogi'r gweithlu a darpar weithwyr drwy greu gofodau a chyfleoedd, a'u cymell i ddefnyddio'u Cymraeg o fewn addysg bellach a'r gweithle.

Rydym o'r farn fod angen datblygu'r ddarpariaeth o gyrsiau hyfforddi o bob math sydd yn arfogi dysgwyr gyda'r gallu ieithyddol a thechnolegol i weithio mewn gwlad ddwyieithog. Cafodd hyn ei gadarnhau wrth i ni glywed gan swyddogion ieuenctid am ddiffyg cyrsiau galwedigaethol a phrentisiaethau trwy'r Gymraeg. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar fusnesau sydd yn ceisio recriwtio gweithwyr sydd â sgiliau ac wedi arfer gwneud defnydd o'u Cymraeg o fewn y gweithle.

Canlyniad gweithredu cynlluniau o'r fath fyddai mwy o gyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg yn parhau i ddefnyddio'r iaith o fewn addysg bellach, a mwy o bobl mewn swyddi galwedigaethol sydd yn medru ac wedi arfer defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol.

5.10.6 Sefydlu arferion ieithyddol newydd

O sefydlu timau sydd yn gallu ac yn barod i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, hyd yn oed ar raddfa gymharol fach, mae modd manteisio ar dechnegau i gynorthwyo hynny.

5.10.6.1 *Technegau rhyngwladol arloesol*

Mae technegau arloesol ar waith yn rhyngwladol sydd yn cynnig ffyrdd o sefydlu arferion iaith o fewn gweithleoedd. Mae methodoleg 'Eusle' ('angor iaith') yn ffocysu ar grŵp neu dîm sydd ag awydd i gynyddu'r defnydd o iaith arall o fewn y gweithle fel Basgeg neu Gymraeg. Cafodd ei datblygu fel rhan o Brosiect Ymchwil Aldahitz a chafodd ei rhoi ar waith mewn sefydliadau cyhoeddus a chwmnïau preifat. Mae'r fethodoleg yn ddibynnol ar rai aelodau o'r tîm yn chwarae rôl 'Eusle' neu'r 'angor.' Rhaid i weddill y tîm gytuno i beidio â gofyn i'r 'Eusle' i newid cyfrwng ei iaith (Basgeg) am gyfnod penodedig o amser. Mae'r fethodoleg yn syml, heb gost, ac mae wedi arwain at gynydd yn y defnydd o Fasgeg gan y tîm yn ystod ac ar ôl y cyfnod penodedig. Mae'r model hwn hefyd yn adeiladu ar gonsensws ymysg y tîm eu bod am gyrraedd y nod o gynyddu eu defnydd o'r iaith yn y gweithle, a bod gan bawb ei rôl yn y prosiect. Yn hynny o beth mae'r sawl sy'n 'angor iaith' yn cyflawni swyddogaeth ar ran y tîm i gyd, yn hytrach na gwneud safiad personol i beidio â newid iaith. Gan fod angen i bob aelod o'r tîm fedru'r iaith leiafrifedig i ryw raddau, mae'r model yn ddibynnol ar:

- gynllunio gweithlu a saernïaeth timau effeithiol
- cyd-destun ehangach gan gynnwys system addysg lle mae'r iaith yn gyfrwng dysgu ar gyfer rhan helaethaf y boblogaeth

5.10.6.2 *Technegau arloesol yng Nghymru*

Mae ARFer, sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddatblygu gan Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor, wedi'i gynllunio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle drwy newid arferion iaith ymhlith staff. Wedi'i seilio ar wyddor ymddygiad a methodoleg Eusle, mae ARFer yn annog cydweithwyr i wneud:

- 'addewidion ymddygiadol'
- ymrwymïadau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd penodol neu gyda chydweithwyr penodol

Rydym yn credu fod methodoleg o'r fath, lle mae pobl yn ymrwymo i newid, yn arbennig am gyfnod penodol o amser, yn fodd effeithiol o gymell a chynnal newid. Drwy wneud y defnydd o'r Gymraeg yn nod tîm a rennir, yn hytrach na her unigol, mae ARFer yn helpu i normaleiddio'r iaith mewn lleoliadau gwaith. Mae'n disodli'r

angen i unigolion fod yn ddewr a hyderus o fewn sefydliad, ac yn sicrhau bod defnyddio hynny o Gymraeg sydd gan aelod o staff yn hwylus ac yn hawdd. Mae'r addewidion hyn yn cael eu cefnogi gan gytundebau iaith o fewn timau.

Mae'r dull yn ddibynol ar ddiwylliant o fewn y gweithle sydd yn parchu ac yn cefnogi'r timau a'r unigolion hynny sydd yn awyddus i newid eu harferion ieithyddol. Mae'n ddull hyblyg a chynhwysol, gan ddarparu ar gyfer pob gallu, o ddechreuwr i siaradwyr rhugl, ac mae wedi'i gynllunio i fod yn hawdd ac yn bleserus i'w weithredu.

Mae ARFer wedi ei ddylunio ar gyfer defnydd o fewn gweithleoedd rhithiol yn ogystal ag mewn swyddfeydd. Mae hefyd yn ei fenthyg ei hun i'r cysyniad o sgysiau dwyieithog, lle mae unigolyn yn ymrwmo i 'ddeal' Cymraeg gan rywun arall, ond i ateb naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg.

Ers ei gyflwyno, mae ARFer wedi dangos effaith fesuradwy. Mae timau sy'n cymryd rhan wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Clywodd y Comisiwn am ganlyniadau treial, lle nododd 82% o 704 ymateb, gan gynnwys timau o Lywodraeth Cymru, fod gwneud tasg o fewn ap ARFer wedi cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn sylweddol. Roedd 57% o'r parau a oedd yn defnyddio ARFer yn y treial hwn yn cynnwys o leiaf un person oedd yn nodi eu bod yn 'siarad Cymraeg yn aml.' Mae hyn yn awgrymu bod ARFer yn ateb y galw ymhlith y garfan hon o siaradwyr am gefnogaeth i ddefnyddio Cymraeg yn y gwaith.

Mae angen mwy o gymorth ac arweiniad ymarferol i gynorthwyo sefydliadau i sefydlu arferion ieithyddol newydd. Mae angen cefnogi busnesau a sefydliadau i fabwysiadu rhaglen ARFer a dulliau eraill arloesol sy'n cynyddu'r defnydd anffurfiol ac mewnol o'r Gymraeg. Mae hyn yn cryfhau'r diwylliant ieithyddol o fewn y gweithle ac yn annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rhyngweithiadau bob dydd.

5.10.6.3 Swyddogion iaith a chynllunwyr iaith organig

Mae swyddogion iaith yn ogystal â lluo o unigolion ymrwymedig sy'n arwain newid ieithyddol o fewn sefydliadau mewn modd llai ffurfiol, animateurs at ddibenion yr adroddiad hwn, yn ganolog i ymdrechion i gynyddu a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Yn aml, mae'r unigolion hyn yn gweithredu fel catalyddion dros newid. Maent yn:

- cefnogi ac ysbrydoli cydweithwyr i fabwysiadu arferion ieithyddol newydd
- cefnogi unigolion i wella eu sgiliau
- hyrwyddo mentrau dwyieithog
- hwyluso gweithredu polisïau iaith

Fodd bynnag, nid oes hyfforddiant achrededig neu wedi'i safoni ar gael ar hyn o bryd ar gyfer swyddogion iaith ffurfiol na ffynhonnell o gymorth a chefnogaeth ymarferol i animateurs iaith gweithleoedd. Clywsom gan swyddogion iaith fu'n mynegi pryder ynghylch diffyg arweiniad o ran gweithredu gofynion y safonau. Fe wnaethon ni

hefyd dderbyn tystiolaeth ynghylch amrywiaeth yr ymagweddau tuag at y Gymraeg sydd i'w gweld mewn sefydliadau ledled Cymru. Heb arweinyddiaeth gefnogol, hyfforddiant a chefnogaeth, mae'r unigolion hyn yn gweithredu, i raddau, mewn modd sy'n eu hynysu.

Mae hyn yn tanlinellu'r angen am gymorth penodol i swyddogion iaith ac unrhyw animateurs neu gynllunwyr iaith answyddogol sy'n gweithredu mewn sefydliadau. Fel yn achos llawer o'n casgliadau, dylai'r gwyddorau ymddygiadol fod yn ganolog i hyn.

Er mwyn i'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned, dylid adeiladu ar y gwaith, y profiad a'r seilwaith sydd eisoes wedi'u sefydlu, a'u cyfoethogi drwy ddod â syniadau a dulliau o ddisgyblaethau eraill i'r maes. Un enghraifft (ymhlith llawer) o hyn yw methodoleg datblygu sefydliadol. Dylai sefydliadau eu hunain arwain y gwaith hwn, gyda chefnogaeth arbenigwyr mewn datblygu sefydliadol a newid ymddygiad. Wrth reswm, mae gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg rôl bwysig i'w chwarae wrth gynorthwyo'r gwaith hwn, ond dylid ystyried 'taith' pob sefydliad tuag at y Gymraeg drwy lygaid y sefydliad hwnnw ei hun. Dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ffurfio partneriaeth i hwyluso'r dull hwn.

Yn y bôn, mater cymdeithasegol yw iaith, ac felly dylid mabwysiadu egwyddor 'taith y defnyddiwr', er mwyn cynorthwyo i ddod â phobl ar y daith ddwyieithog. Mae sicrhau lle canolog i ddod o hyd i ddeunyddiau a gwybodaeth berthnasol yn elfen fach o'r darlun hwn, ond mae angen meddwl yn fwy uchelgeisiol na model 'siop un-stop.' Mae'n bwysig nodi na ddylai hyn fod ar ffurf cwrs achrededig neu gymhwyster yn unig. Yn hytrach dylai fod yn ffynhonnell o gymorth i alluogi animateurs a swyddogion iaith unigol i fynd ati i greu newid o fewn eu gweithleoedd. Rhaid pwysleisio prosesau sydd yn rhwydd, yn hwylus, yn gymdeithasol ac yn amserol, hynny yw, rhai sy'n dilyn y dulliau CAM-Y a HAPUS a grybwyllwyd yn gyntaf yn adrannau 3.4 a 3.5.

5.11 Technoleg yn y gweithle dwyieithog

Mae datblygiadau technolegol diweddar wedi creu cyfleoedd i gefnogi ac ysgogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r datblygiadau technolegol hyn yn galluogi unigolion i ymgymryd â'u gwaith drwy'r Gymraeg yn ogystal â chaniatáu timau i weithio'n ddwyieithog (er enghraifft drwy gyfieithu peiranyddol). Mae'r dechnoleg hefyd yn fodd o gefnogi unigolion sydd yn credu nad oes ganddynt hyder yn eu sgiliau iaith, i ddefnyddio mwy o'u Cymraeg yn y gweithle. Mae'r dechnoleg eisoes yn bodoli, ac yn gwella'n barhaus.

Yr her yw sicrhau bod gweithleoedd a gweithluoedd yn manteisio ar y dechnoleg i hwyluso a chefnogi timau ac unigolion i wneud defnydd cynyddol o'u Cymraeg. Ynghyd â hyn, rhaid sicrhau fod y dechnoleg yn parhau i ddatblygu a gwella (mewn modd sy'n hygyrch i bawb ac yn cyd-fynd â'r 'Cynllun Hawliau Pobl Anabl').

O wneud, mae modd symud o sefyllfa lle caiff cynnwys ei gynhyrchu'n bennaf yn Saesneg i'w gyfieithu i'r Gymraeg, i sefyllfa lle caiff cynnwys ei gynhyrchu yn

Gymraeg, gan ddefnyddio sgiliau unigolion a thechnoleg i gynorthwyo hynny, ac i greu fersiynau Saesneg cyfatebol.

Mae anghenion ieithyddol dogfennau yn amrywio yn ôl cyd-destun, cynulleidfa a chynnwys. Mewn rhai achosion, efallai mai dim ond fersiwn Gymraeg fydd ei hangen (e.e. wrth ymateb i ddogfen Cymraeg fewnol), tra mewn achosion eraill bydd angen fersiwn Saesneg neu ddwyieithog lawn hefyd. Mae cydnabod yr amrywiaeth hon yn bwysig o safbwynt model newid ymddygiad CAM-Y, gan ei bod yn llywio'r 'Amgylchiadau' sydd gan unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymarferol. Pan fo disgwyliadau'n hyblyg ac yn gydnaws â'r cyd-destun, mae'r amgylchiadau'n fwy ffafriol i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan arferol o lif gwaith, yn hytrach nag fel tasg ychwanegol.

Pan fo'r sgiliau ieithyddol a'r gallu priodol yn bodoli, gall drafftio'n uniongyrchol yn Gymraeg fod yn ffordd effeithiol o gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle, gan gryfhau 'Medr' unigolion drwy ymarfer rheolaidd. Gall technoleg iaith gefnogol, felly hefyd wasanaethau gwirio testun, chwarae rhan bwysig wrth ostwng y rhwystr rhag gweithredu-yn-gyntaf, yn enwedig mewn cyd-destunau risg isel neu fewnol. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae dogfennau'n faith neu'n gymhleth, neu lle mae pwysau gwaith sylweddol, gall fod yn fwy realistig galw ar wasanaethau cyfieithu proffesiynol—gan alluogi drafftio yn Gymraeg yn y lle cyntaf, cyn trosi i'r Saesneg lle bo angen.

Mae'r disgwyliadau o ran cywirdeb ieithyddol hefyd yn amrywio yn ôl cyd-destun, ac mae hyn yn gallu effeithio ar y 'Cymhelliant' sydd gan unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Mewn dogfennau mewnol, gall derbyn lefel resymol o amherffeithrwydd greu amgylchedd mwy di-risg sy'n annog defnydd o'r Gymraeg. Mewn cyd-destunau allanol neu sensitif, megis dogfennau polisi neu ddatganiadau cyhoeddus, mae'r risgiau'n uwch, ac felly gall cymorth cyfieithwyr neu olygu proffesiynol fod yn briodol. Mae gwneud y gwahaniaethau hyn yn eglur yn helpu sefydliadau i gydbwyso ansawdd a risg, ac i greu system lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n amlach oherwydd bod yr amodau ymddygiadol yn gefnogol.

Un o'r prif rwystrau rhag cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yw arferion ieithyddol sydd eisoes wedi eu sefydlu; yn benodol, unigolion sydd wedi arfer peidio â defnyddio'u sgiliau Cymraeg, yn enwedig ar gyfer tasgau ffurfiol. Gall technoleg helpu i fagu arferion newydd mewn ffyrdd rhwydd a hwylus ymysg y gweithlu, a'u cefnogi i ddefnyddio'u sgiliau gyda chymorth cyfieithu peirianyddol neu gynorthwywyr deallusrwydd artiffisial (AI). Mae'n bwysig bod y dechnoleg yn hygyrch ac yn hwylus i'w defnyddio fel ei bod hi'n hawdd i bobl ddefnyddio mwy o'u Cymraeg, a magu hyder wrth wneud. Mae hynny'n golygu rhagor o waith gyda chwmnïau meddalwedd mawr er mwyn eu helpu i ddeall achosion defnydd gwledydd dwyieithog, a gwaith i sicrhau bod y dechnoleg iaith sydd eisoes yn bodoli yn cyrraedd y defnyddiwr yn y pen draw.

5.11.1 Llywio datblygiadau technolegol

Rydym yn cydnabod gwaith Llywodraeth Cymru, yn unol â'i Chynllun gweithredu technoleg Cymraeg (2018 i 2024) a bellach, o dan ei blaenoriaethau technoleg Cymraeg a deallusrwydd artiffisial (AI), i hybu cynnydd yn y defnydd o dechnoleg yn y gweithle a thu hwnt (gweler Llywodraeth Cymru, 2018; 2025). Yn ogystal â chynyddu'r defnydd bob dydd, mae pwyslais ar sicrhau bod technoleg Cymraeg yn cyrraedd y defnyddiwr a'r datblygwyr yn ogystal â gwella deallusrwydd artiffisial. Nododd adroddiad cam cyntaf y Comisiwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnig arweiniad ym maes technoleg iaith. Mae angen hefyd roi pwyslais ar gefnogi ac annog sefydliadau i fabwysiadu a defnyddio technoleg er mwyn hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae Gwlad y Basg wedi gwneud gwaith tebyg drwy eu Cynllun Gweithredu Technoleg iaith y Fasgeg (2021 i 2024). Ei nod yw sicrhau lle canolog i'r Fasgeg yn yr oes ddigidol drwy ddatblygu a defnyddio technolegau fel cyfieithu peirianyddol, adnabod llais ac adnoddau ieithyddol (Eusko Jaurlaritza Gobierno Vasco 2022). Mae'n fenter sydd wedi'i harwain gan Lywodraeth Gwlad y Basg, ac fel Llywodraeth Cymru, mae'n cydweithio gyda'r sector preifat ac academiaidd ar greu a rhannu adnoddau yn agored.

5.11.2 Technoleg sy'n cefnogi defnydd unigolion

Mae datblygiadau technolegol diweddar yn cefnogi unigolion i ddefnyddio faint bynnag o Gymraeg sydd ganddynt yn y gweithle. Er enghraifft, gyda chyllid Llywodraeth Cymru, mae Cysgliad (gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg a gafodd ei gomisiynu'n wreiddiol gan Fwrdd Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg yn 1989) bellach ar gael yn rhad ac am ddim i:

- unigolion
- y trydydd sector a'r sector addysg
- sefydliadau â llai na 10 swyddog

Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) wedi cyhoeddi 'Ysgrifennu triawd' hefyd sy'n amlinellu dull newydd o weithio ar y cyd i greu cynnwys dwyieithog sy'n hawdd ei ddarllen (Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol 2023).

O dan bartneriaeth gyda Microsoft, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydweithio i greu cyfleuster cyfieithu ar y pryd yn Teams. Mae'r bartneriaeth honno bellach yn cynnwys gwaith ar Copilot yn Gymraeg, adnodd AI Microsoft. Mae'r drwydded Copilot bellach yn cynnwys cyfieithu capsiynau byw hefyd sy'n gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd. Mae hyn oll yn hwyluso cyfathrebu dwyieithog yn y gweithle, gan ganiatáu i unigolion gyfrannu at sgysiau a chyfarfodydd yn y 2 iaith.

At ei gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn lleihau rhwystrau ac yn ei gwneud hi'n haws i unigolion ddefnyddio mwy o'u Cymraeg yn y gweithle.

5.11.2.1 Technoleg sy'n hwyluso defnydd

Er mwyn cefnogi a chymell defnydd o dechnoleg Cymraeg, clywsom ei bod yn bwysig sicrhau fod y gwasanaethau technolegol hynny'n hygyrch ac yn hwylus i'w defnyddio. Rhaid i'r cyfle a'r cynnig i'w defnyddio fod yn rhagweithiol ac fe ddylai'r cyfrifoldeb hynny fod ar wneuthurwyr.

Er enghraifft, yn ystod oes 'Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg' Llywodraeth Cymru, fe wnaeth y Llywodraeth newid rhyngwyneb Microsoft 365 ar blatfform Hwb i'r Gymraeg oedd yn meddwl bod tua 80,000 o ddefnyddwyr bellach yn defnyddio rhyngwyneb Gymraeg heb orfod gofyn. Enghraifft arall sy'n fewnol i Lywodraeth Cymru yw'r ap 'Cymraeg mewn clic', sy'n darparu profiad Cymraeg llawn ar liniadur gwaith drwy un clic (rhyngwynebau, bysellfwrdd ac acenion Cymraeg ayb) (Llywodraeth Cymru 2024).

Dyma rai enghreifftiau o sut gall technoleg ei gwneud hi'n haws i unigolion ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle. Yr her nesaf yw'r angen am newid ymddygiadol er mwyn mabwysiadu a manteisio ar y dechnoleg hon. Rydym yn credu y dylai'r cyfrifoldeb yma fod ar wneuthurwyr a sefydliadau i gydnabod diwylliant dwyieithog Cymru a chynnig dewisiadau iaith yn rhagweithiol heb ddisgwyl i ddefnyddwyr wneud hyn o'u pen a'u pastwn eu hunain.

5.12 Mudiadau a mentrau cymdeithasol fel gweithleoedd

Fe wnaeth adroddiad cam cyntaf y Comisiwn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

'ddyfeisio a chefnogi rhaglen i ledaenu modelau datblygu cymunedol llwyddiannus ar draws ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan ddefnyddio arbenigedd ac arfer da sydd eisoes yn bodoli'n lleol (Argymhelliad 21).' Rydym hefyd o'r farn bod gan fudiadau a busnesau cymdeithasol rôl bwysig i'w chwarae mewn ardaloedd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg. Yn ystod ein gwaith, daeth yn amlwg bod mudiadau a busnesau cymdeithasol yn chwarae rôl bwysig mewn cymunedau ledled Cymru, gan lenwi bylchau mewn gwasanaethau neu ddarpariaeth sydd wedi'u colli oherwydd cyfyngiadau ariannol a diffyg buddsoddiad.

Oherwydd hyn, rydym yn ystyried fod gan fudiadau a busnesau cymdeithasol rôl werthfawr i'w chwarae nid yn unig o ran cyfrannu at economi Cymru, ond hefyd o ran cefnogi a chynnal tirlun ieithyddol ardaloedd, gan gynnwys ardaloedd lle mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn ganolig neu'n is. Wrth i ni drafod â mudiadau a busnesau cymdeithasol yn y gogledd orllewin, daeth i'r amlwg eu bod yn llenwi bylchau mewn gwasanaethau, gweithgareddau hamdden ac adnoddau cymunedol yn gyffredinol. Ond yn ogystal, mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'u gwaith a'u darpariaeth. Fel y dywedodd un Fenter yn y gogledd:

Da ni'n gweithredu'n Gymraeg heb feddwl am y peth

5.12.1.1 *Enghreifftiau o fudiadau cymdeithasol*

Yn yr adran hon, rydym yn esbonio gwaith dau fudiad cymdeithasol. Er eu bod wedi eu lleoli y tu allan i gylch gwaith daearyddol ail gam y Comisiwn, rydym yn eu defnyddio yma fel enghreifftiau cysyniadol i ddangos sut mae prosesau cymdeithasoli iaith, normau ieithyddol a 'gofodau Cymraeg' mudiadau cymdeithasol Cymraeg yn gweithredu'n ymarferol—prosesau sydd, er eu bod wedi'u gwreiddio mewn cyd-destunau dwysedd uwch, yn cynnig gwersi trosglwyddadwy a pherthnasol i gymunedau ar draws Cymru gyfan, gan gynnwys ardaloedd dwysedd canolig ac is. Un enghraifft nodedig yw Cwmni Bro ym Mlaenau Ffestiniog, mudiad cymdeithasol uchelgeisiol sy'n gweithio ar draws ystod eang o sectorau. Ymhlith y sectorau hyn mae:

- gwaith ieuenctid
- lletygarwch
- eiddo
- y diwydiannau creadigol
- addysg
- bwyd
- iechyd
- tlodi tanwydd

Mae'r cwmni'n cyflogi tua 160 o bobl o'r ardal leol ar delerau teg, gan gynnwys y cyflog byw gwirioneddol. Mae'r rhan helaeth o'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r Gymraeg, gan sicrhau bod yr iaith yn parhau'n berthnasol ac yn weledol mewn bywyd bob dydd ac o fewn meysydd proffesiynol a sectorau amrywiol.

Mae Partneriaeth Ogwen ym Methesda yn fudiad cymunedol sy'n gweithredu i adfywio a chryfhau'r ardal drwy brosiectau sy'n seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd, datblygiad economaidd lleol a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn flaenllaw mewn mentrau megis creu swyddi gwyrdd, datblygu tai fforddiadwy a chefnogi busnesau bach lleol, gan wneud hynny oll mewn cyd-destun sy'n rhoi'r Gymraeg wrth galon y gwaith.

5.12.1.2 *Enghraifft o fentrau cymdeithasol*

Mae mentrau cymdeithasol wedi bod yn gweithio fel rhan o Cymunedoli Cyf, sef rhwydwaith o 22 o fentrau cymdeithasol ledled Gwynedd a gafodd ei sefydlu yn 2023. Fel rhan o Cymunedoli, cafodd rhwydwaith cydweithredol ei ffurfio sy'n rhannu profiad ac adnoddau i gefnogi ei gilydd. Trwy gydweithio o dan yr ymbarél hwn, mae'r sefydliadau'n gallu cryfhau eu heffaith leol a datblygu dulliau gwaith sy'n rhoi cymunedau wrth wraidd pob penderfyniad tra'n cydweithio gyda'i gilydd. Trwy rannu profiad, adnoddau ac arbenigedd, mae Cymunedoli yn grymuso mentrau i greu atebion sy'n gweithio'n uniongyrchol er budd y gymuned. Yn y bôn, mae Cymunedoli

yn gymuned o gymunedau sy'n cefnogi ei gilydd i greu dyfodol mwy cynaliadwy a hunangynhaliol.

5.12.1.3 Effeithiau cadarnhaol mudiadau a busnesau cymdeithasol

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos yn glir nad yw'r effaith gadarnhaol gan fudiadau a busnesau cymdeithasol yn gyfyngedig i'r economi leol yn unig. Maent hefyd yn cyfrannu'n ymarferol ac ystyrlon at ddyfodol y Gymraeg, drwy ei gwneud yn berthnasol, yn weladwy ac yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Mae cydnabyddiaeth y gall modelau fel hyn fod yn llwyddiannus mewn ardaloedd dwysedd canolig ac is ac mae Rhwyd (rhwydwaith sy'n cefnogi mentrau cymunedol sy'n gweithio ar draws meysydd adfywio economaidd ac adfywio ieithyddol, gyda ffocws arbennig ar hyrwyddo'r Gymraeg) yn un enghraifft o hyn.

Nid cwmni masnachol mo Rhwyd, ond platfform cydweithio sydd â'r nod o feithrin dulliau creiddiol o ddatblygu cymunedau. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith a Cymunedoli Cyf, ac mae'n cael ei ariannu gan y Building Communities Trust (BCT). Prif amcan Rhwyd yw gweithredu fel pont rhwng gwahanol fentrau cymunedol fel y gallant rannu profiadau, cefnogi ei gilydd a datblygu atebion cynaliadwy sy'n diwallu anghenion pob cymuned. Mae'r rhwydwaith yn hwyluso trafodaethau creadigol ac adeiladol rhwng mentrau amrywiol, gan feithrin cydweithredu ac arloesedd.

Drwy'r gwaith hwn, mae Rhwyd yn ceisio meithrin model cymunedol o adfywio economaidd ac ieithyddol sy'n addas i amrywiaeth o gyd-destunau lleol. Un o'i nodau ehangach yw sicrhau lle amlwg i leisiau'r mentrau hyn mewn trafodaethau polisi ar lefel Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. I'r perwyl hwn, mae Rhwyd yn dadlau dros ddull datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar ddwyieithrwydd ac ar rymuso cymunedau eu hunain fel ffordd gynaliadwy a gwerthfawr o gefnogi'r Gymraeg a chryfder economaidd lleol. Fel y nododd cynrychiolydd Rhwyd:

Effaith ar y Gymraeg? Mae'n ganolog i popeth da ni'n neud

5.12.1.4 Sut mae mentrau a busnesau cymdeithasol yn ymgorffori'r Gymraeg

Er nad yw Mentrau a Busnesau Cymdeithasol Cymru fel rheol o dan ofynion iaith statudol, mae gwaith Royles (2025) yn dangos eu bod yn ymgorffori'r Gymraeg drwy:

- fod â pholisi iaith clir sy'n cael ei ddeall gan staff a gwirfoddolwyr
- trin yr iaith a'r diwylliant fel un o 4 piler cynaliadwyedd, ochr yn ochr â'r economi, y gymuned a'r amgylchedd, gyda'r egwyddor hon yn cael ei gwreiddio mewn cynllun strategol mewnol
- delwedd gyhoeddus sy'n pwysleisio gweinyddu naturiol drwy'r Gymraeg
- gofyniad i staff allu siarad Cymraeg, gyda hyfforddiant a rhaglenni cynefino Cymraeg i adnabod ac ategu unrhyw fylchau sgiliau

- buddsoddi mewn datblygu sgiliau iaith staff drwy gyrsiau a chyfleoedd dysgu
- trefniadau cyfieithu ar gyfer prosiectau neu wirfoddolwyr nad ydynt yn hyderus yn y Gymraeg, gan gynnwys cyfieithu ar y pryd neu sibrwd pan fo angen
- datblygu gofodau gwaith Cymraeg, megis unedau a chydweithfeydd, i feithrin amgylchedd gweithio Cymraeg

Yn ogystal, clywsom am yr angen i feithrin cadernid ieithyddol yn gyson o fewn mentrau cymdeithasol (gweler '[LISTEN: Linguistic Assertiveness for Minority Language Speakers](#)'). Er bod unigolion, yn enwedig arweinwyr, yn chwarae rhan bwysig, clywsom fod y Gymraeg angen ei gwreiddio'n naturiol yn niwylliant y sefydliad ei hun. I wneud hyn yn ymarferol, awgrymwyd cynnwys cwestiynau rheolaidd mewn cyfarfodydd prosiect am sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio a pha gamau sy'n cael eu gweithredu i'w hintegreiddio'n systematig (Royles 2025).

5.13 O egwyddorion i ymarferion: gweithleoedd fel gofodau cymdeithasoli

Mewn gweithleoedd lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith ddyddiol, gall llwybrau graddol i ddefnyddio'r iaith fod yn arbennig o effeithiol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, annog dysgwyr i ddechrau gyda ymadroddion syml mewn cyfarfodydd (megis cyfarchion, diolchiadau neu ymatebion byr), cyn symud ymlaen i gyfrannu'n raddol yn ôl eu profiad. Mae'r math hwn o ddull 'gweithredu yn gyntaf' yn cyd-fynd â'r gwyddorau ymddygiadol yr ydym wedi eu hamlinellu mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, lle mae hyder yn deillio o brofiadau llwyddiannus bach, yn hytrach nag o feistrolï ffurfiol cyn gweithredu.

Er mwyn osgoi trin y gweithle fel gofod damcaniaethol yn unig, rydym yn tynnu sylw at enghreifftiau ymarferol o sut y gellir normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Gall hyn gynnwys:

- timau neu adrannau sy'n gweithredu'n ddiofyn drwy'r Gymraeg, hyd yn oed o fewn sefydliadau mwy Saesneg eu naws
- arweinyddiaeth sy'n modelu defnydd naturiol o'r Gymraeg yn hytrach na dibynnu ar bolisiau ffurfiol yn unig
- defnyddio technoleg (systemau mewnol, offer cydweithio, deallusrwydd artiffisial) i leihau'r llwyth ar unigolion
- cydnabod a chefnogi sgiliau Cymraeg staff fel rhan o ddatblygiad proffesiynol, nid fel gofyniad statudol yn unig

Mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is, gall camau o'r fath droi'r gweithle yn ofod cymdeithasoli ieithyddol pwysig i oedolion, gan bontio'r bwlch rhwng addysg a defnydd cymunedol.

6 Diweddsglo

Mae'r adroddiad hwn wedi mynd i'r afael â sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is o siaradwyr, gan ddechrau o realiti cymdeithasol cymunedau sy'n amrywiol o ran daearyddiaeth, dosbarth, hunaniaeth ac ieithoedd. Nid yw'n cynnig atebion syml nac yn honni bod modd gwyrddroi tueddiadau cymhleth drwy ymyriadau unigol yn unig. Yn hytrach, mae'n gosod sylfaen ddadansoddol ar gyfer datblygu polisi sy'n realistig, yn gydlynus ac yn ymateb i'r cyd-destunau hyn.

Mae'r Comisiwn yn glir am rôl ganolog y system addysg o ran cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg a chynyddu defnydd o'r iaith. Bydd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn gyfraniad mawr i hyn. Fodd bynnag, mae angen gofodau cymdeithasol, diwylliannol a gwaith lle gall yr iaith gael ei defnyddio'n awtomatig wedi'r ysgol. Dylid gweld ymyriadau'r adroddiad hwn, felly, nid fel dewis amgen i'r system addysg, ond fel y cam hanfodol nesaf i sicrhau parhad defnydd.

Ym mhennod 1 ('Cyflwyniad i'r adroddiad'), gosodwyd cyd-destun y gwaith drwy leoli'r Gymraeg o fewn tiriogaeth gymdeithasol ac ieithyddol Cymru gyfan. Iaith sy'n perthyn i bawb ym mhob rhan o Gymru—a'r tu hwnt—yw'r Gymraeg, ond yn yr ardaloedd y mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â hwy, nid y Gymraeg yw'r iaith gymdeithasol ddiofyn yn aml iawn. Un o gyfraniadau allweddol yr adroddiad yw symud y drafodaeth oddi wrth syniadau sy'n cysylltu defnydd cymunedol o'r Gymraeg â dwysedd daearyddol yn unig, ac at ddealltwriaeth ehangach o'r iaith fel adnodd cenedlaethol sy'n perthyn i gymunedau dwyieithog ac amlieithog ledled Cymru.

Yn mhennod 2 ('Cyd-destun cymdeithasol y Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is'), archwilir y cyd-destun cymdeithasol ehangach sy'n siapia defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd o'r fath. Tynnir sylw at rôl dosbarth cymdeithasol, amddifadedd, cyfalaf diwylliannol a mynediad at gyfleoedd lleol, gan ddangos nad yw defnydd (neu ddiffyg defnydd) o'r Gymraeg yn deillio o ddiffyg ewyllys na hyder personol yn unig. Mae'r bennod hon yn pwysleisio bod polisi iaith sy'n anwybyddu'r ffactorau strwythurol hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig ei effaith, waeth pa mor gadarn yw ei fwriad. Nid yw'r Gymraeg yn bodoli mewn gwagle, ond yn rhan o ecosystem ieithyddol, ddiwylliannol a chymdeithasol ehangach sy'n cynnwys ieithoedd, hunaniaethau a phrofiadau amrywiol. Nod yr adroddiad hwn felly yw gwreiddio'r Gymraeg yn gadarn o fewn gwead amlieithyddol cymunedau Cymru, mewn ffordd sy'n hybu cydlynid cymdeithasol, parch ieithyddol a pherthyn. Mae'r Comisiwn yn glir nad yw cryfhau'r Gymraeg mewn cymunedau dwyieithog ac amlieithog yn ymwneud â chreu systemau cyfochrog. I'r gwrthwyneb, mae'n gofyn am ofodau lle gall plant, teuluoedd a chymunedau ffurfio perthnasau ar draws ieithoedd a chefnidiroedd.

Yn y cyd-destun hwn, dylid gweld y Gymraeg fel adnodd cymdeithasol sy'n cyfrannu at gydlyniant. Dim ond drwy wreiddio'r Gymraeg yn y profiad cymunedol ehangach y gellir sicrhau ei bod yn cyrraedd pob cymuned.

Mae pennod 3 ('Trosglwyddo a chymdeithasoli iaith') yn cyflwyno un o brif symudiadau cysyniadol yr adroddiad drwy ail-fframio trosglwyddo'r Gymraeg fel proses gymdeithasoli ehangach. Gan dynnu ar dystiolaeth ystadegol, ar ymchwil ymddygiadol ac ar brofiad rhyngwladol, mae'r bennod yn dadlau bod canolbwyntio ar y teulu yn unig yn annigonol mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is. Yn benodol, mae'r defnydd o fodel CAM-Y (Cymhelliant/Amgylchiadau/Medr = Ymddygiad) a'r fframwaith HAPUS (Hawdd, Amserol, Pleserus, Undod, Sbort) yn cynnig ffordd wahanol o feddwl am hyder: nid fel rhagofyniad i weithredu'n ieithyddol, ond fel rhywbeth sy'n datblygu drwy 'weithredu yn gyntaf.' Mae goblygiadau polisi clir i hyn, a'r rheini'n awgrymu bod ymyriadau bach, ymarferol a chefnogol—sy'n gwneud defnyddio'r Gymraeg yn hawdd, yn amserol, yn bleserus, yn gymdeithasol ac yn 'sbort'—yn debygol o fod yn fwy effeithiol na dulliau sy'n ceisio perswadio neu godi ymwybyddiaeth yn unig.

Yn mhennod 4 ('Cymdeithasoli'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol: diwylliant, hamdden a phobl ifanc') tynnir y syniad o gymdeithasoli'r Gymraeg i feysydd diwylliant, hamdden a bywyd pobl ifanc. Trafodir chwaraeon, cerddoriaeth, gweithgareddau ieuenctid a gofodau digidol fel lleoliadau lle gall y Gymraeg gael ei normaleiddio fel iaith gymdeithasol, yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae Saesneg neu ieithoedd eraill yn dominyddu bywyd bob dydd. Nid yw'r bennod hon yn awgrymu bod y meysydd hyn yn atebion ynddynt eu hunain, ond mae'n dangos eu pwysigrwydd fel rhan o ecosystem gymdeithasoli ehangach.

Mae pennod 5 ('Gweithleoedd a'r Gymraeg') yn canolbwyntio ar ein mannau gwaith, ac yn cynnig trafodaeth sy'n ategu'r gwaith sydd eisoes wrthi'n cael ei wneud ar gydymffurfiaeth ffurfiol â rheoliadau a/neu ddeddfwriaeth iaith o ran y gweithle. Yma, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rôl methodolegau diwylliant sefydliadol, arweinyddiaeth a chynllunio'r gweithlu wrth greu amodau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn rhwydd. Eto, mae'r pwyslais ar alluogi ymddygiad, yn hytrach na disgwyl i unigolion oresgyn rhwystrau systemig ar eu liwt eu hunain.

Ar draws yr adroddiad cyfan, daw un neges i'r amlwg: mae cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig ac is yn gofyn am newid mewn meddwl polisi. Mae hynny'n golygu symud o berswâd i alluogi, o ffocws ar unigolion i ddealltwriaeth ehangach o ecosystemau cymdeithasol, ac o ddisgwyl hyder fel man cychwyn tuag at greu'r amodau lle gall hyder dyfu drwy weithredu, yn unol ag egwyddorion CAM-Y a HAPUS.

Mae'n hargymhellion, ar y cyd ag argymhellion adroddiad cam cyntaf y Comisiwn yn anelu at sicrhau bod y Gymraeg yn rhan fyw, berthnasol ac integredig o fywyd Cymru gyfan ar ei holl ffurfiau. O'u rhoi ar waith gydag adnodd priodol a'r ewyllys i lwyddo, gyda'n gilydd gallwn sicrhau bod y Gymraeg yn cyrraedd pob cymuned.

7 Rhestr argymhellion

- 1) Iaith genedlaethol yw'r Gymraeg sy'n perthyn i bawb yng Nghymru yn ogystal ag i'w siaradwyr yng ngweddill y byd. Er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith genedlaethol fyw, mae angen ei chryfhau fel iaith gymunedol. Dylid grymuso cymunedau Cymraeg ledled Cymru, a chryfhau hefyd gynaliadwyedd y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg, a dylai polisi cyhoeddus adlewyrchu'r nodau hyn yn llawn.
- 2) Gan fod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, o bob cefndir, dylai'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned. Ni ddylai neb fethu cyrraedd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar sail amddifadedd cymdeithasol. Golyga hyn sicrhau amodau, adnoddau ac amgylchiadau priodol i'r iaith fod yn rhan o fywyd bob dydd i blant, pobl a chymunedau. Yn rhy aml mae'n rhaid i unigolion ymdrechu i gael cyrraedd y Gymraeg—yn eu cymunedau, eu gofodau cymdeithasol a digidol, mewn gweithleoedd ac mewn gweithgareddau ymarferol a hamdden. Dyma'r newid sydd angen ei roi ar waith o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd canolig ac is.
- 3) Mae'r gyllideb gyfredol ar gyfer adfywio'r Gymraeg ar y lefel gymunedol yn seiliedig ar gynsail hanesyddol, ac nid yw'n diwallu'r nod polisi tymor hir o greu Cymru ddwyieithog. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r gyllideb a ddyrennir i'r gwaith hwn yn sylweddol fel ei bod yn gymesur â'r dasg dan sylw.
- 4) Dylid cryfhau cynllunio ieithyddol cymunedol er mwyn ymestyn ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg. Dylai awdurdodau lleol mewn ardaloedd dwysedd canolig ac is gryfhau eu galluoedd cynllunio ieithyddol eu hunain, ochr yn ochr â galluoedd rhanddeiliaid y sector ac mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, i ddatblygu a gweithredu Strategaethau Hybu Iaith ymhellach.
- 5) Wrth sefydlu grŵp tasg a gorffen ym maes amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg dylai Llywodraeth Cymru ehangu cylch ei orchwyl i gynnwys ardaloedd o ddwysedd canolig ac is.
- 6) Dylai Llywodraeth Cymru, cyrff priodol eraill, ar y cyd â sefydliadau ymbarél datblygu cymunedol, lunio canllaw i'r sector datblygu cymunedol ymgorffori cymdeithasoli iaith yn eu gwaith mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is.
- 7) Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at y cyfraniad y gall y gwyddorau ymddygiadol ei roi i'r maes hwn. Dylai Llywodraeth Cymru integreiddio modelau newid ymddygiad yr ydym yn eu hamlinellu (megis CAM-Y a HAPUS) ar draws polisi a chynllunio iaith.
- 8) Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chomisiynu ymchwil gymdeithasol leol fanwl i ddeall cyfansoddiad, dynameg a phatrymau defnydd iaith mewn cymunedau. Dylai hyn hefyd gynnwys sefydlu arolwg defnydd iaith hydredol ar gyfer y Gymraeg.

- 9) Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o sut mae (a sut y gallai) Awdurdodau Lleol a sefydliadau perthnasol eraill ymgorffori'r Gymraeg (mewn ffordd briodol i'r cyd-destun, ac ar ben dyletswyddau statudol) fel rhan o wasanaethau lles, cymdeithasol neu gymunedol mewn ardaloedd o ddwysedd canolig neu is, mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth i'r gwasanaethau hynny ac i brofiad eu defnyddwyr.
- 10) Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cymunedol, fel llyfrgelloedd, hybiau cymunedol a mannau cyfarfod eraill. Drwy Strategaethau Hybu'r Gymraeg, a thrwy bartneriaethau lleol rhwng rhanddeiliaid allweddol, dylai, o fewn ardaloedd o ddwysedd canolig ac is, fod o leiaf un gofod cymdeithasol, ac eithrio ysgolion, o fewn cyrraedd hawdd lle gall y gymuned ddefnyddio'r Gymraeg.
- 11) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymyriadau strategol wrth gymdeithasoli newydd-ddyfodiaid i Gymru o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig yn caniatáu digon o gyfleoedd i gael mynediad i'r Gymraeg ac i ennill sgiliau yn yr iaith. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid o'r tu allan i'r DU ddysgu Cymraeg (WSOL neu Gymraeg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) ochr yn ochr â'r ddarpariaeth ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) bresennol.

Dylai'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol (a'r Athrofa Dysgu Cymraeg genedlaethol sydd i'w sefydlu yn 2027) sefydlu rhaglenni wedi'u hanelu at newydd-ddyfodiaid i'r Deyrnas Unedig, a allai gynnwys ategu'r cynllun 'Siarad' presennol. Dylent hefyd ystyried sut y gallai'r cynlluniau hyn gysylltu â'r Cynllun Llysgenhadon Diwylliannol.
- 12) Dylai Llywodraeth Cymru rannu canfyddiadau'r ymchwil mae'n ei chynnal ar sail y gwyddorau ymddygiadol i drosglwyddo'r Gymraeg er mwyn hysbysu polisi a'r drafodaeth gyhoeddus. Dylai hefyd roi'r canfyddiadau ar waith fel rhan o'r 'Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd.' Dylid gwneud hyn drwy bob derbynnydd grant a phartner perthnasol.
- 13) Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi arfer gorau trosglwyddo'r Fasgeg ymhellach a mabwysiadu, lle bo hynny'n briodol, ddulliau tebyg, sy'n benodol i'r cyd-destun, ar gyfer y Gymraeg.
- 14) Dylai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gefnogi ysgolion a'u cymunedau o rieni a gofalwyr i chwarae rôl ganolog mewn cymdeithasoli ieithyddol y tu hwnt i addysg ffurfiol. Dylai rhaglenni Ysgolion Bro a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy fod yn ganolog i'r gwaith hwn. Dylai hyn gynnwys:
 - a. clustnodi arian cyfalaf a referniw ar gyfer cymdeithasoli iaith
 - b. swyddogion ymgysylltu â theuluoedd (sydd yn aml yn gweithio o ysgolion a/neu hybiau cymunedol) yn derbyn hyfforddiant cymdeithasoli iaith sy'n berthnasol i'w cymunedau
 - c. cymunedau o rieni a gofalwyr yn cael cefnogaeth i fod yn 'gynllunwyr iaith in situ' drwy ddarparu offer ymarferol iddynt, felly hefyd adnoddau digidol, a rhwydweithiau cymheiriaid i gymdeithasoli eu plant yn Gymraeg (p'un a ydynt hwythau'n medru'r Gymraeg ai peidio).

- 15) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori yn ei rhaglenni sy'n darparu gofal plant neu addysg cyn-ysgol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector i sicrhau bod plant a theuluoedd ledled Cymru yn cael mynediad teg i'r Gymraeg yn eu cymunedau yn ystod y ddarpariaeth blyneddau cynnar.
- 16) Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa i gryfhau presenoldeb y Gymraeg mewn mannau digidol ac o fewn cynnwys cyfryngau cymdeithasol i adlewyrchu'r defnydd cymdeithasol cyfoes o'r Gymraeg. Dylai hyn gynnwys canolbwyntio ar (a) gwella cynhyrchu a gwelededd cynnwys Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, (b) datblygu sgiliau cynhyrchu digidol yn Gymraeg ymhlith pobl ifanc a grwpiau targed eraill (c) cefnogi cyfraniad dylanwadyr cyfryngau cymdeithasol i'r ecosystem ddigidol Gymraeg.
- 17) Dylai Llywodraeth Cymru ddwysáu ei thrafodaethau strategol gyda chwmnïau technoleg perthnasol a rhanddeiliaid allweddol eraill gyda'r nod o wneud y Gymraeg mor hawdd i'w defnyddio â phosibl i'r defnyddiwr.
- 18) Mae diwylliant—a cherddoriaeth yn benodol—yn weithgareddau cymdeithasol pwysig lle gall cynulleidfaoedd eang fwynhau'r Gymraeg. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaethau a'i rhaglenni i gefnogi diwylliant yn cydnabod y rôl bwyrus sydd gan y sectorau hyn yn y defnydd cymdeithasol o'r iaith ymhlith pobl ifanc yn arbennig. Mae hyn yn cynnwys gwneud darpariaeth newydd lle bo angen ar gyfer seilwaith priodol (fel lleoliadau hygyrch, rhaglenni datblygu talent, ymgysylltu ag ysgolion ac ati) fel y gall mwy o gymunedau gael mynediad at ddiwylliant yn y Gymraeg.
- 19) Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi Chwaraeon Cymru, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol, i ddatblygu strategaeth i wella'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob camp ac i hyrwyddo cyfraniad chwaraeon at gymdeithasoli iaith ledled Cymru.
- 20) Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn garreg filltir strategol bwysig ac yn gyfle hanfodol i drawsnewid mynediad i'r Gymraeg. Clywodd y Comisiwn am amseroedd teithio afresymol i gyrraedd addysg cyfrwng Gymraeg a gweithgareddau allgyrsiol Cymraeg cysylltiedig. Felly, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol:
- a. fapio amseroedd teithio i weithgareddau allgyrsiol Cymraeg, gan gynnwys y rhai a ddarperir ar safleoedd ysgolion;
 - b. ystyried effaith amser teithio ar gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Gymraeg, wedi'u lleoli mewn ysgolion neu wedi'u trefnu ganddynt;
 - c. gosod amser teithio rhesymol ar gyfer addysg cyfrwng Gymraeg a'r gweithgareddau allgyrsiol.
- 21) Pan fo'r amseroedd teithio presennol yn afresymol, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod addysg Gymraeg a'r gweithgareddau allgyrsiol cysylltiedig ar gael o fewn amser teithio rhesymol.

- 22) Dylai Llywodraeth Cymru ehangu rhaglen 'Arwain Mewn Gwlad Ddwyeithog' yn sylweddol fel ei bod yn cyrraedd mwyafrif arweinwyr Cymru, boed yn rheolwyr haen uwch neu'r haen ganol, o'r sector cyhoeddus, preifat a trydydd sector. Dylai hefyd bennu amserlen bendant a thargedau clir ar gyfer hyn.
- 23) Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid perthnasol eraill ddefnyddio dull 'taith defnyddiwr' i sicrhau, o fewn ardaloedd o ddwysedd canolig neu is, bod yr holl gymorth ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar gael fel un profiad, waeth pwy yw'r darparwr. Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar newid diwylliannol, datblygu sefydliadol, cynllunio'r gweithlu, newid ymddygiad a thechnoleg iaith.
- 24) Dylai Llywodraeth Cymru wneud adolygiad o swyddogaethau Busnes Cymru er mwyn gwneud y gorau o'i pherthynas a'i dylanwad ar y sector breifat er mwyn gosod y Gymraeg yn greiddiol i'w gwaith o ddatblygu busnesau Cymru.
- 25) Dylai Llywodraeth Cymru roi'r Gymraeg wrth wraidd rhaglen waith a rôl y Partneriaethau Twf a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- 26) Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei phrosesau caffael i sicrhau bod y gwasanaethau a'r nwyddau y maent yn eu darparu, lle bo hynny'n berthnasol, yn bwrw agenda Cymraeg 2050 yn ei blaen.
- 27) Yn ei hymateb i adroddiad y Comisiwn ar gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid addasu cynlluniau datblygu lleol o fewn ardaloedd o ddwysedd canolig neu is i roi ystyriaeth briodol i sicrhau cyfleoedd a gofodau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.
- 28) Wrth weithredu ei hymateb i adroddiad y Comisiwn ar gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol gymryd camau er mwyn cynyddu, yn sylweddol, bresenoldeb gweledol y Gymraeg ar y stryd fawr.
- 29) Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad i weld i ba raddau y mae ei phrosesau dyfarnu grantiau yn cael eu defnyddio i wella'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn modd priodol a dylai weithredu ar sail canfyddiadau'r adolygiad hwnnw.
- 30) Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am fewnbwn gan Senedd Ieuenctid Cymru, Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a fforymau ieuenctid perthnasol eraill wrth iddi adolygu a/neu adnewyddu Cymraeg 2050. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sefydlu deialog barhaus gyda'r rhain er mwyn sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei hadlewyrchu o fewn cynllunio iaith ac wrth roi polisi iaith ar waith yng Nghymru.
- 31) Dylid defnyddio'r gwyddorau ymddygiadol i lunio argymhellion holl adroddiadau'r Comisiwn, yn ogystal ag adolygiad a/neu ddiweddariad o Cymraeg 2050.

8 Llyfryddiaeth

Alvarez Enparantza, J.L. 2001. *Hacia una Socio-Lingüística Matemática*. Sortzen: Euskal Soziolinguistika Institutua.

Amorrortu, E., Ortega, A., Idiazabal, I. ac Agirrebeitia, A.B. 2009. *Actitudes y prejuicios de los castellanohablantes hacia el euskera*. Vitoria-Gasteiz: Servicio Central de Publicaciones = Argitalpen Zerbitzu Nagusia. Ar gael ar: https://www.unetxea.org/dokumentuak/jarrerakcast_2009.pdf.

Bandura, R. 1997. *Self-efficacy: the exercise of Control*. New York: Freeman.

Behavioural Insights Team. 2015. *EAST: Four Simple Ways to Apply Behavioural Insights*. London: Behavioural Insights Team with HM Cabinet Office. Ar gael ar: <https://www.bi.team/publications/east-four-simple-ways-to-apply-behavioural-insights/>.

Bem, D.J. 1972. Self-perception theory. In: *Advances in experimental social psychology*. Elsevier, pp. 1–62. doi: 10.1016/S0065-2601(08)60024-6.

Birnie, I. 2024. The importance of capturing hearts and minds. The impact of parental ideologies in supporting children's minority language acquisition in the education system. *Living Languages* 3(1).

Bourdieu, P. 1986. Forms of Capital. In: Richardson, J. G. ed. *Handbook of Theory and Research for the Sociology of Education*. New York: Greenwood Press, pp. 241–258.

Brader, T. 2006. *Campaigning for Hearts and Minds: How Emotional Appeals in Political Ads Work*. Chicago: University of Chicago Press.

Brown, M.E. a Treviño, L.K. 2006. Ethical leadership: A review and future directions. *Leadership Quarterly* 17(6), pp. 595–616. doi: 10.1016/j.leaqua.2006.10.004.

Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. 2023. *Ysgrifennu Triawd: dylunio cynnwys dwyieithog ar gyfer gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr*. Caerdydd: Canolfan Gwasanaethau Digidol Cyhoeddus Cymru. Ar gael ar: <https://www.lulu.com/shop/nia-campbell-and-robert-mills-and-heledd-quaack-and-ceri-brunelli-williams/ysgrifennu-triawd/ebook/product-95mq6jq.html?q=&page=1&pageSize=4>.

Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. 2025. *Offer i ddylunio gwasanaethau*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://gwasanaethaucyhoeddusdigidol.llyw.cymru/service-design-tools/map-y-daith>.

Carroll, E a Mackie, K. 2016. *International Mediation: Breaking Business Deadlock*. 3rd ed. London: Bloomsbury Publishing.

Cenoz, J. 2009. *Towards multilingual education : Basque educational research from an international perspective*. Clevedon: Multilingual Matters.

Chwaraeon Cymru. 2024a. *Adolygiad a Chyfrifon Blynyddol y Loteri Chwaraeon Cymru 2023-24*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.chwaraeon.cymru/cynnwys/cyhoeddiadau-allweddol/>.

Chwaraeon Cymru. 2024b. *Arolwg Traciwr Gweithgareddau Cymru*. Caerdydd. Ar

gael ar: <https://www.chwaraeon.cymru/ymchwil-a-gwybodaeth/comres/arolwg-13-gorfennaf-2024/>.

Cliriza, M. del P. 2019. Bringing parents together: an innovative approach for parental involvement in an immersion school in the Basque Autonomous Community. *Journal of Multilingual and Multicultural Development* 40(1), pp. 50–63. doi: 10.1080/01434632.2018.1467424.

Claremont Communications. 2026. *Welsh Language Transmission Interventions: draft progress reports*. London.

Comisiwn Cymunedau Cymraeg. 2024. *Grymuso Cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*. Caernarfon. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/adroddiad-grymuso-cymunedau-cryfhaur-gymraeg>.

Comisiwn Cymunedau Cymraeg. 2025a. *Comisiwn Cymunedau Cymraeg: adroddiad ar gynllunio gwlad a thref*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/comisiwn-cymunedau-cymraeg-adroddiad-ar-gynllunio-gwlad-thref>.

Comisiwn Cymunedau Cymraeg. 2025b. *Cymraeg i bawb?: Sesiwn dystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru*. Ar gael ar: <https://busnes.senedd.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=742&MId=14853&Ver=4>.

Comisiynydd y Gymraeg. 2017. *Y Gymraeg yn y fasged siopa: agweddau cwsmeriaid at ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/media/5c2ndc5g/archfarchnadoedd-supermarkets.pdf>.

Comisiynydd y Gymraeg. 2018. *Defnyddio'r Gymraeg—yr achos busnes*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/media/yomo4b1a/defnyddior-gymraeg-yr-achos-busnes.pdf>.

Comisiynydd y Gymraeg. 2020. *Recriwtio: Dogfen gyngor arferion da*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cymorth-ac-adnoddau/gweithleoedd/categoriadau-a-hysbysebu-swyddi>.

Comisiynydd y Gymraeg. 2022. *Sefyllfa'r Gymraeg 2016–20: Adroddiad 5-mllynedd Comisiynydd y Gymraeg*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cyhoeddiadau/sefyllfar-gymraeg-2016-20-adroddiad-5-mllynedd>.

Comisiynydd y Gymraeg. 2026. *Cyfle ein cenhedlaeth, Sefyllfa'r Gymraeg 2021–25: Adroddiad 5-mllynedd Comisiynydd y Gymraeg*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cyhoeddiadau>.

Cunliffe, D. 2025. Exploring the presence of Cymraeg on TikTok. *New Media & Society* 27(8), pp. 4790–4821. Ar gael ar: <https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/14614448241243096>.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. 2011. *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*. Ar gael ar: <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh>.

Duranti, A., Ochs, E. a Schieffelin, B.B. 2011. *The handbook of language socialization*. Oxford: Wiley-Blackwell.

- Edmondson, A. 2018. *The Fearless Organization: Creating Psychological Safety in the Workplace for Learning, Innovation, and Growth*. Hoboken, NJ: John Wiley & Sons.
- Eisteddfod Genedlaethol. 2021. *Mas ar y Maes - Cylch: Cofio'n ôl*. Ar gael ar: <https://www.youtube.com/watch?v=pw2xGLAT7MQ>.
- Eusko Jaurlaritza Gobierno Vasco. 2022. *Plan de acción de las tecnologías de la lengua 2021-2024*. Ar gael ar: https://www.euskadi.eus/contenidos/informacion/gaitu_plana/es_def/adjuntos/GAITU_gaz.pdf.
- Evas, J. 1999. *Rhwystrau ar lwybr dwyieithrwydd*. Caerdydd: Prifysgol Cymru, Caerdydd. Ar gael ar: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/42030/>.
- Evas, J., Morris, J. a Whitmarsh, L. 2017. *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/trosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd>.
- Festinger, L. 2017. *A Theory of Cognitive Dissonance*. Macat Library. doi: 10.4324/9781912282432.
- Fishman, J.A. 1991. *Reversing language shift: Theoretical and empirical foundations of assistance to threatened languages*. Multilingual matters.
- Fogg, B.J. 2020. *Tiny habits: The small changes that change everything*. Boston, New York: Houghton Mifflin Harcourt.
- Galarraga, A. ac Uranga, B. 2021. *Enpresaren Erantzukizun Linguistikoa kudeatzeko Eredua (EEL Eredua)*. Ar gael ar: <https://soziolinguistika.eus/eu/argitalpenak/enpresaren-erantzukizun-linguistikoa-kudeatzeko-eredua-eel-eredua/>.
- Garcia-Ruiz, M. 2025. Euskararen jarraipena sustatzeko familien strategiak. *BAT Soziolinguistika Aldizkaria* 135(10.55714), pp. 43–63. Ar gael ar: <https://bat.soziolinguistika.eus/produktua/euskararen-jarraipena-sustatzeko-familien-estrategiak/>.
- Garrett, P.B. a Baquedano-López, P. 2002. Language socialization: Reproduction and continuity, transformation and change. *Annual review of anthropology* 31(1), pp. 339–361. Ar gael ar: <http://www.jstor.org/stable/4132884>.
- Gobierno Vasco; Gobierno de Navarra. 2024. *VII Encuesta Sociolingüística 2021*. Vitoria-Gasteiz. Ar gael ar: https://www.euskadi.eus/contenidos/informacion/eas_ikerketak/es_def/adjuntos/VII_Encuesta_sociolingüística_2021.pdf.
- Gobierno Vasco a Siadeco. 2021. *Estudio sobre la transmisión lingüística en el ámbito familiar*. Vitoria-Gasteiz. Ar gael ar: https://www.euskadi.eus/contenidos/informacion/eas_ikerketak/es_def/adjuntos/Familia-bidezko-hizkuntza-transmisioari-buruzko-ikerketa_ES.pdf.
- Goirigolzarri-Garaizar, J., Ortega, A. ac Amorrortu, E. 2025. Agency in muda processes: transforming subjectivities and linguistic practices in the Basque context. *Language Policy* 24(4), pp. 689–709. Ar gael ar: <https://link.springer.com/10.1007/s10993-025-09730-0>.

He, A.W. 2011. Heritage Language Socialization. In: Duranti, A., Ochs, E., and Schieffelin, B. B. eds. *The Handbook of Language Socialization*. Oxford: Wiley-Blackwell, pp. 587–609. doi: 10.1002/9781444342901.ch25.

Hernández García, J.M. 2005. *Euskara, comunidad e identidad. Elementos de transmisión, elementos de transgresión*. Erandio: Universidad del País Vasco-Euskal Herriko Unibertsitatea. Ar gael ar: <https://research.science.eus/documentos/5ecb7f6d2999521315202ecc>.

HICO. 2024. *Cymraeg 2050: Dull Newid sefydliadol*. Ffynnon Taf.

Higham, G. 2020. *Creu Dinasyddiaeth i Gymru: Mewnfudo Rhyngwladol a'r Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Hodges, R. 2009. Welsh language use among young people in the Rhymney Valley. *Contemporary Wales* 22(1), pp. 16–35. Ar gael ar: <http://www.ingentaconnect.com/content/uwp/cowa/2009/00000022/00000001/art00004>.

Hodges, R. 2012. Welsh-medium education and parental incentives – the case of the Rhymni Valley, Caerffili. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 15(3), pp. 355–373. doi: 10.1080/13670050.2011.636796.

Hodges, R. 2024. Defiance within the decline? Revisiting new Welsh speakers' language journeys. *Journal of Multilingual and Multicultural Development* 45(2), pp. 306–322. Ar gael ar: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/01434632.2021.1880416>.

Hodges, R. a Prys, C. 2019. The community as a language planning crossroads: macro and micro language planning in communities in Wales. *Current Issues in Language Planning* 20(3), pp. 207–225. Ar gael ar: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/14664208.2018.1495370>.

Iaith Cyf. 2010. *Defnydd Mewnol o'r Gymraeg Mewn Gweithleoedd: Adroddiad Terfynol*. Castell Newydd Emlyn.

Jobbins, S. 2013. *The Phenomenon of Welshness 2 - Or 'Is Wales Too Poor to Be Independent?'* Gwasg Carreg Gwalch. Ar gael ar: <https://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9781845274658/>.

Joly, L. 2025. Euskararen bizitasun digitala vs euskararen etorkizuna 'hoc tempore obsequium amicos, ueritas odium parit'. *BAT Soziolinguistika Aldizkaria* 135(2), pp. 159–181. doi: 10.55714/BAT-135.6.

Jones, E.H.G. 2025. Fel gall ein hiaith ni anadlu yma. *O'r pedwar gwynt*. Ar gael ar: <https://pedwargwynt.cymru/dadansoddi/fel-gall-ein-hiaith-ni-andalu-yma>.

Jones, K. a Morris, D. 2007a. Minority language socialisation within the family: Investigating the early Welsh language socialisation of babies and young children in mixed language families in Wales. *Journal of Multilingual and Multicultural Development* 28(6), pp. 484–501. doi: 10.2167/jmmd542.0.

Jones, K. a Morris, D. 2007b. Welsh-language Socialization within the Family. *Contemporary Wales* 20, pp. 52–70. Ar gael ar: <http://www.ingentaconnect.com/content/uwp/cowa/2007/00000020/00000001/art00005>.

- Kasares Corrales, P. 2013. Euskararen belaunez belauneko jarraipena eta hizkuntza sozializazioa Nafarroako familia euskaldunetan (1970-2012). *Fontes Linguae Vasconum* 116(116), pp. 209–233. Ar gael ar: <https://revistas.navarra.es/index.php/FLV/article/view/1338>.
- Kasares, P. 2012. Euskararen belaunez belauneko jarraipena hizkuntza sozializazioaren paradigmatic. *BAT Soziolinguistika Aldizkaria* 82(1), pp. 15–52. Ar gael ar: <https://soziolinguistika.eus/wp-content/uploads/2021/03/Paula-Kasares.pdf>.
- Kasares, P. 2014. *Euskaldun hazi Nafarroan: euskararen belaunez belauneko jarraipena eta hizkuntza sozializazioa familia euskaldunetan*. Bilbo: Universidad Pública de Navarra.
- Kasares, P. 2015. Euskararen belaunez belauneko jarraipena aztergai eta jomuga. *BAT Soziolinguistika Aldizkaria* 94(1), pp. 13–45.
- Kasares, P. 2017. La transmisión intergeneracional desde la socialización lingüística: el caso vasco. *Treballs de sociolingüística catalana* 27, pp. 133–147. Ar gael ar: <https://raco.cat/index.php/TSC/article/view/97376#.YuzxQtXgiyU.mendeley>.
- Kasares, P. 2020a. Familias vascohablantes: propuesta de definición desde la socialización lingüística. In: *Fontes Linguae Vasconum 50 urte. Ekarpak berriak euskararen ikerketari/Nuevas aportaciones al estudio de la lengua*. Gobierno de Navarra, pp. 351–362. Ar gael ar: <http://www.culturana Navarra.es/uploads/files/fontes50urte.22.pdf>.
- Kasares, P. 2020b. Transmisio komunitarioaz. *Berria*. November. Ar gael ar: https://www.berria.eus/euskal-herria/analisis-euskal-herria/transmisio-komunitarioaz_1283515_102.html.
- Kasares, P., Ortega, A. ac Amorrortu, E. 2022. Basque Intergenerational Transmission from a Language Socialisation Perspective. In: Hornsby, M., McLeod, W. ed. *Transmitting Minority Languages. Palgrave Studies in Minority Languages and Communities*. Palgrave Macmillan, Cham, pp. 217–246. doi: https://doi.org/10.1007/978-3-030-87910-5_9.
- King, K. a Fogle, L. 2006. Bilingual Parenting as Good Parenting: Parents' Perspectives on Family Language Policy for Additive Bilingualism. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 9(6), pp. 695–712. Ar gael ar: <http://www.tandfonline.com/doi/abs/10.2167/beb362.0>.
- Lencioni, P. 2002. *The Five Dysfunctions of a Team: A Leadership Fable, 20th Anniversary Edition*. San Fransisco: Jossey-Bass Inc Pub.
- Lewis, G., Jones, B. a Baker, C. 2012. Translanguaging: origins and development from school to street and beyond. *Educational Research and Evaluation* 18(7), pp. 641–654. Ar gael ar: <http://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/13803611.2012.718488>.
- Lewis, H. 2023. *Creu gwaith i gefnogi'r iaith?* Aberystwyth. Ar gael ar: <https://arsyllfa.cymru/cy/creu-gwaith-i-gefnogir-iaith/>.
- Lewis, H. 2025. *Tu Hwnt i ARFOR: strategaethau datblygu economaidd a'r Gymraeg*. Aberystwyth. Ar gael ar: https://pure.aber.ac.uk/ws/portalfiles/portal/90069894/Tu_hwnt_i_ARFOR_-

[adroddiad llawn TERFYNOL.pdf](#).

Lloyd-Williams, S.L., ap Gruffudd, G.S. a Jones, E.H.G. 2024. Datblygiad Addysg Gymraeg ers Datganoli. *Cylchgrawn Addysg Cymru/Wales Journal of Education* 26(2). doi: 10.16922/wje.26.2.6.

Llywodraeth Cymru. 2015. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-yr-hanfodion>.

Llywodraeth Cymru. 2017. *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg>.

Llywodraeth Cymru. 2020a. *Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/cymraeg-maen-perthyn-i-ni-i-gyd-html>.

Llywodraeth Cymru. 2020b. *Gwerthusiad o'r Siarter Iaith*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-siarter-iaith>.

Llywodraeth Cymru. 2020c. *Y Gymraeg yn y cartref ac mewn addysg (Arolwg defnydd iaith): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/y-defnydd-or-gymraeg-ynghymru-canfyddiadau-cychwynnol-gorffennaf-2019-i-fawrth-2020-diwygiedig>.

Llywodraeth Cymru. 2021a. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion*.

Llywodraeth Cymru. 2021b. *Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/trosglwyddor-gymraeg-defnydd-mewn-teuluoedd>.

Llywodraeth Cymru. 2022. *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: 2022*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-2022>.

Llywodraeth Cymru. 2023a. *Defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle (Arolwg Defnydd iaith): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/defnydd-or-gymraeg-yn-y-gweithle-arolwg-defnydd-iaith-gorffennaf-2019-i-fawrth-2020-html>.

Llywodraeth Cymru. 2023b. *Termau LHDTTC+: Rhestr o dermau Cymraeg a Saesneg o faes LHDTTC+*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/bydtermcymru/termau-lhdtc-html>.

Llywodraeth Cymru. 2024. *Cynllun gweithredu technoleg Gymraeg: adroddiad terfynol 2018 i 2024*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-technoleg-cymraeg-adroddiad-terfynol-2018-i-2024>.

Llywodraeth Cymru. 2025a. *Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft: crynodeb o'r ymatebion*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/cynllun-hawliau-pobl-anabl-drafft-crynodeb-or-ymatebion-html>.

Llywodraeth Cymru. 2025b. *Datganiad Ysgrifenedig: Technoleg a'r Gymraeg*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-technoleg-ar-gymraeg>.

Llywodraeth Cymru. 2025c. *Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025*. Ar gael ar:

<https://cyfraith.llyw.cymru/deddf-y-gymraeg-ac-addysg-cymru-2025>.

Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. 2015. *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <http://gov.wales/docs/statistics/2016/160301-welsh-language-use-in-wales-2013-15-cy.pdf>.

Luykx, A. 2003. Weaving languages together: Family language policy and gender socialization in bilingual Aymara households. In: Bayley, R. and Schechter, S. eds. *Bilingual Education and Bilingualism*. Clevedon: Multilingual Matters, pp. 25–43.

Mcelroy, R. a Noonan, C. 2016. Television drama production in small nations: Mobilities in a changing ecology. *Journal of Popular Television, The* 4(1), pp. 109–127. Ar gael ar: https://intellectdiscover.com/content/journals/10.1386/jptv.4.1.109_1.

Michie, S., van Stralen, M.M. a West, R. 2011. The behaviour change wheel: A new method for characterising and designing behaviour change interventions. *Implementation Science* 6(1), p. 42. Ar gael ar: <http://implementationscience.biomedcentral.com/articles/10.1186/1748-5908-6-42>.

Moran, N., a Bagchi, R. 2019. The Power of Emotional Benefits: Examining the Role of Benefit Focus on Donation Behavior. *Journal of Advertising* 48(3), pp. 284–291. doi: <https://doi.org/10.1080/00913367.2019.1602857>.

Morris, D. a Jones, K. 2008. Language socialization in the home and minority language revitalization in Europe. In: Hornberger, N. H. and Duffy, P. eds. *Encyclopedia of language and education*. 2nd ed. Boston: Springer, pp. 2699–2715.

Morris, J. a Parker, S. 2025. Intersecting Identities in Minority Language Contexts: LGBTQ+ Speakers of Welsh. In: Walsh, J. ed. *Queering Language Revitalisation: Navigating identity and inclusion among queer speakers of minority languages*. Cambridge: Cambridge University Press, pp. 6–20. Ar gael ar: <https://www.cambridge.org/core/product/identifier/9781009591034/type/element>.

Muñoz Barredo, I., Beola Olaziregi, A. a Lasa, X. 2024. Hezkuntzan soziolinguistika lantzen: zenbait gako eta esperientzia. *BAT Soziolinguistika Aldizkaria* 131(2), pp. 15–37. Ar gael ar: <https://bat.soziolinguistika.eus/produktua/hezkuntzan-soziolinguistika-lantzen-zenbait-gako-eta-esperientzia/>.

Nandi, A. 2018. Parents as stakeholders: Language management in urban Galician homes. *Multilingua* 37(2), pp. 201–223. Ar gael ar: <https://www.degruyter.com/document/doi/10.1515/multi-2017-0020/html>.

Nandi, A., Kasares, P. a Manterola, I. 2024. Countering government's low-intensity language policies on the ground: family language policies in Castilian-Spanish dominated Galicia and Navarre. *Critical Inquiry in Language Studies* 21(3), pp. 354–378. doi: 10.1080/15427587.2023.2247510.

Nandi, A., Manterola, I., Reyna-Muniain, F. a Kasares, P. 2022. Effective family language policies and intergenerational transmission of minority languages: Parental language governance in indigenous and diasporic contexts. In: *Transmitting minority languages: Complementary reversing language shift strategies*. Springer, pp. 305–329.

Nelde, P.H., Williams, G. a Strubell i Trueta, M. 1996. *Euromosaic: the production*

and reproduction of the minority language groups of the EU. Strubell i Trueta, M., Williams, G., Commission of the European, C., and European, U. eds. Luxembourg: Luxembourg : Office for Official Publications of the European Communities.

Ó Giollagáin, C., Bourgeois, D., Ó Curnáin, B., Caimbeul, I. a Cameron, G. 2025. Language Dynamics in Society (LanDS): The LanDS Analytical Framework for Majority and Minority-Language Ethnolinguistic Vitality. *Journal of Ethnic Studies* 94(1), pp. 25–75. Ar gael ar: <https://www.sciendo.com/article/10.2478/tajes-2025-0002>.

Ó Giollagáin, C., Camshron, G., Moireach, P., Ó Curnáin, B. a Caimbeul, I. 2020. *The Gaelic Crisis in the Vernacular Community: a comprehensive sociolinguistic survey of Scottish Gaelic*. Aberdeen: Aberdeen University Press. Ar gael ar: <https://www.fulcrum.org/concern/monographs/th83m2602>.

Ofcom. 2025. *Ein Gwlad Ar-lein*. Ar gael ar: <https://www.ofcom.org.uk/cy/media-use-and-attitudes/online-habits/online-nation?language=cy>.

Office for National Statistics. 2025. *Who has access to hybrid work in Great Britain?* Ar gael ar: <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/whohasaccesstohybridworkinggreatbritain/2025-06-11>.

Ortega, A., Amorrortu, E., Goirigolzarri, J. ac Urla, J. 2016a. *Los nuevos hablantes de euskera: experiencias, actitudes e identidades*. Ar gael ar: <https://blogs.deusto.es/euskalgaiak/wp-content/uploads/sites/42/2016/11/Nuevos-hablantes-de-euskera-DIG.pdf>.

Ortega, A., Goirigolzarri, J. ac Amorrortu, E. 2022. Participatory action research to promote linguistic mudas among new speakers of Basque: design and benefits. *Journal of Multilingual and Multicultural Development* 43(1), pp. 55–67. Ar gael ar: <https://doi.org/10.1080/01434632.2021.1968877>.

Ortega, A.J., Amorrortu, E. ac Goirigolzarri, J. 2016b. Authenticity and Linguistic Variety among New Speakers of Basque. *Language Documentation and Conservation Special in Europe* 9, pp. 1–12.

Podsakoff, P. M., MacKenzie, S. B., Paine, J. B., a Bachrach, D.G. 2000. Organizational Citizenship Behaviors: A Critical Review of the Theoretical and Empirical Literature and Suggestions for Future Research. *Journal of Management* 26(3), pp. 513–563.

Price, A., O'Torna, C. a Jones, A.W. 1997. *The Diversity Dividend/Rhagoriaeth Amrywiaeth*. Brussels: European Bureau for Lesser-used Languages.

Prosiect BRO. 2024. *Compendiwm Prosiect BRO o Ystadegau Iaith Cyfrifiad 2021*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/adroddiad-grymuso-cymunedau-cryfhaur-gymraeg>.

Prosiect BRO. 2026. *Prosiect Bro: Arolwg Sosioieithyddol Cynhwysfawr o Gymunedau Cymraeg Cyfoes*. Ar gael ar: <https://www.wales.ac.uk/cy/bro>.

Prys, C., Bonner, E. a Hodges, R. 2024. *Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog*. Bangor. Ar gael ar: <https://indd.adobe.com/view/c36da48a-3b63-4cd2-8790-36e767c1b818>.

Royles, E. 2025. *ARFOR, gweithleoedd a'r Gymraeg: Gwersi arfer da o ran effaith gweithleoedd ar ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol i gefnogi gwaith rhaglen ARFOR II*. doi: 10.20391/833f269f-c5b1-4a36-aeca-436697e60ffe.

S4C. 2025. *Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2024-2025*. Caerdydd. Ar gael ar: <https://www.gov.uk/government/publications/s4c-annual-report-and-accounts-2024-to-2025>.

Sacks, H. 1984. On Doing 'Being Ordinary'. In: Atkinson, J. M. and Heritage, J. eds. *Structures of Social Action*. Cambridge: Cambridge University Press, pp. 413–429.

Saragueta, E. a Leonet, O. 2025. Helduen ikuspegitik udalerri euskaldunetako haurren euskara erabileraren mapa osatzen. *BAT Soziolinguistika Aldizkaria* 135(2), pp. 65–89. Ar gael ar: <https://bat.soziolinguistika.eus/produktua/helduen-ikuspegitik-udalerri-euskaldunetako-haurren-euskara-erabileraren-mapa-osatzen/>.

Schieffelin, B.B. ac Ochs, E. 1986. *Language socialization*. Oxford: JSTOR. Ar gael ar: <http://www.jstor.org/stable/2155759>.

Senedd Cymru. 2026. *Adroddiad 'Cymraeg i bawb?'* Caerdydd. Ar gael ar: <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=45058>.

Statiaith. 2025. *Trosglwyddo'r Gymraeg: dadansoddiad yn ôl NS-SEC*. Ar gael ar: https://statiaith.com/cymraeg/cyfrifiad2021/dadansoddiad_trosglwyddo_a_ns_sec.html.

Walsh, J. 2025. Queering Language Revitalisation: How a Queer Arts Collective Navigates Identity, Migration, and the Irish Language. In: Walsh, J. ed. *Queering Language Revitalisation Navigating Identity and Inclusion among Queer Speakers of Minority Languages*. Cambridge: Cambridge University Press (Elements in Language, Gender and Sexuality), pp. 21–30. doi: 10.1017/9781009591034.

Walsh, J., Hornsby, M., Daussà, E.J., Pera-Ros, R., Parker, S., Morris, J. a Cashman, H.R. 2025. *Queering Language Revitalisation*. Cambridge: Cambridge University Press (Elements in Language, Gender and Sexuality). doi: 10.1017/9781009591034.

Wavehill. 2021. *Gwerthuso, Casgliadau ac Argymhellion Rhaglen Arfor*. Aberaeron. Ar gael ar: https://www.rhaglenarfor.cymru/dogfennau/Gwerthusiad_Arfor_-_adroddiad_terfynol_-_Hydref_2021.pdf.

Wavehill. 2025. *Rhaglen ARFOR 2: Gwerthuso, Monitro, a Dysgu Adroddiad Terfynol*. Aberaeron. Ar gael ar: <https://www.rhaglenarfor.cymru/index.html>.

Williams, S. 2024. *Informal use of Welsh: Perspectives of Young People from Medium-Welsh Schools*.

(2020)